Rhaglen Gyflawn

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

Cyfarfod

**BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**

Dyddiad ac Amser

**1.00 y.h., DYDD GWENER, 28AIN MEHEFIN, 2019**

Lleoliad

**Ystafell Madog, Coleg Llandrillo, Ffordd Llandudno, Llandrillo yn Rhos LL28 4HZ**


Pwynt Cyswllt

**Annes Sion**

**01286 679490**

**AnnesSion@gwynedd.llyw.cymru**


(Dosbarthwyd Dydd Gwynedd, 21 Mehefin 2019)

# BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

## Aelodau a phleidlais

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Hugh Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| Llinos Medi Huws | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Mark Pritchard | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Ian B. Roberts | Cyngor Sir y Fflint |
| Dyfrig L. Siencyn | Cyngor Gwynedd |
| Sam Rowlands | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

## Ymgynghorwyr - Heb Bleidlais

| | |
|---|---|
| Dafydd Evans | Grwp Llandrillo Menai |
| Maria Hinfelaar | Prifysgol Glyndwr |
| David Jones | Coleg Cambria |
| Is-ganghellor, yr Athro Graham Upton | Prifysgol Bangor |
| Ashley Rogers | Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy |
| Sasha Davies | Bwrdd Cyflenwi Busnes |

## Prif Swyddogion - Heb Bleidlais

| | |
|---|---|
| Dr Gwynne Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Iwan Davies | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Colin Everett | Cyngor Sir y Fflint |
| Judith Greenhalgh | Cyngor Sir Ddinbych |
| Ian Bancroft | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Dilwyn Williams | Cyngor Gwynedd |

## Swyddogion yn bresennol

| | |
|---|---|
| Dafydd L. Edwards | Swyddog Adran 151 |
| Iwan Trefor Jones | Cyfarwyddwr Arweiniol y Bwrdd |
| Iwan G. Evans | Swyddog Monitro |

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

## 4. DIWEDDARIAD AR RHAGLEN WAITH — 4 - 28

Adroddiad gan Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol (ynghlwm)

## 5. STRWYTHUR Y SWYDDFA RHAGLEN — 29 - 37

Adroddiad gan Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol (ynghlwm)

## 6. DIRPRWYO A STAFFIO — 38 - 39

Adroddiad gan Iwan Evans, Swyddog Monitro (ynghlwm).

## 7. DIWEDDARIAD TRAFNIDIAETH A CHYNNYDD GYDA SEFYDLU IS-GRWP TRAFNIDIAETH — 40 - 68

Adroddiad gan Iwan Prys Jones – Rheolwr Rhaglen (ynghlwm).

## 8. RHAGLEN SGILIAU A CHYFLOGAETH, GWELDIGAETH GOGLEDD CYMRU — 69 - 82

Adroddiad gan Iwan Trefor Jones – Cyfarwyddwr Arweiniol a Sioned Williams – Is Gadeirydd Y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol (ynghlwm).

## 9. SEFYDLU IS-GRWP YNNI A DIWEDDARIAD AR GYNLLUNIO YNNI RHANBARTHOL — 83 - 88

Adroddiad gan Rhys Horan – Arweinydd Strategol Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru (ynglwm).

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

**ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**
**28ain Mehefin, 2019**

**TEITL:** *Diweddariad ar Raglen Waith y Bwrdd Uchelgais*

**AWDUR:** *Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol – Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru*

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1. Cafodd cais ei wneud gan Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i'r Rhaglen Waith gael ei gyflwyno i bob cyfarfod bwrdd.

**2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

2.1. Adolygu, diweddaru a cymeradwyo statws RAG pob tasg o fewn y Rhaglen Waith.

**3. RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

3.1. Diweddaru ar gynnydd tasgau'r Rhaglen Waith.

**4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL**

4.1. **Rhaglen Waith** (Atodiad 1)

4.1.1. Mae'r rhaglen waith yn gosod allan tasgau allweddol ar gyfer y Bwrdd Uchelgais. Mae'r rhaglen waith yn adnabod 10 categori allweddol, gyda tasgau penodol yn erbyn y categorïau. Mae amserlen a cyfrifoldeb wedi osod yn erbyn pob tasg, ynghyd a statws RAG.

4.1.2. Mae pob tasg wedi ei adolygu ac wedi cael statws RAG, yn unol a'r canllawiau isod:

| Statws RAG | Statws y dasg | Camau angenrheidiol |
|---|---|---|
| **GWYRDD** | Ar y trywydd iawn i'w gwblhau o fewn yr amserlen ddymunol | Dim angen camau rheoli |
| **MELYN** | Efallai bod risg na fydd y dasg yn cyrraedd yr amserlen | Camau rheoli ei angen i fynd i'r afael â materion |
| **COCH** | Mae risg bod y dasg yn mynd i fethu'r dyddiad cwblhau a amserlenwyd | Camau brys eu hangen i fynd i'r afael â materion |

4.1.3. Ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd Uchelgais, mae'r rhaglen waith wedi addasu a'i rannu yn ddau dabl. Gyda'r tabl cyntaf yn adnabod rhestr o dasgau ar gyfer y dyfodol, a'r ail dabl yn dangos rhestr o dasgau sydd wedi cwblhau. Mae pob tasg yn cymryd i ystyriaeth y gofynion adrodd, gan gynnwys adroddiadau i'r Bwrdd Uchelgais ynghyd a adroddiadau i Gynghorau unigol.

4.1.4. Yn ychwanegol mae rhestr o benderfyniadau'r Bwrdd Uchelgais wedi cynnwys yn atodiad 2.

4.1.5. Mae un tasg yn y rhaglen waith yn parhau gyda statws RAG coch:

4.1.5.1. Cymeradwyaeth ffurfiol i Benawdau'r Telerau ar gyfer y Cynllun Twf – Rydym wedi cael gwybodaeth ar lafar y byddwn yn gweld copi drafft o Benawdau'r Telerau yn fuan. Mae'r Sesiynau Herio gyda'r Sector Breifat a Gweinidogion wedi trefnu ar gyfer 27ain o Fehefin 2019.

4.1.6. Mae pob tasg arall sydd wedi amserlennu ar gyfer Ch2 2019 ar y trywydd iawn i gwblhau o fewn yr amserlen ac efo statws RAG gwyrdd neu melyn. Weler iod gynnydd ar dasgau penodol:

4.1.6.1. Erbyn hyn mae adborth ar y cyd gan y ddwy Lywodraeth wedi dderbyn ar y 6 prosiect sydd yn Cam 1. Yn ogystal mae Llywodraeth Cymru wedi darparu adborth manwl ar Achosion Busnes Amlinellol bob un o'r 14 prosiect.

4.1.6.2. Mae gwaith yn cael ei wneud i gadarnhau proffiliau gwariant y prosiectau unigol, unwaith fydd hyn wedi gwblhau bydd swyddogion cyllid y corff atebol yn comisiynu ymgynghorwyr i wneud darn o waith ar y costau benthyg.

4.1.6.3. Mae'r Adran Digidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon wedi cymeradwyo hyd at £7miliwn ar gyfer yr ardal i symud o wasanaethau sy'n seiliedig ar gopr i ddarpariaeth optig ffibr llawn sy'n addas ar gyfer gigabit, fel rhan o'i Raglen Rhwydwaith Ffibr Llawn Lleol (LFFN).

4.1.6.4. Ar gais y Bwrdd Uchelgais, mae drafft gweithredol o'r adroddiad chwarterol wedi gynnwys yn Atodiad 3. Fersiwn drafft yw hwn, sydd angen gwaith pellach. Ond dyma gyfle i holi'ch barn ar y templed ar cynnwys. Y bwriad ydi rhyddhau cylchlythyr chwarterol dwy ochr, yn hytrach na adroddiad sylfaenol. Bydd disgwyl i bartneriaid rannu'r adroddiad o fewn ei sefydliadau.

4.1.6.5. Mae'r swydd Rheolwr Rhaglen Ddigidol wedi ei hysbysebu, gyda dyddiad cau i dderbyn ceisiadau ar y 4ydd o Orffennaf, 2019. Mae holl fanylion y swydd ar gael ar wefan y Bwrdd Uchelgais.

4.1.7. Yn dilyn cyfarfod y Bwrdd Uchelgais ar 28ain o Fai, 2019 anfonwyd llythyr o ddiweddariad at Ken Skates AC, Alun Cairns AS ac Kevin Foster AS (Atodiad 4). Bydd gohebiaeth tebyg yn cael ei anfon i Weinidogion yn dilyn pob cyfarfod y Bwrdd Uchelgais.

**5. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

5.1. Dim.

**6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

6.1. Dim.

**7. GOBLYGIADAU STAFFIO**

7.1. Dim.

**8. EFFAITH AR GYDRADDOLDEB**

8.1. Dim.

**9. YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD**

9.1. Mae'r Rhaglen Waith wedi drafod a'i gymeradwyo gan y Grŵp Swyddogion Gweithredol ar 14/06/19.

**ATODIADAU:**

| | |
|---|---|
| **Atodiad 1** | Rhaglen Waith |
| **Atodiad 2** | Rhestr o benderfyniadau |
| **Atodiad 3** | Adroddiad Chwarterol Drafft |
| **Atodiad 4** | Llythyr i Weinidogion 28/05/2019 |

---

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro – Corff Atebol:**

"Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb."

**ii. Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 y Corff Atebol):**

"Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol."

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

**RHAGLEN WAITH SYLFAENOL AR GYFER Y BWRDD UCHELGAIS**

| Categori | Gweithred | Amserlen (Chwarteri, blwyddyn galendr) | Cyfrifoldeb | Adrodd | | Statws RAG | Risg wedi adnabod |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Bwrdd Uchelgais | Cynghorau | | |
| **Penawdau'r Telerau** | • Cymeradwyo/Adborth ar yr Achosion Busnes Amlinellol | Ch2 2019 | Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru | | | Adborth wedi dderbyn | HT 04 |
| | • Sesiynau Herio gyda Gweinidogion o Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. | Ch2 2019 | Cynrychiolydd o'r Cyd-bwyllgor gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru | | | | HT 02 |
| | • Cymeradwyo Drafft Cynllun Gweithredu'r Cynllun Twf. | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor | | | Wedi gyflwyno i LlP ac LlC ar 24/03/2019 | HT 05 |
| | Fersiwn derfynol o’r Cynllun Gweithredu | Ch3 2019 | Cyd-bwyllgor | 20/09/19 | | | |
| | • Cytuno ar lefel briodol a chymesur o asesu a gwerthuso achosion busnes ar gyfer prosiectau'r cynllun twf. | Ch2 2019s | Cyd-bwyllgor / Llywodraeth y DU / LlC | | | | HT 04 |
| | • Cymeradwyaeth ffurfiol i Benawdau'r Telerau ar gyfer y Cynllun Twf. | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor / Llywodraeth y DU / LlC<br><br>Bydd angen ystyried hyn fel mater a allai olygu cael penderfyniad y Cynghorau unigol ar yr adeg briodol. | 26/07/19 | | | HT 01 |
| | • Cytuno ar y "cynlluniau ar yr ochr" gyda LlC neu MoUs (er enghraifft Trafnidiaeth, eiddo, Twf Busnes, Sgiliau i | Ch3 2019 | Cyd-bwyllgor / LlC | | | | HT 06 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | gyflawni'r Weledigaeth Twf). | | | | | | |
| **Llywodraethu** | • Adnabod cylch gorchwyl cychwynnol ar gyfer yr is-bwyllgorau "anffurfiol" (Sgiliau a Chyflogaeth, Safleoedd ac Eiddo, Busnes ac Arloesi, Twristiaeth). | Ch3 2019 | Cyd-bwyllgor | ✓ | | | GO 08 |
| | • Cytundeb ar Drefniadau Craffu. | O fewn GA2 | Cyd-bwyllgor a Trefniadau craffu'r Cynghorau | ✓ | | | GO 09 |
| | • Ymgymryd â phroses benodi gyhoeddus ar gyfer y Bwrdd Cyflawni Busnes. | Ch3 2019 | Cyd-bwyllgor | | | | GO 11 |
| | • Trafod a chytuno ar gydweithio a model llywodraethu gyda'r Grŵp Tai | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor | 26/07/19 | | | |
| | • Trefniadau Llywodraethu / Cyflawni Masnachol | Ch3 2019 | Cyd-bwyllgor | 26/07/19 | | | |
| | • Cymeradwyo dogfen "Ein dull Gweithredu" sydd yn gosod trefniadau diwylliannol ar gyfer y Bwrdd Uchelgais | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor | ✓ | | | |
| **Cyllid** | • Adnabod, adolygu a chytuno ar gyllideb dros 3 blynedd a chyfraniadau gan yr holl bartneriaid. | Ch1 2020 | Corff Atebol / Cyd-bwyllgor<br><br>Bydd cynnydd mewn cyfraniadau yn faterion a gedwir i'r Partïon | | | Bydd yn cael ei adrodd yn ystod Ch1 2020 | FIN 01 |
| | • Cytuno ar y sefyllfa gyda NNDR a chyfalafu. | Ch3 2019 | Swyddogion Adran 151 / Corff Atebol / Cyd-bwyllgor | | | | FIN 02 |
| | • Adnabod a chytuno ar ofynion benthyca'r Awdurdodau Lleol. | Ch3 2019 | Partneriaid a Swyddogion Cyllid y Corff Atebol | | | | FIN 03 |
| | • Cymeradwyo'r Cynllun Cyllidol | Ch4 2019 | Swyddogion Adran 151 / Corff Atebol / Cyd-bwyllgor | 18/10/19 | Medi/ Hydref 2019 | | |
| | • Arian Llywodraeth yn cael ei ryddhau ar gyfer prosiectau | Ch2 2020 | Llywodraeth y DU / LlC | | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Swyddfa Rhaglen** | • Penodi Cyfarwyddwr Rhaglen. | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor | 21/06/19 | | | PO 01 |
| | • Cytuno ar ddyluniad, cost a strwythur y Swyddfa Rhaglen. | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor / Corff Atebol | 28/06/19 | | | PO 02 |
| | • Cytuno ar Gais Capasiti Sefydliadol ESF i gefnogi gyda gwaith y Swyddfa Rhaglen. | Ch3 2019 | Cyd-bwyllgor / Corff Atebol | 26/07/19 | | | PO 03 |
| | • Penodi Rheolwyr Rhaglen o fewn y Swyddfa Rhaglen. | Ch3 2019 | Cyd-bwyllgor / Corff Atebol | | | Swydd ddisgrifiad cyffredinol drafft wedi baratoi | PO 04 |
| **Strategaethau a Phrosiectau a Gomisiynwyd** | • Cytuno ar y Broses Cymeradwyo Prosiectau (a'r broses ddirprwyo). | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor / Llywodraeth y DU / LlC | | | | CSP 01 |
| | • Cytuno ar brosiect Rhwydwaith Busnes Gogledd Cymru a'r Cynllun Gweithredu. | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor | 20/09/19 | | | CSP 02 |
| | • Cytuno ar Memorandwm cyd-ddealltwriaeth | Ch1 2020 | Cyd-bwyllgor | Mawrth 2020 | | | CSP 02 |
| | • Cyflwyno’r prosiect LFFN. | Ch2 2019 ymlaen | Cyd-bwyllgor | | | | |
| | • Datblygu Modelau Busnes Pum Achos ar gyfer Prosiectau'r Cynllun Twf. | Ch2/Ch3 2019 ymlaen | Cyd-bwyllgor | | | | |
| | • Cwblhau Achosion Busnes llawn ar gyfer y prosiectau cyntaf | Ch3 2020 | Cyd-bwyllgor / Llywodraeth y DU / LlC | | | | |
| | • Gweithredu prosiectau | 2020/21 | Cyd-bwyllgor | | | | |
| | • Cymeradwyo'r Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth. | Ch3 2019 | Cyd-bwyllgor | 20/09/19 | | | |
| **Cyfreithiol a Chaffael** | • Datblygu Templed o Gytundeb Ariannu i alluogi trosglwyddo arian y Cynllun Twf i Awdurdodau Arweiniol y Prosiectau sy'n derbyn yr arian. | Ch3 2019 | Corff Atebol / Swyddogion Adran 151 / Monitro / Cyd-bwyllgor | | | | |
| | • Cytuno ar gynllun prosiect ac amserlen i fabwysiadu Cytundeb Llywodraethu 2. | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor / Swyddogion Monitro | | | | LP 01 |
| | • Paratoi drafft gweithredol Cytundeb Llywodraethu 2 | i’w gadarnhau | Swyddogion Monitro | | | | |
| | • Paratoi drafft terfynol Cytundeb | | | | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Llywodraethu 2 ar gyfer cymeradwyaeth | | | | | | |
| | • Mabwysiadu Cytundeb Llywodraethu 2 | Q3 2020 | Materion sydd wedi'u cadw i'r partïon | ✓ | ✓ | | GO 07 |
| | • Arwyddo y Cynllun Terfynol | Q3 2020 | Materion sydd wedi'u cadw i'r partïon | ✓ | ✓ | | |
| | • Cytuno ar Strategaeth Gaffael y Cynllun Twf. | Ch3 2019 | Cyd-bwyllgor / Corff Atebol | ✓ | | | LP 02 |
| **Monitro ac Arfarnu** | • Cytuno ar Gynllun Monitro ac Arfarnu. | Ch3 2019 | Cyd-bwyllgor | ✓ | | | MP 02 |
| | • Gwerthuso effaith prosiectau | 2020/21 | Cyd-bwyllgor | | | | |
| **Ymgysylltu a Chyfathrebu â Rhanddeiliaid** | • Datblygu a chytuno ar gynllun ymgysylltu â busnesau a rhanddeiliaid gwleidyddol. | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor | | | | SEC 01 |
| | • Adroddiad cynnydd chwarterol i bartneriaid | Chwarterol o Ch2 2019 | Swyddfa Rhaglen | | | | |
| **Swyddogaeth Ranbarthol Strategol** | • Edrych i mewn i swyddogaethau strategol allweddol ar lefel ranbarthol a fydd yn helpu i gefnogi gweithrediad y cynllun a gweithgareddau datblygu ehangach. | Parhaus | Cyd-bwyllgor / Llywodraeth y DU / LlC | | | | |
| **Ymgysylltu a Chyfathrebu â Rhanddeiliaid** | • Cytuno ar brotocol gyda Gweinidog Gogledd Cymru a'r Pwyllgor Sefydlog Rhanbarthol newydd. | Ch3 2019 | Cyd-bwyllgor / Gweinidog Gogledd Cymru / Pwyllgor Sefydlog Rhanbarthol | | | | |
| **Rheoli Cyflawni** | • Pob Bwrdd Prosiect yn ei le i gydlynu cyflawni'r prosiectau sydd wedi'u comisiynu. | Parhaus | Arianwyr y Prosiectau | | | | GO 08 |

# TASGAU WEDI CWBLHAU

| Categori | Gweithred | Amserlen (Chwarteri, blwyddyn galendr) | Cyfrifoldeb | Adrodd | | Statws RAG | Risg wedi adnabod |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Bwrdd Uchelgais | Cynghorau | | |
| **Penawdau'r Telerau** | • Cymeradwyo "Rhaglenni" ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru. (3 Maes Thematig Allweddol a 4 Hwylusydd Allweddol). | Ch1 2019 | Cyd-bwyllgor | | | WEDI GWBLHAU | |
| | • Asesu'r opsiynau a chytuno ar ffordd ymlaen ar y gyllideb o £240 miliwn sydd gael gan Lywodraeth y DU/Llywodraeth Cymru i gyflawni'r Cynllun Twf. (Cynllun Gweithredu Drafft) | Ch1 2019 | Cyd-bwyllgor | | | WEDI GWBLHAU | HT 05 |
| | • Adolygu Achosion Busnes Amlinellol i gyd-fynd â'r ymrwymiad yn y Cynllun Gweithredu Drafft. | Ch1 2019 | Y Grŵp Cefnogaeth Weithredol | | | WEDI GWBLHAU | HT 04 |
| **Llywodraethu** | • Ffurfio'r Cyd-bwyllgor yn ffurfiol. | Ch1 2019 | Corff Atebol | 1/2/19 | | WEDI GWBLHAU | GO 03 |
| | • Trefniadau ymarferol ar gyfer y Cyd-bwyllgor. | Ch1 2019 | Corff Atebol / Cyd-bwyllgor | | | WEDI GWBLHAU | GO 03 |
| | • Cytuno ar Gylch Gorchwyl ac ymgysylltiad gyda'r Bwrdd Cyflawni Busnes (bwrdd ymgynghorol y sector preifat). | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor | 17/5/19 | | WEDI GWBLHAU | GO 10 |
| | • Adnabod a chytuno ar raglen waith chwe mis ar gyfer y Cyd-bwyllgor. | Ch1 2019 | Cyd-bwyllgor | 1/2/19 | | WEDI GWBLHAU | GO 05 |
| | • Adnabod cylch gorchwyl cychwynnol ar gyfer is-bwyllgorau, yn benodol yr is-bwyllgor trafnidiaeth a'r is-bwyllgor digidol. | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor | | | WEDI GWBLHAU | GO 08 |
| | • Adnabod a dewis yn derfynol y Corff Atebol ar gyfer GA2. | Ch3 2019 | Cyd-bwyllgor | | | WEDI GWBLHAU | GO 07 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyllid** | • Adnabod, adolygu a chytuno ar gyllideb ar gyfer 2019/20 a chyfraniadau gan yr holl bartneriaid. | Ch1 2019 | Corff Atebol / Cyd-bwyllgor | 15/3/19 | | WEDI GWBLHAU | FIN 01 |
| | • Cytuno ar gyllideb ar gyfer y Corff Atebol. | Ch1 2019 | Cyd-bwyllgor | 15/3/19 | | WEDI GWBLHAU | FIN 01 |
| **Swyddfa Rhaglen** | • Cytuno ar y broses recriwtio ar gyfer Cyfarwyddwr Rhaglen. | Ch1 2019 | Cyd-bwyllgor / Corff Atebol | 1/2/19 | | WEDI GWBLHAU | PO 01 |
| **Strategaethau a Phrosiectau a Gomisiynwyd** | • Hyfforddiant Modelau Busnes Pum Achos ar gyfer arweinwyr prosiect | Ch2 2019 | Partneriaid | | | Wedi drefnu 13&14/05/2019 | |
| **Monitro ac Arfarnu** | • Datblygu Cofrestr Risg y Rhaglen. | Ch1 2019 | Cyd-bwyllgor | 12/4/19 | | WEDI GWBLHAU | MP 01 |
| **Ymgysylltu a Chyfathrebu â Rhanddeiliaid** | • Datblygu a chytuno ar gynllun ymgysylltu â busnesau a rhanddeiliaid. | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor | 17/5/19 | | WEDI GWBLHAU | SEC 01 |
| | • Cytuno ar Gynllun a phrotocol Cyfathrebu. | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor | 17/5/19 | | WEDI GWBLHAU | SEC 01 |
| | • Datblygu a chytuno ar gynllun ymgysylltu â busnesau a rhanddeiliaid gwleidyddol. | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor | 17/5/19 | | WEDI GWBLHAU | SEC 01 |

**Penderfyniadau cyfarfodydd y Bwrdd Uchelgais**

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Swyddog Cyswllt | Penderfyniad |
|---|---|---|---|
| 1af o Chwefror 2019 | Mater brys - proses recriwtio ar gyfer Cyfarwyddwr Rhaglen | Dilwyn Williams, Prif Weithredwr | 1. Dirprwyo'r hawl i Brif Weithredwr yr Awdurdod Lletya, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyd-bwyllgor i;<br>a. baratoi swydd-ddisgrifiad a manylion person ar gyfer swydd y Cyfarwyddwr Rhaglen,<br>b. cynnal proses arfarnu swyddi yn unol â threfniadau Cyngor Gwynedd ar y swydd er mwyn gosod y cyflog,<br>c. symud ymlaen i hysbysebu'r swydd.<br>2. Bod adroddiad yn argymell y drefn benodi o hynny ymlaen yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod nesaf o'r Cyd-Bwyllgor. |
| | Rhaglen waith gychwynnol y Bwrdd Uchelgais a threfniadau Cyfarfodydd y dyfodol | Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol | 1. Cytuno ar y rhaglen waith lefel uchel ar gyfer y Bwrdd Uchelgais Economaidd dros y 6-9 mis nesaf.<br>2. Cytuno ar amserlen o gyfarfodydd i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd tan ddiwedd y flwyddyn galendr. |
| 15fed o Fawrth 2019 | Llywodraethu Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | Iwan Evans, Swyddog Monitro Corff Atebol | 1. Derbyn yr adroddiad<br>2. I dderbyn y bydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru cyn belled y mae'n rhesymol bosib yn cyfarfod mewn un lleoliad priodol yng Ngogledd Cymru yn ôl unol a'r adroddiad.<br>3. Yn ddarostyngedig i sefydlu Bwrdd Arweinyddion Busnes ffurfiol. I benodi Cadeirydd y Grwp Busnes Gogledd Cymru fel Ymgynghorydd i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd a chadarnhau strwythur Ymgynghorwyr.<br>4. Fod adroddiad pellach ar yr Is fyrddau arfaethedig yn cael eu cyflwyno i'r cyfarfod nesaf o'r Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.<br>5. I dderbyn Protocol Gweithredol ar gyfer y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn ddarostyngedig i gadarnhau hawl i'r Swyddog Monitro ac i'r Swyddog Adran 151 i adrodd yn uniongyrchol i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru pe cyfyd angen. |
| | Cynllun Twf Gogledd Cymru - Cynllun Gweithredu Drafft | Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Rhaglen | Cymeradwyo'r Cynllun Gweithredu fel sail ar gyfer trafodaethau pellach gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar gytundeb Penawdau'r Telerau Posib ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru yn ddarostyngedig i'r addasiadau isod yn cael eu ymgorffori yn y Cynllun:<br>1. Hyblygrwydd o ran amserlennu, proffilio gwariant a blaenoriaethu prosiectau yn Rhan 7 o'r Cynllun Gweithredu ar sail eu haeddfedrwydd a'u fforddiadwyedd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | 2. Hyblygrwydd ar y pecyn cyllideb gan y ddwy Lywodraeth ar gyfer gweithredu'r prosiectau yn y Cynllun Gweithredu.<br>3. Ychwanegu amserlen ar gyfer sefydlu Gorffennaf 2019 fel y dyddiad ar gyfer cytuno Penawdau'r Telerau i'r naill Lywodraeth. |
| | Cyllideb 2019-20 | Dafydd L Edwards, Swyddog Adran 151 | 1. Derbyn a mabwysiadu Cyllideb y Bwrdd Uchelgais Economaidd ar gyfer 2019/20, wedi'i rannu rhwng costau'r Swyddfa Rheoli Rhaglen, Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol a'r Cydbwyllgor.<br>2. Cymeradwyo'r trefniadau ac ariannu i Gyngor Gwynedd gyflawni swyddogaethau'r Corff Atebol, fel y nodir yn yr adroddiad.<br>3. Dirprwyo'r awdurdod i'r Cyfarwyddwr Rhaglen a Swyddog Adran 151 Cyngor Gwynedd i weithredu'r gyllideb a gymeradwyir.<br>4. Cymeradwyo i drosglwyddo'r tanwariant o'r cyn trefniadau cysgodol i Gydbwyllgor y Bwrdd Uchelgais Economaidd.<br>5. Cymeradwyo i drosglwyddo'r tanwariant ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2018/19 i gronfa wrth gefn neilltuol, fydd ar gael i ariannu costau un-tro yn y dyfodol. |
| | Diweddariad ar Raglen Waith y Bwrdd Uchelgais Economaidd | Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol | 1. Cymeradwyo statws RAG (Red, Amber, Green) pob tasg o fewn y Rhaglen Waith gan nodi fod dau weithred o'r adran Penawdau'r Telerau sydd yn cael ei nodi yn isod yn newid o liw melyn i goch.<br>• Sesiynau Herio gyda Gweinidogion o Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru<br>• Cymeradwyaeth ffurfiol i Benawdau'r Telerau ar gyfer Cynllun Twf.<br>2. Addasu'r amserlen a'r cyfrifoldeb ar gyfer rhai tasgau yn y Rhaglen Waith, yn unol â'r eglurhad yn rhan 4.3 a 4.4 o'r adroddiad. |
| | Cyfarwyddwr Rhaglen Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | Dilwyn Williams, Prif Weithredwr | 1. Cyfarfod sydd wedi ei amserlennu o'r Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn cytuno ar restr fer o ymgeiswyr i'w gwahodd ar gyfer ystyriaeth bellach.<br>2. Pob ymgeisydd ar y rhestr fer yn cael eu gwahodd i fynychu Canolfan Asesu Broffesiynol. Bydda'i Ganolfan Asesu yn cael ei harwain gan asesydd allanol a ddefnyddir gan y Corff Atebol ar gyfer penodi i uwch swyddi. Bydd yr asesydd yn darparu adroddiad ysgrifenedig ar berfformiad pob ymgeisydd.<br>3. Cyfweliad ffurfiol gyda phob ymgeisydd ar y rhestr fer mewn cyfarfodydd ychwanegol o'r Bwrdd i'w drefnu gydag adborth o'r Ganolfan Asesu i'w ddarparu yn y cyfarfod cyn gwneud y penodiad.<br>4. Cytunwyd, yn dilyn asesiad swydd, y bydd y swydd yn cael ei hysbysebu gyda'r cyflog o £86,000 i £96,000, gyda'r hyblygrwydd o ychwanegiad y farchnad os y byddai ymgeisydd arbennig yn ymgeisio. |
| 12fed o Ebrill 2019 | Diweddariad ar raglen waith y Bwrdd Uchelgais | Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol | 1. Cymeradwyo statws RAG pob tasg o fewn y Rhaglen Waith, yn unol â'r adroddiad.<br>2. Dirprwyo'r awdurdod i'r Cyfarwyddwr Rhaglen, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Bwrdd Uchelgais i gytuno ar swydd ddisgrifiad a'r broses o benodi Rheolwr Rhaglen Ddigidol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | 3. Ymrwymo hyd at £55,000 (yn amodol ar arfarniad swydd a llwyddiant y Cynllun Twf) o'r gyllideb "Cynllunio, Datblygu a Chefnogi Prosiectau" ar gyfer ariannu'r swydd Rheolwr Rhaglen Ddigidol am gyfnod o flwyddyn.<br>4. Cyflwyno adroddiad cynnydd chwarterol ar waith y Bwrdd i'r partneriaid unigol ar gyfer dibenion adrodd a chraffu y cyrff unigol. |
| | Cofrestr risg | Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol | 1. Cymeradwyo ffurf a strwythur y Gofrestr Risg, a chytuno bod y risgiau a'r statws RAG (Coch, Ambr, Gwyrdd) sydd wedi'u cynnwys yn gywir ac yn ddigonol a bod y mesurau lliniaru sydd wedi'u nodi yn gymesur o ystyried y risgiau sydd wedi'u hadnabod.<br>2. Adrodd yn chwarterol ar y risgiau i'r Bwrdd Uchelgais ac yn fisol i'r Grŵp Swyddogion Gweithredol. |
| | Sefydlu Is-Fwrdd Trafnidiaeth | Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol | 1. Penodi Is-fwrdd Cyflawni Trafnidiaeth gyda'r Rôl a'r Cylch Gorchwyl wedi'u hamlinellu yn Atodiad 1 i'r adroddiad.<br>2. Penodi Arweinydd Cyngor Sir Fflint, y Cynghorydd Ian Roberts, i weithredu fel aelod cyswllt gyda'r Is-fwrdd Cyflawni Trafnidiaeth. |
| | Bwrdd Cyflawni Busnes | Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol | 1. Gohirio penderfyniad ar y mater hwn hyd oni fydd canlyniad yr ymgynghoriad â Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar y bwriad yn hysbys.<br>2. Bod y trafodaethau gyda'r Llywodraethau i gychwyn ar sail yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Bwrdd Uchelgais.<br>3. Rhoi sylw i'r materion canlynol wrth ddarparu drafft pellach o'r adroddiad:-<br>(i) Rôl Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy;<br>(ii) Atebolrwydd Cadeirydd y Bwrdd Cyflawni Busnes;<br>(iii) Yr angen i symleiddio rôl a chyfrifoldebau arfaethedig y Bwrdd;<br>(iv) Pryder bod galwadau cynyddol ar fusnesau i gymryd rhan mewn trefniadau cyffelyb;<br>(v) Materion cyllidol. |
| | Papur Gwyn Llywodraeth Cymru - gwella trafnidiaeth Gyhoeddus | Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol | 1. Derbyn yr adroddiad cryno ar gynigion Llywodraeth Cymru i Wella Trafnidiaeth Gyhoeddus a'r ymateb i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn, sydd wedi'i atodi i'r adroddiad. |
| | Adolygiad(au) Bargen Ddinesig Bae Abertawe (SBCD) | Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol | 1. Derbyn yr adroddiad ar yr argymhellion sydd yn y ddau adroddiad adolygiad, "Adolygiad Annibynnol o Fargen Ddinesig Bae Abertawe" ac "Adolygiad Mewnol o Drefniadau Llywodraethu Bargen Ddinesig Bae Abertawe<br>2. Nodi'r asesiad RAG (Red, Green, Amber) o statws Cynllun Twf Gogledd Cymru yn erbyn bob un o'r argymhellion. |
| 17ain o Fai 2019 | Diweddariad ar raglen waith y Bwrdd Uchelgais ac ar gynnydd prosiectau | Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol | 1. Cymeradwyo statws RAG pob tasg o fewn y Rhaglen Waith a nodi'r diweddariadau ar gynnydd prosiectau unigol, yn unol â'r adroddiad. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Rhaglen waith Cytundeb Llywodraethu 2 | Iwan Evans, Swyddog Monitro Corff Atebol | 1. Cymeradwyo'r rhaglen waith arfaethedig ar gyfer paratoi a chwblhau Cytundeb Llywodraethu 2, gan ofyn i'r Swyddog Monitro gyplysu'r gweithredoedd yn hanner isaf yr amserlen arfaethedig i gamau perthnasol yn y rhaglen waith. |
| | Bwrdd Cyflawni Busnes | Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol | 1. Cymeradwyo rôl a chyfrifoldebau arfaethedig y Bwrdd Cyflawni Busnes, yn ddarostyngedig i addasu paragraff 2.1, Rôl a Chylch Gwaith, drwy gyfuno geiriad paragraff 2.2 yn y trydydd pwynt bwled.<br>2. Cymeradwyo'r broses recriwtio ar gyfer Cadeirydd y Bwrdd Cyflawni Busnes fel yr amlinellir yn yr adroddiad a dirprwyo awdurdod i Brif Weithredwr y Corff Atebol i ymgymryd â'r broses recriwtio.<br>3. Cymeradwyo'r trefniadau ar gyfer dewis a recriwtio Aelodau'r Bwrdd fel yr amlinellir yn yr adroddiad a dirprwyo awdurdod i Brif Weithredwr y Corff Atebol i ymgymryd â'r broses recriwtio unwaith y bydd y Cadeirydd wedi'i benodi.<br>4. Cadarnhau'r defnydd o hyd at £20,000 y flwyddyn o gyllideb 'Datblygu a Chefnogi Prosiectau' Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i gefnogi'r Bwrdd Cyflawni Busnes.<br>5. Dirprwyo awdurdod i Brif Weithredwr y Corff Atebol i sefydlu'r pecyn cydnabyddiaeth ar gyfer y Cadeirydd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd ac Is-gadeirydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, yn unol â'r adroddiad. |
| | Is-grwp twristiaeth | Jane Richardson, Cyngor Conwy Council | 1. Bod y Bwrdd Uchelgais Economaidd yn cefnogi'r egwyddor bod y Fforwm Twristiaeth Rhanbarthol yn ffurfio perthynas ffurfiol gyda'r Bwrdd.<br>2. Bod statws a swyddogaeth y Fforwm yn cael eu datblygu fel rhan o'r adolygiad o'r trefniadau llywodraethu i'w sefydlu yng Nghytundeb Llywodraethu 2. |
| | Adroddiad alldro 2018-19 a'r ffurflen (datganiadau ariannol Statudol) flynyddol | Dafydd L Edwards, Swyddog Adran 151 | 1. Nodi a derbyn Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw y Cyd-bwyllgor ar gyfer 2018/19 (Atodiadau 1 a 2 i'r adroddiad).<br>2. Nodi ac awdurdodi'r Cadeirydd i lofnodi Ffurflen Swyddogol (Datganiadau Ariannol Statudol) Flynyddol y Cyd-bwyllgor ar gyfer 2018/19 (Amodol ar Archwiliad Allanol), yn unol â'r amserlen statudol o 15 Mehefin 2019, oedd wedi'i chwblhau a'i hardystio gan y Swyddog Cyllid Statudol (Atodiad 3 i'r adroddiad). |
| | Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu | Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol | 1. Cymeradwyo'r Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu. |
| | Ymchwiliad i effeithiolrwydd Cynlluniau Twf a Bargeinion Dinesig i Gymru | Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol | 1. Cymeradwyo'r ymateb i "Ymchwiliad i effeithiolrwydd Cynlluniau Twf a Bargeinion Dinesig i Gymru" gan y Pwyllgor Materion Cymreig. |
| | Cyfarwyddwr Rhaglen - tynnu rhestr fer | Dilwyn Williams, Prif Weithredwr | 1. Gosod pedwar ymgeisydd ar restr fer i fynd ymlaen i gyfweliad ar yr 21ain o Fehefin. |



BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

# CYLCHLYTHYR

**Tymor: Gwanwyn | Rhif: 1**

## CROESO

Mae'n bleser gen i fel Cadeirydd newydd y Bwrdd Uchelgais eich croesawu i'n cylchlythyr cyntaf. Rydym yn ymrwymo i gynhyrchu Cylchlythyr chwarterol i rannu newyddion diweddaraf ar Gynllun Twf Gogledd Cymru gyda chi.

Rydym wedi gweithio yn ddiflino dros y misoedd diwethaf, ac mae gwaith pellach o'n blaen. Ond mae'r arian gan Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Prydain yn golygu fod sylfaen gadarn mewn lle i ni ddatblygu yn bellach. Y nod nawr ydi parhau gyda datblygu a gweithredu'r saith rhaglen er mwyn cychwyn ar gyfnod newydd o dwf economaidd yng Ngogledd Cymru.



## CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU

Mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn gosod y sylfeini ar gyfer y Cynllun Twf £1bn fydd yn rhoi hwb i'r economi a creu hyd at 15,000 o swyddi dros y ddegawd nesaf. Mae aelodau y chwe awdurdod lleol, colegau, prifysgolion a sector breifat yn y broses o roi amserlen a rhaglen waith at ei gilydd.

Mae'r saith rhaglen strategol bellach yn ei lle, sy'n cynnwys ynni carbon isel, gweithgynhyrchu uwch, diwydiannau ar y tir a thwristiaeth, tir ac eiddo, sgiliau a chyflogaeth, digidol a trafnidiaeth strategol. Bydd y rhaglenni yn cael effaith gadarnhaol ar filoedd o aelwydydd, busnesau a sefydliadau ar draws y rhanbarth.

O fewn y 7 rhaglen mae 14 prosiect, ac bydd gwaith yn cychwyn dros y misoedd nesaf i ddatblygu achosion busnes llawn, gyda'r nod o gychwyn gwaith ar 6 o'r prosiectau yn ystod 2020/21.




Mae'r Bwrdd Uchelgais wedi datblygu Cynllun Gweithredu drafft sy'n gosod trefniadau gweithredu'r cynllun twf—yn unol a gofynion Llywodraeth Cymru a Prydain.

Mae'r cynllun yn cynnwys gweithgareddau lefel uchel fydd yn cefnogi'r cynllun twf ynghyd a manylion y rhaglenni a'r prosiectau.

## ARIANNU'R CYNLLUN TWF

Mae Llywodraeth Prydain a Llywodraeth Cymru wedi clustnodi £120 miliwn yr un i Gynllun Twf Gogledd Cymru.

Er hynny, mae'r Bwrdd Uchelgais wedi gwneud achos am £20 miliwn yn ychwanegol gan y ddwy Lywodraeth er mwyn cefnogi ariannu pecyn o brosiectau sy'n mynd i'r afael a'r heriau y mae'r rhanbarth yn ei wynebu, yn benodol yng ngoleuni'r cyhoeddiad diweddar gan Horizon y bydd gwaith ar yr Orsaf Bŵer newydd, Wylfa Newydd yn cael ei atal am gyfnod amhenodol.

## BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

Mae'r Cynghorydd Dyfrig Siencyn, Arweinydd Cyngor Gwynedd wedi ei benodi fel Cadeirydd y Bwrdd Uchelgais, ac y Cynghorydd Mark Pritchard, Arweinydd Cyngor Wrecsam wedi ei benodi fel Is-Gadeirydd.

## CYTUNDEB LLYWODRAETHU 1

Mae Cytundeb Llywodraethu 1 wedi'i ddatblygu fel fframwaith cyfreithiol i sefydlu Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru fel Cyd-bwyllgor. Cafodd cyfarfod cyntaf y Cyd-Bwyllgor ei gynnal ar y 1af o Chwefror 2019.

## BWRDD CYFLAWNI BUSNES

Mae trefniadau mewn lle ar gyfer sefydlu Bwrdd Cyflawni Busnes. Bydd y Bwrdd yn gweithredu fel llais busnes a chyflogwyr yn y rhanbarth. Bydd ganddo rôl allweddol wrth herio a chynghori'r Bwrdd Uchelgais ar faterion yn ymwneud â'r weledigaeth Twf a'r Cynllun Twf.

## LFFN

Mae'r Adran Digidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon wedi cymeradwyo hyd at £7miliwn ar gyfer yr ardal i symud o wasanaethau sy'n seiliedig ar gopr i ddarpariaeth optig ffibr llawn sy'n addas ar gyfer gigabit, fel rhan o'i Raglen Rhwydwaith Ffibr Llawn Lleol (LFFN).

Bydd lleoliadau megis meddygfeydd, llyfrgelloedd, ysbytai a gwasanaethau cymdeithasol yn elwa o gael mynediad i well cysylltedd ddigidol fydd yn gallu cael ei uwchraddio fel mae Technoleg newydd yn datblygu.

## CYNLLUN CYFATHREBU AC YMGYSYLLTU

Mae Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu mewn lle i sicrhau fod Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru yn cael ei hyrwyddo'n gyson ac yn gyd-gysylltiedig.

## CAMAU NESAF

⇒ Dros y misoedd nesaf bydd ymgysylltu pellach gyda'r ddwy Lywodraeth, gyda'r nod o gyrraedd Penawdau'r Telerau erbyn diwedd mis Gorffennaf 2019.

⇒ Bydd Strwythur y Swyddfa Rhaglen yn cael ei ddatblygu gan y Cyfarwyddwr Rhaglen mewn partneriaeth gyda'r Bwrdd Uchelgais.

⇒ Sefydlu'r Bwrdd Cyflawni Busnes a penodi Cadeirydd.

⇒ Datblygu'r 14 prosiect i Achosion Busnes Llawn.

# north wales economic ambition board
# bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

Cadeirydd • Chair: Cyng./Cllr. Dyfrig Siencyn
Cyngor Gwynedd, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH
☎ 01286 679868 • 07712 199541
cynghorydd.DyfrigSiencyn@gwynedd.llyw.cymru

Is-Gadeirydd • Vice-Chair: Cyng./Cllr. Mark Pritchard
Wrexham County Borough Council, The Guildhall, Wrexham. LL11 1AY
☎ 01978 292105 • 07740 637591
leader@wrexham.gov.uk

**Drwy e-bost at:**

- Ken Skates AC, Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth correspondence.ken.skates@gov.wales
- Alun Cairns AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru correspondence@ukgovwales.gov.uk
- Kevin Foster AS, Gweinidog Llywodraeth y DU dros Gymru correspondence@ukgovwales.gov.uk

Ein Cyf / Our Ref: DLS/ITJ/ls
Eich Cyf / Your Ref:
Dyddiad / Date: 28 Mai, 2019

Annwyl Weinidog,

Cyfarfu Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (y Bwrdd Uchelgais) ddydd Gwener 17 Mai 2019 a chredais y byddwn yn rhoi diweddariad cryno i chi o ddeilliannau'r cyfarfod.

Yn gyntaf, hoffwn gadarnhau y cefais fy mhenodi gan y Bwrdd Uchelgais yn Gadeirydd y Bwrdd a phenodwyd y Cynghorydd Mark Pritchard, Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, yn Is-gadeirydd. Rydym, ill dau, yn edrych ymlaen at ein tymor yn Gadeirydd ac Is-gadeirydd ac rydym yn gwbl ymroddedig i weithio'n agos ac yn gydweithredol gyda'r ddwy Lywodraeth.

Ein blaenoriaeth yn y tymor byr yw cyflawni'r Cynllun Twf ar gyfer y Gogledd. Credwn fod gennym bortffolio o brosiectau cyffrous a fydd yn creu swyddi, yn denu buddsoddiad ac yn cyflawni twf. Mae'r prosiectau wedi cael cefnogaeth lawn y Bwrdd Cyflawni Busnes a Chyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy, sydd wedi'u cynrychioli ar y Bwrdd Uchelgais.

Bydd cyflawni'r prosiectau hyn yn gwireddu'r isod:

- Lleoli'r rhanbarth fel un o leoliadau arweiniol yn y DU ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel a buddsoddiadau yn y gadwyn gyflenwi sy'n gysylltiedig ag ynni, gydag arbenigedd mewn technolegau a phrosesau carbon isel;
- Manteisio ar y rhwydwaith cryf o gwmnïau angori sydd â phroffil rhyngwladol, i adeiladu clwstwr gweithgynhyrchu uwch o safon uchel - un a fydd yn hynod gystadleuol ar lwyfan byd-eang;
- Datblygu'r rhanbarth yn ganolbwynt o ragoriaeth arloesedd a thechnoleg ac yn arweinydd wrth drosi syniadau cyffrous yn gynnyrch a gwasanaethau masnachol cryf;
- Datblygu a lledaenu enw da'r Gogledd ymhellach fel canolfan ragoriaeth ar gyfer y diwydiannau seiliedig ar y tir a thwristiaeth ac yn sefydlu'n hunain yn gadarn fel prif leoliad twristiaeth antur y DU.

Roedd y Bwrdd yn falch o glywed yr ymateb cadarnhaol gan y ddwy Lywodraeth i'n hawgrym o ymdrin â chytundeb Penawdau'r Telerau mewn ffordd ddeublyg. Mae'r ymagwedd hon wedi'i chefnogi gan y sector preifat yn y rhanbarth, hefyd.

Mae'r Bwrdd yn edrych ymlaen at dderbyn sylwadau gan y ddwy Lywodraeth ar yr Achosion Busnes Amlinellol am y Chwe Phrosiect sydd i'w cynnwys yn y don gyntaf o brosiectau'r Cynllun Twf. Mae'r ymateb cychwynnol gan eich swyddogion wedi bod yn gadarnhaol, ac nid oes unrhyw bryderon sylfaenol wedi'u hamlygu o fewn yr Achosion Busnes Amlinellol unigol.

Rhoddodd y Ddogfen Cerrig Milltir Allweddol, a ddarparwyd gan swyddogion y Llywodraeth, sicrwydd i Aelodau'r Bwrdd Uchelgais yng nghyswllt yr amserlen cyflawni. Mae'n nodi'n glir pa gamau sydd eu hangen i gyrraedd Penawdau'r Telerau erbyn diwedd mis Gorffennaf 2019 a llofnodi'r ddogfen derfynol erbyn mis Gorffennaf 2020. Hoffwn gadarnhau ein bod yn gyffyrddus gyda'r amserlen sydd wedi'i nodi yn y Ddogfen Cerrig Milltir.

Rydym yn awyddus i dderbyn rhagor o wybodaeth ynghylch y sesiynau herio fel sydd wedi'i nodi yn y Ddogfen Cerrig Milltir. Tybed a allech roi gwybod i ni beth yw eich disgwyliadau ar gyfer y sesiynau hyn, ynghyd â dyddiadau a lleoliadau posib. Gwerthfawrogir hynny'n fawr.

Cawsom sylwadau adeiladol gan eich swyddogion yng nghyswllt rôl a chyfrifoldebau Bwrdd Cyflawni Busnes Gogledd Cymru. O ganlyniad, cymeradwywyd papur diwygiedig sy'n nodi cylch gorchwyl y Bwrdd Cyflawni Busnes, ynghyd â'r broses o benodi Cadeirydd, gan y Bwrdd Uchelgais yn y cyfarfod diweddar. Hoffwn eich sicrhau y bydd y ddwy Lywodraeth yn cymryd rhan yn y broses o benodi'r Cadeirydd. Bydd y Bwrdd Cyflawni Busnes yn cynghori ac yn herio'r Bwrdd Uchelgais yn uniongyrchol, a bydd yn rhan annatod o'r trefniadau llywodraethu sydd wedi'u sefydlu er mwyn datblygu a chyflawni'r Weledigaeth Twf ar gyfer y Gogledd, yn cynnwys y Cynllun Twf. Mae copi o'r papur a gymeradwywyd yng nghyfarfod y Bwrdd Uchelgais wedi'i gynnwys yn ***Atodiad 1***.

Yn ogystal, cymeradwyodd y cyfarfod restr fer o ymgeiswyr ar gyfer rôl y Cyfarwyddwr Rhaglen. Gwneir penodiad ar 21 Mehefin 2019 ac edrychwn ymlaen at sefydlu Swyddfa Rhaglen neilltuol ar gyfer y Bwrdd Uchelgais a fydd yn rhoi'r capasiti i gyflawni ein Rhaglenni a'n Prosiectau. Byddwn yn recriwtio i swyddi allweddol eraill dros y misoedd nesaf, megis Rheolwyr Rhaglen ar gyfer Digidol, Tir ac Eiddo ac Ynni Carbon Isel. Bydd y Swyddfa Rhaglen yn gweithio'n agos gyda swyddogion o'r ddwy Lywodraeth, yn enwedig Tîm Rhanbarthol Llywodraeth Cymru, er mwyn cyflawni ein Gweledigaeth Twf a Phrosiectau'r Cynllun Twf.

Yn ogystal, trafodwyd datblygiad HS2 yn y cyfarfod. Rydym yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn Sir Caer a Warrington i sicrhau'r dewisiadau gorau na fydd yn arwain at wasanaethau o safon is i'r rhanbarth. Y prif ofynion gan y Gogledd yw:

- Rhaid cael llwybrau yn y cynllun newydd a fydd yn caniatáu i wasanaeth cydnaws clasurol HS2 gael mynediad i Gaer a'r Gogledd yn y dyfodol, pan fo trydaneiddio'r llwybr wedi'i weithredu;
- Yn y cyfamser, dylai cysylltedd ar draws platfformau gyda gwasanaethau HS2 yn Crewe fod ar gael i wasanaethau'r Gogledd;
- Rhaid i'r cynnig ddarparu capasiti trac ychwanegol i ymdrin â thwf mewn gwasanaeth rheilffyrdd a ragwelir yn y dyfodol a gwasanaethau cysylltu ychwanegol o'r Gogledd i Crewe;
- Rhaid i'r amser a gymerir i newid trenau yn Crewe i wasanaethau HS2 gael ei leihau i'r eithaf;
- Nid ydym yn derbyn colli gwasanaethau uniongyrchol clasurol cyfredol i Lundain, na chysylltiadau gwaeth ar hyd prif linell arfordir y gorllewin, er mwyn ymdrin â gwasanaethau HS2.

Canolbwynt y Bwrdd Uchelgais dros y cyfarfodydd nesaf fydd cyrraedd Penawdau'r Telerau erbyn mis Gorffennaf. Yn ogystal, byddwn yn trafod adroddiadau a fydd yn nodi'n glir ein gwerthoedd a'n diwylliant fel sefydliad, er mwyn cyflawni newid cadarnhaol i economi'r Gogledd, ynghyd â dyluniad a strwythur manwl y Swyddfa Rhaglen a'r cynllun adnoddau. Yn ogystal, caiff adroddiad ar ddatblygu Canolbwynt Twf Busnes a'n hymdriniaeth o Sgiliau a Chyflogaeth ei gyflwyno i gyfarfod y Bwrdd Uchelgais ar 28 Mehefin 2019. Caiff yr adroddiadau hyn (ar ffurf drafft) eu trafod gyda'n swyddogion yng nghyfarfod y Grŵp Swyddogion Gweithredol a gynhelir ar 14 Mehefin 2019.

Yn gywir,

**Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn**
**Cadeirydd - Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru**

Amg.

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

# ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU
# 17 MAI, 2019

**TEITL:** *Bwrdd Cyflawni Busnes*

**AWDUR:** *Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol - Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru*

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw amlinellu rôl a chylch gwaith y Bwrdd Cyflawni Busnes (y Grŵp Cyflawni Busnes fel y'i gelwir ar hyn o bryd) yn ffurfiol. Yn ogystal, mae'n amlinellu'r broses recriwtio arfaethedig i ddethol Cadeirydd ac Aelodau o'r Bwrdd Cyflawni Busnes.

1.2. Mae'r Bwrdd Cyflawni Busnes yn rhan annatod o'r trefniadau llywodraethu ac mae wedi'i sefydlu er mwyn datblygu a chyflawni'r Weledigaeth Twf ar gyfer y Gogledd, yn cynnwys y Cynllun Twf.

1.3. Bydd y Bwrdd Cyflawni Busnes yn cynghori ac yn herio'r Bwrdd Uchelgais Economaidd yn uniongyrchol, a fydd yn rhwym i ystyried ei gyngor. Rhaid iddo fod yn allblyg ac â chysylltiadau da y tu hwnt i'r rhanbarth. Bydd hyn yn galluogi iddo ddod ag arbenigedd a buddsoddiad posib i'r rhanbarth, a thynnu ar brofiad ei aelodau.

1.4. Yn ogystal, bydd gan y Bwrdd rôl hanfodol wrth gyflawni prosiectau strategol a gomisiynir gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Bydd yn monitro cynnydd a deilliannau ac yn ystyried ffyrdd y gellir manteisio i'r eithaf ar fuddion economaidd a chyflogaeth.

1.5. Sefydlwyd y Bwrdd yn ei ffurf gysgodol dros chwe mis yn ôl ac eisoes mae wedi gwneud cyfraniad sylweddol i ddatblygu'r Cynllun Gweithredu a'r Achosion Busnes Amlinellol unigol. Bellach, y nod yw ffurfioli'r trefniadau a sefydlu'r Bwrdd Cyflawni Busnes yn gadarn fel rhan allweddol o'r fframwaith llywodraethu i gyflawni'r Weledigaeth Twf ar gyfer y Gogledd.

1.6. Mae'r adroddiad hwn yn ystyried y drafodaeth yn ystod cyfarfod y Bwrdd Uchelgais Economaidd ar 12 Ebrill 2019, ynghyd â thrafodaeth gyda'r ddwy Lywodraeth ar y cynnig.

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Cymeradwyo rôl a chyfrifoldebau arfaethedig y Bwrdd Cyflawni Busnes.

2.2. Cymeradwyo'r broses recriwtio ar gyfer Cadeirydd y Bwrdd Cyflawni Busnes fel yr amlinellir yn yr adroddiad a dirprwyo awdurdod i Brif Weithredwr y Corff Atebol i ymgymryd â'r broses recriwtio.

2.3. Cymeradwyo'r trefniadau ar gyfer dewis ac recriwtio Aelodau'r Bwrdd fel yr amlinellir yn yr adroddiad a dirprwyo awdurdod i Brif Weithredwr y Corff Atebol i ymgymryd â'r broses recriwtio unwaith y bydd y Cadeirydd wedi'i benodi.

2.4. Cadarnhau'r defnydd o hyd at £20,000 y flwyddyn o gyllideb 'Datblygu a Chefnogi Prosiectau' Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i gefnogi'r Bwrdd Cyflawni Busnes.

2.5. Dirprwyo awdurdod i Brif Weithredwr y Corff Atebol i sefydlu y pecyn cydnabyddiaeth ar gyfer y Cadeirydd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd ac Is-gadeirydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn unol ar adroddiad.

**3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

3.1. Fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad.

**4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL**

4.1. Yn ystod cyfarfod diwethaf Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, trafodwyd y papur ynghylch y Bwrdd Cyflawni Busnes. Cytunodd y Bwrdd i ohirio gwneud penderfyniad ar y mater hyd nes bod adborth wedi'i dderbyn gan y ddwy Lywodraeth.

4.2. Bellach, mae'r ddwy Lywodraeth wedi rhoi sylwadau ar y cyd i'r Bwrdd Uchelgais yng nghyswllt y cynigion, sydd wedi'u nodi isod:

| Cyfeirnod | Adborth Llywodraeth Cymru/Llywodraeth y DU | Ymateb |
|---|---|---|
| | Nid ymddengys bod rôl y Bwrdd yn ymwneud â "chyflawni", fel y nodir. Beth yw ei rôl wrth gyflawni? | Mae'r papur yn ymgorffori sut bydd gan y Bwrdd rôl o fewn cyflawni. Nodi sut bydd y Bwrdd yn cefnogi wrth herio'r Achosion Busnes Amlinellol ac yna'r Achosion Busnes Llawn, ynghyd â monitro cyflawni'r prosiectau. Gweler 2.1 |
| | Beth fyddai'n digwydd pe byddai'r Bwrdd Sector Preifat yn anghytuno gyda'r Bwrdd Uchelgais ynghylch prosiect, ei sgôp, sut caiff ei gyflawni ac ati? | Gweler 1.12. |
| 1.1. | Awgrymu dileu'r frawddeg ynghylch Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy - mae'n tynnu oddi ar bwysigrwydd y Bwrdd. | Y frawddeg wedi'i newid. |
| 1.3. | Dylai hwn fod yn gryfach - awgrymu rhywbeth ynghylch herio'r cyd-bwyllgor, a dileu 'mynegi anghenion busnesau' sy'n amwys. | Mae'r pwynt hwn wedi'i addasu i adlewyrchu'r sylwadau. Gweler 1.3 |
| 1.6. | Dylai Uwch Swyddogion/y sawl sy'n gwneud Penderfyniadau fod ar y Bwrdd o'r cwmnïau a gaiff eu cynrychioli | Mae hyn wedi'i nodi o dan 1.6 bellach. |
| 1.7. | Dylai rôl y Bwrdd fod yn un ddwy-ffordd - ynghyd â nodi'r cyfleoedd y dylai'r Bwrdd Uchelgais/Cynllun Twf eu cyflawni. | Mae hyn wedi'i nodi o dan 1.7 bellach. |
| 1.11. | Rhaid i'r Bwrdd fod yn hyblyg i newid ei gyfansoddiad a'i rôl fel y gwêl yn dda er mwyn bod mor annibynnol â phosib. Mae'r rhyng-berthynas rhwng y Cyd-bwyllgor a'r Bwrdd yn bwysig yn GA2 fodd bynnag, a dylid ei gadw yma. | Mae hyn wedi'i nodi o dan 1.11 bellach. |
| 2.1. | Dylai ganolbwyntio ar becyn y Cynllun Twf - ac ar oruchwylio cyflawni'r Cynllun Twf a chynghori / herio'r Cyd-bwyllgor, yn enwedig yng nghyswllt prosiectau yng 'ngham 2'. | Mae'r adran hon bellach yn canolbwyntio ar y Weledigaeth Twf a'r Cynllun Twf. |

| | | |
|---|---|---|
| | Wrth gwrs, mae'r cynllun yn un gydran o agenda economaidd ehangach, fodd bynnag, mae llawer o bethau eraill yma (rôl eirioli yn hyrwyddo'r rhanbarth ar gyfer mewn-fuddsoddiad, gwaith ar y weledigaeth twf, cynlluniau Llywodraeth Cymru, gweithio gyda CBI Gogledd Cymru, gweithio gyda Chyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy, ac ati) - sy'n tynnu oddi ar ei rôl a'i bwysigrwydd. Awgrymu canolbwyntio ar lai.<br>Dylai nodi y bydd gan y Bwrdd rôl i'w chwarae wrth fanteisio i'r eithaf ar y cynllun ar gyfer y rhanbarth (cyd-gysylltu / yn fwy na chyfanswm y rhannau sydd ynddo), sicrhau buddsoddiad uniongyrchol ac anuniongyrchol o'r sector preifat ar gyfer y cynllun. | |
| 2.1. | Hefyd yn unol â'r sylw cyffredinol uchod, nid yw'n 'fwrdd cyflawni' fel y mae ar hyn o bryd.<br>Mae angen i'r Bwrdd fod yn medru herio prosiectau a chynigion y Cynllun Twf, a chael dannedd h.y. Ni all y Bwrdd Uchelgais anwybyddu ei gyngor. A ellir nodi hyn yma?<br>Dylai nodi y bydd yn ystyried Achosion Busnes Llawn cyn iddynt gael eu cymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor / eu hanfon i'r llywodraethau. | Mae hyn wedi'i nodi o dan 1.12 bellach. |
| 3.3. | Mae un diwrnod yr wythnos ar gyfer Cadeirydd y Bwrdd yn ymddangos yn uchel, a gallai eithrio ymgeiswyr da nad oes ganddynt yr amser yma. | Nodwyd. Nodir y bydd lefel yr ymrwymiad yn amrywio ar draws y tymor. |
| 3.8. | Mae angen nodi'n glir bod angen i'r ddwy lywodraeth gymeradwyo'r cadeirydd - a bod ganddynt feto, nid bod ymgynghoriad ar y mater yn unig. | Mae'r fersiwn diwygiedig yn nodi 'y bydd angen i'r ddwy lywodraeth gymeradwyo penodiad y cadeirydd'. |
| 3.10. | Mae angen nodi'n glir bod angen i gyfansoddiad gweddill y Bwrdd ddigwydd mewn ymgynghoriad â'r llywodraethau. | Gweler 4.5. |
| 6.1. | Eto, pa 'ddannedd' sydd gan y Bwrdd? Fel y mae wedi'i sgopio ar hyn o bryd, gall y Bwrdd Uchelgais ddewis anwybyddu ei argymhellion, heb dystiolaeth na sylw. A ellir rhoi sylw i hyn? | Gweler 1.12. |

**5. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

5.1. Cost flynyddol arfaethedig cefnogi'r Cadeirydd, a chostau eraill sy'n gysylltiedig â'r Bwrdd Cyflawni Busnes, yw £20,000 y flwyddyn.

**6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

6.1. Bydd y Bwrdd Cyflawni Busnes yn gweithredu fel corff ymgynghorol i'r Bwrdd Uchelgais. Ni fydd ganddo unrhyw bwerau dirprwyedig i wneud penderfyniadau. Mae'n bwysig nodi y bydd y penderfyniad i greu Bwrdd Cyflawni Busnes fel corff ymgynghorol yn arwain at ddisgwyliadau cyfreithlon y bydd y Bwrdd Uchelgais yn ystyried barn y Bwrdd Cyflawni Busnes wrth wneud penderfyniadau. Rhoddir sylw i hyn hefyd gan benodiad arfaethedig y Cadeirydd fel Ymgynghorydd i'r Bwrdd Uchelgais.

6.2. Bydd angen i'r Bwrdd Uchelgais fod yn fodlon y gall gwrdd â holl gostau'r Bwrdd Cyflawni Busnes o'i Gyllideb Flynyddol.

6.3. Dylid gofyn am gyngor cyfreithiol ar amodau a thelerau arfaethedig y rheini a benodir i'r Bwrdd Cyflawni Busnes.

**7. GOBLYGIADAU STAFFIO**

7.1. Dim ar hyn o bryd.

**8. EFFAITH AR GYDRADDOLDEB**

8.1. Ymgymerir â'r broses recriwtio gan gydymffurfio â dyletswyddau'r Partneriaid dan ddarpariaethau Deddf Cydraddoldeb 2010.

**9. YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD**

9.1. Cytunodd cyfarfod y Grŵp Swyddogion Gweithredol ar 29 Mawrth 2019 y dylid cyflwyno'r adroddiad hwn i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru er ystyriaeth.

9.2. Mae ymgynghoriad wedi bod gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru hefyd.

---

**ATODIADAU:**

| | |
|---|---|
| Atodiad 1 | Bwrdd Cyflawni Busnes |

---

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro - Corff Atebol:**

“Fel yr amlinellir yn yr adroddiad, mae hyn yn rhoi'r Bwrdd Cyflawni Busnes ar Sylfaen ffurfiol fel rhan o strwythur datblygol y prosiect. Mae'n amlinellu'n briodol broses a gaiff ei llywodraethu gan broses benodiadau dryloyw a theg ac mae'n adlewyrchu rôl allweddol y corff wrth lywodraethu'r prosiect. Adroddir hefyd ar ganlyniadau’ r ymgynghoriad gyda’r Llywodraethau ac mae ‘r ddogfen addasedig yn cynnig ymateb i’r rhain o fewn fframwaith y Bwrdd. Fel yr adroddwyd, bydd y trefniadau hyn yn sail ar gyfer ymgorffori i'r ail Gytundeb Llywodraethu, GA 2.”

**ii. Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 y Corff Atebol):**

“Gall y Bwrdd benderfynu defnyddio £20,000 o'i gyllideb 'Datblygu a Chefnogi Prosiectau' ar gyfer ariannu costau’r Bwrdd Cyflawni Busnes, gan fydd y Bwrdd Cyflawni Busnes yn gwneud cyfraniad allweddol tuag at ddatblygu prosiectau. Yn unol â chais y Bwrdd Uchelgais ar 12 Ebrill, nodaf fod rhan 6.2 o’r adroddiad yma’n manylu ar becyn cydnabyddiaeth Cadeirydd y Bwrdd Cyflawni Busnes.”

# BWRDD CYFLAWNI BUSNES

## 1. Rôl a Chylch Gwaith

1.1. Bydd y Bwrdd Cyflawni Busnes yn gweithredu fel llais busnes a chyflogwyr yn y rhanbarth, ac yn gweithio'n agos gyda sefydliadau megis Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy (y corff ymbarél ar gyfer sefydliadau sy'n cynrychioli Busnesau). Bydd yn canolbwyntio ar gyflawni'r Weledigaeth Twf ar gyfer y rhanbarth.

1.2. Bydd ganddo rôl allweddol wrth herio a chynghori Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar faterion yn ymwneud â'r Weledigaeth Twf a'r Cynllun Twf.

1.3. Bydd y Bwrdd yn amlygu'r rhwystrau i dwf, ynghyd â dwyn ymlaen syniadau a chynigion. Disgwylir i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru sefydlu ffyrdd i gyflawni'r cynigion hyn.

1.4. Mae'r Bwrdd yn rhan allweddol o gyfarpar llywodraethu'r Cynllun Twf ac mae ganddo rôl ddeublyg bwysig:

- Sicrhau bod llais a dymuniadau busnesau yn siapio ac yn dylanwadu ar y Weledigaeth Twf ar gyfer Gogledd Cymru a phecyn a chyflawniad y Cynllun Twf;
- Sicrhau y gall busnesau gael mynediad i'r cyfleoedd a symbylir ac a gataleiddir gan ddatblygu'r Cynllun Twf, a'u harwain.

1.5. Mae'r Bwrdd wedi'i ymrwymo i wneud y gorau o'r cyfleoedd o fewn y Cynllun Twf, a hyrwyddo buddsoddiad anuniongyrchol gan gwmnïau, mentrau a busnesau.

1.6. Bydd y Bwrdd yn cynnwys Cadeirydd a rhwng 9 a 12 aelod. Bydd ei aelodaeth yn cynnwys cynrychiolwyr ac arbenigwyr sector o fusnesau allweddol o'r sectorau economaidd twf a sylfaenol ledled y rhanbarth. Mae disgwyl i Aelodau'r Bwrdd gynnwys swyddogion uwch sy'n gwneud penderfyniadau o sefydliadau a gynrychiolir.

1.7. Bydd ei raglen waith (a fydd wedi'i gosod mewn cynllun busnes blynyddol) yn arddangos yn glir y cyfleoedd i'r sector preifat a ddaw yn sgil cyflawni'r Weledigaeth Twf a'r Cynllun Twf. Caiff y cynllun busnes blynyddol a'r cynigion a gyflwynir gan y Bwrdd eu hystyried yn ffurfiol gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru er mwyn eu hymgorffori o fewn ei raglen waith.

1.8. Bydd yn cryfhau proffil llais a mewnbwn busnesau i'r Cynllun Twf, er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei yrru a'i gyflawni gan fusnes a diwydiant, er ei fod yn cael ei arwain yn wleidyddol.

1.9. Bydd y Bwrdd yn sicrhau bod buddsoddiad mewn twf yn cael ei hysbysu a'i siapio gan fusnesau i fusnesau.

1.10. Bydd Cadeirydd y Bwrdd yn aelod ymgynghorol o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a mewn partneriaeth gyda'r Bwrdd Uchelgais bydd ganddo rôl allweddol wrth ddarparu arweinyddiaeth a chysylltiadau allweddol gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Bydd swydd y Cadeirydd yn cael ei hysbysebu a'i phenodi'n gyhoeddus.

1.11. Caiff cyfansoddiad a rôl y Bwrdd o fewn llywodraethiant y Cynllun Twf a'i gyd-berthynas gyda'r Cyd-bwyllgor ei gwmpasu yng Nghytundeb Llywodraethu 2. Rhaid i'r Bwrdd fod yn hyblyg i newid ei gyfansoddiad a'i rôl fel y gwêl yn dda er mwyn bod mor annibynnol â phosib. Caiff cyfansoddiad ac rôl y Bwrdd a unrhyw newidiadau ei gytuno gyda Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

1.12. Bydd y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, yn ystyried yn llawn a derbyn unrhyw gyngor neu her gan y Bwrdd Cyflawni Busnes. Bydd unrhyw argymhellion ffurfiol gan y Bwrdd Cyflawni Busnes i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn cael ei cyflwyno mewn adroddiad ysgrifenedig fydd yn cael ei ystyried mewn cyfarfod o'r Bwrdd gyda ymateb a rhesymau yn cael ei cofnodi a'i cyfathrebu.

**2. Cyfrifoldebau Allweddol**

2.1. Bydd y Bwrdd Cyflawni Busnes yn gyfrifol am:

- Adolygu a siapio'r Weledigaeth Twf ar gyfer y Gogledd;
- Herio ac adolygu'r portffolio o brosiectau a gynigir o fewn y Cynllun Twf ac ystyried a herio'r Achosion Busnes Llawn ar gyfer prosiectau unigol;
- Canolbwyntio ar gyflawni prosiectau a gomisiynir gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a sicrhau y gall busnesau gael mynediad i'r cyfleoedd a gataleiddir gan y Cynllun Twf, a'u harwain;
- Darparu rôl eirioli, gan hyrwyddo'r rhanbarth fel prif leoliad ar gyfer buddsoddwyr ac ymwelwyr a gweithio gyda phartneriaid i gynyddu gwerth ac ansawdd mewnfuddsoddi;
- Rhoi cyngor ar ymyrraeth arfaethedig gan randdeiliaid allweddol eraill, yn cynnwys Llywodraeth Cymru.

2.2. Bydd gan y Bwrdd rôl hanfodol i'w chwarae wrth fanteisio i'r eithaf ar effaith y cynllun ar gyfer y rhanbarth, gan sicrhau buddsoddiad uniongyrchol ac anuniongyrchol ychwanegol o'r sector preifat ar gyfer y Cynllun.

2.3. Bydd y Bwrdd yn gweithio yn agos ac mewn partneriaeth gyda Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

**3. Cadeirydd y Bwrdd**

3.1. Mae Cadeirydd dros dro wedi bod yn weithredol ers mis Rhagfyr 2018.

3.2. Caiff y Cadeirydd ei benodi ar sail tymor penodol o ddwy flynedd, gyda nifer y tymhorau wedi'i gyfyngu i ddau.

3.3. Tybir y byddai'r ymrwymiad amser, er yn hyblyg, yn un diwrnod yr wythnos ar gyfartaledd, ond bydd lefel yr ymrwymiad yn amrywio dipyn ar draws y tymor.

3.4. Bydd y rôl yn derbyn cydnabyddiaeth ar lefel sy'n adlewyrchu arwyddocâd y rôl.

3.5. Bydd y Cadeirydd yn gyfrifol am:

- Arwain y Bwrdd, gan sicrhau ei fod yn cyflawni ei gyfrifoldebau;
- Cadeirio cyfarfodydd y Bwrdd, casglu barnau sydd wedi'u mynegi gan bob grŵp rhanddeiliaid a, lle bo angen, dod i gonsensws;

- Cyfathrebu a chynrychioli argymhellion y Bwrdd ar Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru;
- Bod yn arweinydd "busnes" a phencampwr dros y rhanbarth yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

3.6. Dylai’r Cadeirydd feddu ar y cefndir a'r profiad a ganlyn:

- Bod yn aelod o gymuned fusnes y sector preifat;
- Meddu ar brofiad arweinyddiaeth uwch helaeth;
- Cael rhwydwaith eang o gysylltiadau cyhoeddus, preifat ac yn y llywodraethau sy'n ymestyn y tu hwnt i'r rhanbarth.

3.7. Darperir cefnogaeth strategol, ymchwil, polisi a chyfryngau i'r Cadeirydd a'r Bwrdd Cyflawni Busnes gan y Swyddfa Rhaglen (unwaith y bydd wedi'i sefydlu'n llawn).

3.8. Bydd angen i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru gymeradwyo penodiad y Cadeirydd. Caiff y broses ei goruchwylio gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Yn unol a cymeradwyaeth Llywodraeth Prydain ac Llywodraeth Cymru bydd y Cadeirydd yn cael ei benodi gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

3.9. Caiff y Cadeirydd ei benodi yn unol â'r safonau cydnabyddedig ar gyfer penodiadau cyhoeddus, yn cynnwys hysbyseb agored.

**4. Dethol Aelodau'r Bwrdd Cyflawni Busnes**

4.1. Rhaid i'r broses ddethol fod yn agored ac yn dryloyw, gan ddefnyddio'r meini prawf dethol a restrir isod.

4.2. Bydd y Panel Penodi yn cynnwys Cadeirydd ac Is-gadeirydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Chadeirydd y Bwrdd Cyflawni Busnes. Bydd y Panel yn cyflwyno argymhellion i'r Bwrdd Uchelgais i gymeradwyo'r ymgeiswyr mwyaf addas i'w penodi.

4.3. Caiff rôl Aelodaeth y Bwrdd ei hysbysebu'n gyhoeddus i annog ystod eang o geisiadau. Bydd cyfres gyfunol o sgiliau a phrofiad y Bwrdd yn ystyriaeth allweddol. Bydd proses ymgeisio a fydd yn caniatáu i aelodau arfaethedig gael eu henwebu.

4.4. Ar y cyd, dylai'r Bwrdd feddu ar y wybodaeth a'r sgiliau a ganlyn:

- Dealltwriaeth o economi'r Gogledd a gwerthfawrogiad o gyfleoedd yn y sectorau economaidd twf a sylfaen ledled y rhanbarth
- Rhwydwaith eang o gysylltiadau ledled y DU ac yn rhyngwladol;
- Profiad o ddadansoddi ac asesu gwybodaeth fasnachol, dechnegol ac ariannol er mwyn rhoi cyngor safonol i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau;
- Profiad o ddarparu cyngor diduedd am brosiectau a mentrau, yn benodol yng nghyswllt eu hyfywedd a'u heffaith ar faterion cyflogaeth ac economi.

4.5. Ymgymerir â'r broses mewn ymgynghoriad â'r ddwy Lywodraeth.

4.6. Wrth benodi aelodau, rhoddir ystyriaeth i sefydlu aelodaeth sydd, gyhyd ag sy'n bosib, yn gytbwys yn gyffredinol fel ei bod yn adlewyrchu ac yn cynrychioli holl ardal ddaearyddol y Gogledd, ei sectorau a'i chymunedau busnes a bydd angen ystyried hyn yn ystod y broses benodi.

**5. Gwrthdaro Buddiannau**

5.1. Er mwyn caniatáu i'r Bwrdd Cyflawni Busnes ymgymryd â'i holl swyddogaethau, gwneir gwahaniaeth clir rhwng y rheini sy'n ymwneud â datblygu prosiectau penodol a'r rheini sy'n paratoi argymhellion am y prosiectau hynny i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Gweithredir system gadarn o ddatgan gwrthdaro buddiannau. Yn ogystal, mae Ymgynghorwyr y Bwrdd Uchelgais wedi'u rheoli gan Gôd yng nghyswllt buddiannau personol. Disgwylir i aelodau a benodir i'r Bwrdd Cyflawni Busnes gydymffurfio â rhai darpariaethau.

**6. Camau Nesaf**

6.1. Bydd y camau nesaf yn cynnwys hysbysebu rôl y Cadeirydd. Bydd y broses fel a ganlyn:

- Bydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn cymeradwyo proses recriwtio arfaethedig, yn seiliedig ar y broses sydd wedi'i hamlinellu uchod;
- Hysbysebu'r swydd am bythefnos;
- Bydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn ymgymryd ag asesiad rhestr fer, ac yn cynnal cyfweliadau;
- Ymgynghori â Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar y rhestr fer arfaethedig;
- Bydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, a'r ddwy Lywodraeth, yn cymeradwyo penodiad yr ymgeisydd a ffafrir.

6.2. Cost flynyddol arfaethedig cefnogi'r Cadeirydd, a chostau eraill sy'n gysylltiedig â'r Bwrdd Cyflawni Busnes, yw £20,000 y flwyddyn. Mae hyn yn seiliedig ar adolygiad o Bartneriaethau Menter Lleol y DU a Phartneriaethau Twf eraill. Caiff cydnabyddiaeth y Cadeirydd ei drafod, ond bydd wedi'i gyfyngu gan yr £20,000 o adnoddau sydd wedi'u clustnodi i'r Bwrdd Cyflawni Busnes. Bydd cydnabyddiaeth y Cadeirydd yn cynnwys graddfa dyddiol o lwfans mynychu ynghyd a chostau teithio yn unol a'r hyn sy'n gymwys i aelodau cyfetholedig pan ar bwyllgorau megis Pwyllgor Safonau. Bydd gweddill aelodau'r Bwrdd yn gymwys i gael ad-daliad o gostau teithio.

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

**ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**
**28 MEHEFIN, 2019**

**TEITL:** *Strwythur y Swyddfa Rhaglen*

**AWDUR:** *Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol - Cynllun Twf Gogledd Cymru*

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw gosod dyluniad a strwythur arfaethedig y Swyddfa Rhaglen yn ystod y flwyddyn drosiannol.

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Cymeradwyo strwythur craidd y Swyddfa Rhaglen fel y nodir yn yr adroddiad.

## 3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad.

## 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

### 4.1. Egwyddorion allweddol ar gyfer ariannu'r Swyddfa Rhaglen:

- Gwneud y mwyaf o gyfraniadau o grantiau allanol e.e. Cyllid Blaenoriaeth 5 y Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd.
- Cadw at y cyfraniadau ariannu isaf o gyllideb graidd y Bwrdd Uchelgais.
- Anelu bod y Swyddfa Rhaglen yn hunan-gyllido ac yn hyfyw yn fasnachol o fewn pum mlynedd.
- Ymrwymiad i ddatblygiad a thwf graddol y Swyddfa Rhaglen, gan gydnabod y gellir ei hymestyn yng nghyswllt yr adnoddau a ddenir i'r rhanbarth a bod angen trefniadau ariannol trosiannol wrth i adnoddau gael eu sicrhau.

### 4.2. Datblygu'r Swyddfa Rhaglen

4.2.1 Er mwyn bwrw ymlaen â datblygu a chyflawni'r Weledigaeth Twf a'r Cynllun Twf, caiff Swyddfa Rhaglen ei sefydlu.

4.2.2 Bydd y Swyddfa Rhaglen yn gyfrifol am gefnogi gweithgareddau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a bydd hefyd yn gyfrifol am fwrw ymlaen ag elfennau allweddol o'r Cynllun Twf.

4.2.3 Fel partneriaid yn y rhanbarth, rydym yn ymrwymedig i weithio ar y cyd ac ar draws sectorau i roi arweiniad a llwyddo i gyflawni'r Weledigaeth Twf.

4.2.4 Hefyd, rydym wedi ymrwymo i fodel Swyddfa Rhaglen sy'n hyblyg ac yn ystwyth yn ei dyluniad a'i gweithrediadau, a all esblygu dros amser, wrth i'r dirwedd polisi ac ariannol newid ledled y rhanbarth dros y blynyddoedd nesaf.

4.2.5 Pwrpas y Swyddfa Rhaglen fydd rhoi cefnogaeth weithredol i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a holl rannau'r strwythur llywodraethu - er mwyn cyflawni'r Weledigaeth Twf a'r Cynllun Twf.

4.2.6 Bydd yn darparu cyngor proffesiynol ar strategaeth a pholisi ar gyfer holl swyddogaethau'r Bwrdd, a'i strwythurau - e.e. economi, trafnidiaeth, cynllunio defnydd tir strategol, sgiliau a chyflogaeth.

4.2.7 Yn ogystal, bydd yn cefnogi'r Bwrdd i gydlynu a goruchwylio integreiddio gwasanaethau i gyflawni dull gweithredu mwy cydgysylltiedig ar draws swyddogaethau strategol allweddol. Gwneir hyn ar draws y sectorau.

4.2.8 Bydd yn cefnogi'r Bwrdd i gynllunio, cydlynu a chyflawni pecyn o raglenni strategol yn y rhanbarth. Bydd hyn yn cynnwys prosiectau'r Cynllun Twf.

4.2.9 Caiff ei arwain gan Gyfarwyddwr Rhaglen, a fydd yn atebol i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, ac a fydd yn gyfrifol am y swyddogaethau manwl a ganlyn:

- Cydlynu cynllunio, datblygu a chyflawni portffolio o raglenni a phrosiectau strategol i'r rhanbarth;
- Darparu cyngor proffesiynol ar strategaeth a pholisi ar gyfer holl swyddogaethau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, a'i strwythur;
- Datblygu, cynnal a monitro system rheoli perfformiad a fframwaith gwerthuso cynhwysfawr a fydd yn weithredol ar y lefel gorfforaethol a'r lefel prosiect hefyd;
- Bod yn gyfrifol am reoli a chydlynu Rhaglen y Cynllun Twf, adolygiadau porth a'r Cynlluniau Busnes blynyddol, yn cynnwys rheoli'r rhaglen gyflawni o safbwynt perfformiad ac ariannol;
- Darparu ymchwil a dadansoddiad ar effaith a gwireddu'r buddion ehangach, ynghyd â thueddiadau'r farchnad;
- Cydlynu ymgysylltiad gyda rhanddeiliaid yng nghyswllt cyflawni'r Weledigaeth Twf a'r Cynllun Twf.

4.2.10 Bydd y Swyddfa Rhaglen yn mabwysiadu dulliau rheoli portffolio i reoli rhaglenni, prosiectau a thargedau ar draws yr ystod o sefydliadau. Bydd gan y Swyddfa Rhaglen sgiliau a chapasiti cryf i reoli rhaglenni a phrosiectau.

4.2.11 Bydd y Swyddfa Rhaglen yn goruchwylio ac yn rheoli'r rhaglenni a phortffolio o brosiectau, datblygu achosion busnes llawn a gyrru prosiectau i'w cyflawni'n llwyddiannus.

4.2.12 Yn ogystal, bydd yn cydlynu'r Grŵp Swyddogion Gweithredol - sef y weithrediaeth broffesiynol ar gyfer y Bwrdd Uchelgais. Bydd hyn yn cynnwys Swyddogion Arweiniol o bartneriaid amrywiol. Bydd y Grŵp yn goruchwylio cydlynu a gweithio'n gydgysylltiedig, a bydd yn adolygu ac yn diweddaru Cofrestr Risg y Rhaglen.

4.2.13 Byddwn yn gwneud gwell defnydd o adnoddau presennol sydd o fewn y rhanbarth, er mwyn gweithio ar y cyd ar agenda rhanbarthol cyffredin ac i gyflawni Gweledigaeth Twf a Chynllun Twf Gogledd Cymru.

4.2.14 Bydd rhaid i'r Swyddfa Rhaglen gael ei strwythuro a'i siapio gan ystyried trefniadau llywodraethu Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Bydd rhaid iddi gael ei datblygu a bydd rhaid iddi esblygu yn raddol dros amser. Bydd rhaid i'r ffocws fod ar gyfuno adnoddau presennol a darparu dull gweithredu sy'n fwy effeithlon o ran adnoddau, gan gryfhau gwytnwch a chynaliadwyedd. Prif nod y swyddfa fydd rhoi cefnogaeth i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a chyflawni'r Cynllun Twf.

**4.3. Dyluniad Swyddfa'r Rhaglen**

4.3.1 Mae angen i'r Swyddfa Rhaglen fod yn hyblyg yn ei dyluniad a'i gweithrediad ac esblygu dros amser fel a ganlyn:


- **Ebrill 2019 hyd Mawrth 2020** - Trefniadau trosiannol, datblygu achosion busnes llawn, yn dilyn llofnodi Penawdau'r Telerau a symud tuag at sicrhau adnoddau.
- **Ebrill 2020** - Trefniadau trosiannol yn esblygu i strwythur Swyddfa Rhaglen a fydd yn parhau i esblygu dros amser, i fodloni gofynion cyflawni rhaglenni a phrosiectau.

**4.4. Y Strwythur Craidd**

4.4.1 Fel y nodwyd uchod, bydd strwythur y Swyddfa Rhaglen yn datblygu ac yn esblygu dros amser gyda mewnbwn y Cyfarwyddwr Rhaglen. Bydd strwythur craidd y Swyddfa Rhaglen yn cynnwys y swyddi a ganlyn:

- **Cyfarwyddwr Rhaglen** - arwain a chyfarwyddo datblygiad a chyflawniad parhaus y Weledigaeth Twf a'i threfn lywodraethu.
- **Rheolwr Gweithrediadau** - rheoli gweithrediadau busnes a chyllid y weledigaeth twf yn cynnwys rheoli perfformiad, rheoli staff a threfn lywodraethu.
- **Swyddog Cefnogi Gweithrediadau** - gyda chyfrifoldeb dros waith gweinyddol y Swyddfa Rhaglen. *(Bydd yr angen am y swydd hon yn dibynnu ar y baich gwaith gweinyddol.)*
- **Rheolwyr Rhaglen** - arwain a rheoli datblygiad a chyflawniad y rhaglenni a'r prosiectau o fewn y Weledigaeth Twf a chefnogi'r trefniadau llywodraethu. Caiff pedwar Rheolwr Rhaglen eu penodi yn ystod y flwyddyn drosiannol. Bydd gan bob Rheolwr Rhaglen gyfrifoldeb dros raglen unigol:
    - **Rheolwr y Rhaglen Ddigidol** - arwain ar y Rhaglen Ddigidol, yn cynnwys y Prosiect Cysylltedd Digidol a'r Ganolfan Prosesu Signal Digidol.
    - **Rheolwr y Rhaglen Ynni** - arwain ar y Rhaglen Ynni Carbon Isel, yn cynnwys Prosiect Gorsaf Bŵer Trawsfynydd, Morlais, Prosiect Rhwydwaith Ynni Lleol Blaengar a'r Ganolfan Ragoriaeth Niwclear.
    - **Rheolwr y Rhaglen Tir ac Eiddo** - arwain ar y Rhaglen Tir ac Eiddo, yn cynnwys y Cyd-fenter Tir ac Eiddo Rhanbarthol a phrosiect Porth Caergybi.
    - **Rheolwr Rhaglen Datblygu Prosiectau** - arwain ar ddatblygu'r prosiectau o fewn cam 2.

4.4.2 Strwythur y Flwyddyn Drosiannol



4.4.3. Bydd y Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol yn gweithio'n gyfochrog ac yn rhoi cefnogaeth i'r Swyddfa Rhaglen. Caiff dau Swyddog Ymgysylltu eu penodi i'r Tîm yn fuan.

4.4.4. Yn ychwanegol i'r strwythur uchod, mae'r adroddiad Rhaglen Sgiliau a Chyflogaeth yn cynnwys cais am gyfraniad o hyd at £50,000 i ariannu swydd dros dro. Bydd y Bwrdd Uchelgais yn comisiynu'r Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol i arwain ar ddatblygu dau o'r prosiectau o fewn y Rhaglen Sgiliau a Chyflogaeth. (Gweler y wybodaeth fanwl yn yr adroddiad Rhaglen Sgiliau a Chyflogaeth.)

4.4.5. Mae Cyfathrebu yn rôl allweddol arall i'r Swyddfa Rhaglen. Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Uchelgais yn comisiynu ymgynghorydd i ymgymryd â'r gwaith Cysylltiadau Cyhoeddus. Yn ystod y flwyddyn drosiannol, rydym yn rhagweld y byddwn yn parhau gyda'r comisiwn hwn, gan adolygu'r trefniant o fis Ebrill 2020 ymlaen.

4.5. Mae Atodiad 1 yn cynnwys manylion yr Amcan Broffil Ariannu ar gyfer y Swyddfa Rhaglen yn ystod y flwyddyn drosiannol a 2020/21; amserlen recriwtio ar gyfer y swyddi sydd wedi'u hamlinellu uchod; yr adnoddau sydd ar gael o fewn y Swyddfa Rhaglen a Sefydliadau Arweiniol i gefnogi gyda datblygu'r Achosion Busnes Llawn.

**5. CYLLIDO'R STRWYTHUR CRAIDD**

5.1. Mae ystod o ffrydiau ariannol sy'n bwydo i mewn i'r Weledigaeth Twf, a gellid defnyddio rhai o'r rhain i ran-ariannu costau'r swyddfa rhaglen e.e. Cais am arian ESF.

5.2. Bydd y potensial i gyfalafu cyflogau yn dibynnu ar natur y gwaith sy'n cael ei wneud a chyhoeddi 'Cyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru' (fel rhan o'r cynllun) neu 'lythyr swyddogol' gan Lywodraeth Cymru sy'n nodi hyblygrwydd yn y ffordd y caiff ein harian ei ddefnyddio. Bydd y gallu i godi costau staff ar grant cyfalaf hefyd yn dibynnu ar yr amodau grant cysylltiedig (neu fel rhan o'r cynllun). Swyddog A151 yr Awdurdod Lletya sydd â'r penderfyniad terfynol ynghylch cyfalafu cyflogau penodol.

5.3. Mae'r Gyllideb ar gyfer 2019/20 yn cynnwys cyfanswm cyllideb o £246,480 ar gyfer staff yn y flwyddyn drosiannol. Mae hyn yn seiliedig ar dair swydd lawn amser (Cyfarwyddwr Rhaglen, Rheolwr Gweithrediadau a Swyddog Cefnogi Gweithrediadau). Yn ogystal, mae cyllideb Cynllunio, Datblygu a Chefnogi Prosiectau o £319,800. Bydd yr aelodau'n cofio y nododd yr Adroddiad Cyllideb a gyflwynwyd i'r Bwrdd ar 15 Mawrth 2019 "*er bod y gyllideb wedi'i chyfrifo yn seiliedig ar fewnbwn allanol, bydd hyblygrwydd i ddefnyddio rhan o'r gyllideb hon i benodi Rheolwyr Rhaglen (os gellir gwneud hyn heb ymrwymiad adnodd y tu hwnt i adnoddau'r Bwrdd).*"

5.4. Mae Atodiad 1 yn cynnwys amcan broffil ariannu ar gyfer y flwyddyn drosiannol a 2020/21.

5.5. O fewn yr amcan broffil ariannu, rydym yn cynnwys gwybodaeth am hyd y swyddi (dros dro/parhaol). Penodir i'r swyddi sydd wedi'u nodi fel rhai dros dro er mwyn cwblhau darn penodol o waith. Penodir i'r swyddi sydd wedi'u nodi fel rhai parhaol ar sail dros dro i ddechrau; er enghraifft penodir i'r swydd Rheolwr y Rhaglen Ddigidol am flwyddyn ac adolygir hyn ar ddiwedd y cyfnod. Ni chynigir unrhyw swyddi parhaol hyd nes y byddwn wedi llofnodi Penawdau'r Telerau.

**5.6. Arian ESF**

5.6.1 Mae'r Grŵp Swyddogion Gweithredol wedi bod yn gweithio ar gais Cronfa Gymdeithasol Ewropeaidd i ddylunio ac adeiladu'r gallu a'r capasiti angenrheidiol ar gyfer cyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru. Mae cam cyntaf y cais wedi'i gwblhau ar hyn o bryd ac rydym yn aros am gadarnhad gan WEFO er mwyn bwrw ymlaen i'r cam Cynllunio Busnes, lle byddwn yn datblygu'r manylion ar gyfer cyflawni.

5.6.2 Mae'r cais am gyllid am gyfanswm cost prosiect o hyd at £6miliwn, gyda 50% wedi'i ariannu gan ESF. Byddai'r cyllid hwn yn caniatáu i ni ariannu swyddi o fewn y Swyddfa Rhaglen hyd at 2022/23, yn ôl-weithredol i fis Mehefin 2018.

**6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

6.1. Mae Cytundeb Llywodraethu 1 yn darparu fod gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd gyllideb flynyddol "craidd" yn seiliedig ar gyfraniadau Partneriaid. Mae penderfyniad i gynyddu y cyfraniadau wedi eu cadw yn ôl i'r Partneriaid. Dylai penderfyniadau gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd fod yn seiliedig ar y gyllideb "graidd" yma neu cael ei ariannu o ffynhonnell arall sydd ar gael iddo. Bydd y Corff Atebol yn ysgwyddo swyddogaeth cyflogwr cyfreithiol unrhyw staff a gyflogir yn unol a phenderfyniadau'r Bwrdd. Mae Cytundeb Lywodraethu 1 hefyd yn darparu fod y Corff Atebol yn derbyn indemniad gan y Partneriaid yn erbyn unrhyw gostau sydd yn dod iddo o ganlyniad i ymgymryd a'r swyddogaeth yma.

**7. GOBLYGIADAU STAFFIO**

7.1. Dim ar hyn o bryd.

**8. EFFAITH AR GYDRADDOLDEB**

8.1. Dim ar hyn o bryd.

**9. YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD**

9.1. Trafodwyd yr adroddiad a'i gymeradwyo gan y Grŵp Swyddogion Gweithredol ar 14/06/2019.

**ATODIADAU:**

| | |
|---|---|
| **Atodiad 1** | Cynllunio'r Swyddfa Rhaglen |

---

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro - Corff Atebol:**

"Mae'r grynodeb cyfreithiol yn yr adroddiad yn crynhoi y sefyllfa o safbwynt priodoldeb."

**ii. Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 y Corff Atebol):**

"Rwyf wedi cydweithio gyda'r awdur i baratoi'r adroddiad yma a gallaf gadarnhau cywirdeb y ffigyrau ariannol ynddo. Mae angen adnoddau rŵan er mwyn gwneud cynnydd gyda'r Rhaglen.

Mae'r costau cyflogau Swyddfa Rhaglenni hyn i'w ymrwymo ar sail cyfalafu tâl, ariannu yn rhannol drwy grant, ac ati, fel nodir yn rhannau 4.1 a 5.6 yr adroddiad ac wedi'i osod allan yn Atodiad 1. Mae'n debyg bydd y ffynonellau cyllid dewisol yma ar gael, ond ni ellir cadarnhau hynny ar hyn o bryd.

Pe bai angen, mae cost barhaus y strwythur craidd a gynhigir yma dal yn fforddiadwy o fewn adnoddau craidd y Bwrdd, gan ddefnyddio cyfraniadau 2019/20 a chronfeydd wrth gefn a gariwyd ymlaen.

Fodd bynnag, mae angen i aelodau'r Bwrdd gofio y byddai pob sefydliad partner yn cyfrannu ar sail 'cyfraniadau GA1' tuag at unrhyw risg ariannol (gan gynnwys costau diswyddo posibl) fyddai'n dod i'r amlwg o ganlyniad i fethu sicrhau’r ffrydiau ariannu amgen (gorchymyn cyfalafu, cyllid grant) yn y pen draw.”

## Amcan Broffil Ariannu ar gyfer y Swyddfa Rhaglen

Mae angen lefel o gefnogaeth ariannol i barhau i ddatblygu Prosiectau'r Cynllun Twf yn ystod 2019/20 ac mae posib i hyn barhau tan flwyddyn ariannol 2020/21. Er mwyn parhau â'r gwaith datblygu, bydd angen nifer o swyddi a chefnogaeth arall yn y tymor byr a gaiff ei ariannu o Gyllideb y Bwrdd Uchelgais, grant Blaenoriaeth 5 y Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd (ESF) a Chyfalafu prosiectau. Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio ar gyfalafu costau prosiectau ar 0.75-1%, sydd yn is na'r 3% ar gyfer Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ac 1.8% ar gyfer Bargen Ddinesig Bae Abertawe.

Isod, mae amcan broffil ariannu ar gyfer blwyddyn drosiannol 2019/20 a 2020/21. Drafft cyntaf yw hwn sydd i'w drafod ymhellach.

| | | | Gwariant | | Ffynhonnell Incwm | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Parhaol/ Dros dro | Amcan Ddyddiad Dechrau | 2019/20 | 2020/21 | Ffynhonnell Incwm % 2019/20 | | | 2019/20 | | | | Ffynhonnell Incwm % 2020/21 | | | 2020/21 | | | |
| | | | | | Cyllid Craidd | Cyfalafu | ESF | Cyllid Craidd | Cyfalafu | ESF | CYFANSWM | Cyllid Craidd | Cyfalafu | ESF | Cyllid Craidd | Cyfalafu | ESF | CYFANSWM |
| **Cyfarwyddwr Rhaglen** | Parhaol | 01/09/2019 | 75,819 | 129,976 | 75% | 0% | 25% | 56,864 | - | 18,955 | **75,819** | 50% | 25% | 25% | 64,988 | 32,494 | 32,494 | **129,976** |
| **Rheolwr y Rhaglen Ddigidol** | Parhaol | 01/09/2019 | 41,438 | 71,036 | 50% | 0% | 50% | 20,719 | - | 20,719 | **41,438** | 0% | 50% | 50% | - | 35,518 | 35,518 | **71,036** |
| **Rheolwr y Rhaglen Ynni** | Parhaol | 07/10/2019 | 35,518 | 71,036 | 50% | 0% | 50% | 17,759 | - | 17,759 | **35,518** | 0% | 50% | 50% | - | 35,518 | 35,518 | **71,036** |
| **Rheolwr y Rhaglen Tir ac Eiddo** | Parhaol | 07/10/2019 | 35,518 | 71,036 | 50% | 0% | 50% | 17,759 | - | 17,759 | **35,518** | 0% | 50% | 50% | - | 35,518 | 35,518 | **71,036** |
| **Rheolwr Rhaglen Datblygu Prosiectau** | Dros dro | 04/11/2019 | 29,598 | 71,036 | 50% | 0% | 50% | 14,799 | - | 14,799 | **29,598** | 0% | 50% | 50% | - | 35,518 | 35,518 | **71,036** |
| **Rheolwr Gweithrediadau** | Parhaol | 04/11/2019 | 33,920 | 81,408 | 75% | 0% | 25% | 25,440 | - | 8,480 | **33,920** | 50% | 25% | 25% | 40,704 | 20,352 | 20,352 | **81,408** |
| **CYFANSWM** | | | 251,811 | 495,528 | | | | 153,340 | - | 98,471 | 251,811 | | | | 105,692 | 194,918 | 194,918 | 495,528 |

** Rydym yn cynnwys gwybodaeth am hyd y swyddi (dros dro/parhaol) uchod. Penodir i'r swyddi sydd wedi'u nodi fel rhai dros dro er mwyn cwblhau darn penodol o waith. Penodir i'r swyddi sydd wedi'u nodi fel rhai parhaol ar sail dros dro i ddechrau; er enghraifft penodir i'r swydd Rheolwr y Rhaglen Ddigidol am flwyddyn ac adolygir hyn ar ddiwedd y cyfnod. Ni chynigir unrhyw swyddi parhaol hyd nes y byddwn wedi llofnodi Penawdau'r Telerau.*

** Yn seiliedig ar y dybiaeth y caiff y cais ESF ei gymeradwyo gan WEFO a bod y trefniadau ar gyfer cyfalafu yn cael eu cymeradwyo gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.*

**Amserlen Recriwtio**

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r amserlen recriwtio:

| Swydd | Cymeradwyo'r Swydd Ddisgrifiad yn derfynol | Hysbysebu'r Swydd | Dyddiad cau i dderbyn ceisiadau | Rhoi ymgeiswyr ar y rhestr fer | Dyddiad cyfweliad | Amcan Ddyddiad Dechrau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rheolwr y Rhaglen Ddigidol** | 07/06/2019 | 11/06/2019 | 04/07/2019 | w/c 08/07/2019 | w/c 15/07/2019 | 01/09/2019 |
| **Rheolwr y Rhaglen Ynni** | 05/07/2019 | 08/07/2019 | 31/07/2019 | Awst 2019 | w/c 02/09/2019 | 07/10/2019 |
| **Rheolwr y Rhaglen Tir ac Eiddo** | 05/07/2019 | 08/07/2019 | 31/07/2019 | Awst 2019 | w/c 02/09/2019 | 07/10/2019 |
| **Rheolwr Rhaglen Datblygu Prosiectau** | 06/09/2019 | 09/09/2019 | 26/09/2019 | w/c 30/09/2019 | w/c 07/10/2019 | 04/11/2019 |
| **Rheolwr Gweithrediadau** *(Swydd Ddisgrifiad i'w gytuno gyda'r Rheolwr Rhaglen unwaith y bydd wedi'i benodi)* | 06/09/2019 | 09/09/2019 | 26/09/2019 | w/c 30/09/2019 | w/c 07/10/2019 | 04/11/2019 |

Bydd yr holl swyddi yn cael eu harfarnu gan dîm Adnoddau Dynol Cyngor Gwynedd.

Mae swydd Rheolwr Rhaglen generig wedi'i datblygu a'i harfarnu a fydd yn sail ar gyfer yr holl swyddi Rheolwr Rhaglen, ond bydd angen cynnwys manylion ar gyfer pob swydd fel sydd wedi'i ddangos gyda'r swydd Rheolwr y Rhaglen Ddigidol.

Bydd angen datblygu swydd ddisgrifiad a manylion person y Rheolwr Gweithrediadau mewn ymgynghoriad gyda'r Cyfarwyddwr Rhaglen, unwaith y bydd wedi'i benodi.

**Hysbysebu**

Caiff yr holl swyddi eu hysbysebu ar dudalen Swyddi Cyngor Gwynedd fel y brif fan. Caiff is-safle ei chreu ar wefan y Bwrdd Uchelgais a fydd yn cynnwys dolen i wefan Cyngor Gwynedd ar gyfer ymgeiswyr, ond dolen gwefan y Bwrdd Uchelgais ddylid ei hysbysebu'n eang ac nid gwefan Cyngor Gwynedd.

Bydd tîm AD Cyngor Gwynedd yn cysylltu ag Adrannau AD y pum Awdurdod Lleol arall er mwyn iddynt gynnwys manylion yr hysbyseb(ion). Caiff manylion yr holl swyddi eu rhannu er mwyn eu dosbarthu ymhellach gyda'r isod:

- AB ac AU
- Y Sector Preifat (CBI, FSB, Cyngor Busnes ac ati)
- Llywodraeth Cymru / Llywodraeth y DU
- Y Grŵp Cefnogaeth Weithredol / Bwrdd Uchelgais

Bydd y Cyfryngau Cymdeithasol yn bwysig wrth hyrwyddo'r holl swyddi a chaiff y manylion eu rhannu'n eang ar ffrydiau Twitter a Linkedin y Bwrdd Uchelgais.

Lle bo hynny'n bosib, byddwn yn defnyddio dulliau marchnata ar-lein sydd wedi'u targedu e.e. Lleol.cymru; Swyddi'r Gwasanaeth Sifil, Totaljobs).

**Blwyddyn Drosiannol - Datblygu'r Achosion Busnes**

Mae'r tabl isod yn arddangos yr adnoddau o fewn y Sefydliad Arweiniol a'r Swyddfa Rhaglen yn ystod y flwyddyn drosiannol i gefnogi Datblygu'r Achosion Busnes Llawn ac mae'n bosib y bydd angen peth adnoddau dros dro hefyd.

| Prosiect | Datblygu Achosion Busnes yn y Flwyddyn Drosiannol | |
|---|---|---|
| | Cefnogaeth y Sefydliad Arweiniol | Cefnogaeth y Swyddfa Rhaglen |
| Prosiect Gorsaf Bŵer Trawsfynydd | | Cefnogaeth gan Reolwr y Rhaglen Ynni |
| Prosiect Morlais | Darperir gan Menter Môn | Cefnogaeth gan Reolwr y Rhaglen Ynni |
| Prosiect Rhwydwaith Ynni Lleol Blaengar | | Cefnogaeth gan Reolwr y Rhaglen Ynni |
| Prosiect Canolfan Ragoriaeth Niwclear | Darperir gan Brifysgol Bangor | Cefnogaeth gan Reolwr y Rhaglen Ynni |
| Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | Darperir gan Glyndŵr | Cefnogaeth gan y Rheolwr Rhaglen Datblygu Prosiectau |
| Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol | Darperir gan Brifysgol Bangor | Cefnogaeth gan y Rheolwr Rhaglen Datblygu Prosiectau |
| Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon | Darperir gan GLlM | Cefnogaeth gan y Rheolwr Rhaglen Datblygu Prosiectau |
| Fferm Carbon Niwtral Llysfasi | Darperir gan Goleg Cambria | Cefnogaeth gan y Rheolwr Rhaglen Datblygu Prosiectau |
| Prosiect Canolfan Ragoriaeth Twristiaeth a Lletygarwch Gogledd Cymru | Darperir gan GLlM | Cefnogaeth gan y Rheolwr Rhaglen Datblygu Prosiectau |
| Prosiect Cyd-fenter Tir ac Eiddo Rhanbarthol | | Cefnogaeth gan Reolwr y Rhaglen Tir ac Eiddo |
| Prosiect Porth Caergybi | Darperir gan Stena | Cefnogaeth gan Reolwr y Rhaglen Tir ac Eiddo |
| Prosiect Cysylltedd Digidol Gogledd Cymru | | Cefnogaeth gan Reolwr y Rhaglen Ddigidol |
| Prosiect Canolfan Prosesu Signal Digidol | Darperir gan Brifysgol Bangor | Cefnogaeth gan Reolwr y Rhaglen Ddigidol |
| Datgarboneiddio Trafnidiaeth Rhanbarthol | | Cefnogaeth gan y Rheolwr Rhaglen Datblygu Prosiectau |

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

**ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**
**28 MEHEFIN, 2019**

| | |
|---|---|
| **TEITL:** | *Dirprwyo a Staffio* |
| **AWDUR:** | *Iwan G Evans, Swyddog Monitro - Corff Atebol* |

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1. Adrodd ar y broses o wneud penderfyniadau ynghylch strwythur staffio'r Swyddfa Rhaglen, y drefn o fewn awdurdodau lleol a'r bwriad ynghylch dirprwyo penderfyniadau.

**2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

2.1. Cadarnhau y pennir strwythur staffio'r Swyddfa Rhaglen yn ystod cyfnod Cytundeb Llywodraethu 1 ("GA1") gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

2.2. Cytuno i ddirprwyo'r cyfrifoldeb o benodi i swyddi ar y strwythur staffio cymeradwy dan lefel y Cyfarwyddwr Rhaglen i'r Cyfarwyddwr Rhaglen yn unol â'r adroddiad.

**3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

3.1. Dan GA1 mae gan y Bwrdd Uchelgais rym i ddirprwyo ei swyddogaethau i Is-bwyllgorau a/neu Swyddogion. Un o elfennau allweddol y prosiect yw sefydlu a rheoli Swyddfa Rhaglen. Er bod y staff yn gyflogeion i'r Corff Atebol yn gyfreithiol, maent gyfystyr ag adnodd rhanbarthol i'r Bwrdd Uchelgais a cânt eu sefydlu a'u hariannu drwy gyllideb y Cyd-bwyllgor. Felly, mae ar y Bwrdd Uchelgais angen gosod egwyddorion clir yng nghyswllt y trefniadau hyn.

**4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL**

4.1. Mae'n anochel y bydd materion ariannu ynghlwm â sefydlu strwythur staffio i'r Swyddfa Rhaglen. Bydd yn adnodd sy'n datblygu hefyd, a dylai'r Bwrdd Uchelgais gael rôl i gymeradwyo'r strwythur staffio er mwyn sicrhau bod yr adnoddau staffio yn briodol ac yn ddigonol ond hefyd fel mater o lywodraethu da.

4.2. O fewn yr awdurdodau lleol, yn gyffredinol y Pennaeth Adran / Cyfarwyddwr perthnasol sy'n penderfynu ar unrhyw newidiadau i strwythurau staffio. Yng nghyd-destun y Bwrdd Uchelgais, y Cyfarwyddwr Rhaglen fyddai'n cymryd y rôl honno. Fodd bynnag, mewn trefniant cydweithio lle bydd gan y Bwrdd Uchelgais berthynas agosach, gydag ymrwymiadau ariannol a defnydd o adnoddau, mae'n debyg y bydd mwy o reolaethau ynghlwm â'r dirprwyo gan fod y gyllideb yn gyfyngedig. Felly, argymhellir y drefn ddirprwyo gychwynnol a ganlyn:

4.3. Bydd y materion isod yn faterion i'r Cyd-bwyllgor:

- Penodi a diswyddo'r Cyfarwyddwr Rhaglen;
- Pob cais am arian newydd;
- Cymeradwyo'r strwythur staffio cyffredinol;

- Materion sy'n debygol o effeithio ar berfformiad y gwasanaeth.

4.4. Argymhellir y bydd y Cyfarwyddwr Rhaglen yn adrodd ar strwythur y Swyddfa Rhaglen o fewn yr Adroddiad Blynyddol.

4.5. Gan ystyried darpariaethau Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006 bydd prosesau recriwtio a diswyddo'r holl staff ar lefel dan brif swyddogion yn cael eu gwneud gan y Rheolwr Rhaglen neu ddirprwy swyddogion sydd wedi'u hawdurdodi'n briodol.

**5. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

5.1. Ni chyfyd unrhyw oblygiadau ariannol newydd o’r adroddiad hwn.

**6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

6.1. Wrth i waith y Bwrdd Uchelgais ddatblygu, mae hi'n bwysig ei fod yn ystyried trefniadau ar gyfer dirprwyo gwneud penderfyniadau. Drwy gael trefniadau dirprwyo clir ynghylch staffio, mae'n rhoi eglurder ar gyfer gwneud penderfyniadau yn ogystal â rheoli adnoddau yn nyddiau cynnar hyn y bartneriaeth. Gellir parhau i adolygu'r trefniadau wrth i'r prosiect ddatblygu.

**7. GOBLYGIADAU STAFFIO**

7.1. Dim.

**8. EFFAITH AR GYDRADDOLDEB**

8.1. Dim.

**9. YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD**

9.1. Mae ymgynghoriad wedi'i gynnal gyda'r Grŵp Swyddogion Gweithredol ar 14 Mehefin 2019.

---

**ATODIADAU:**

Dim

---

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro - Corff Atebol:**

Awdur yr Adroddiad

**ii. Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 y Corff Atebol):**

"Mae'r awdur wedi ymgynghori wrth baratoi'r adroddiad hwn, a chytunaf fod angen trefniadau dirprwyo clir, felly rwy'n cefnogi'r penderfyniad a geisir."

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

**ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**
**28 MEHEFIN, 2019**

| | |
|---|---|
| **TEITL:** | *Diweddariad Trafnidiaeth a Chynnydd gyda Sefydlu Is-grŵp Trafnidiaeth* |
| **AWDUR:** | *Iwan Prys Jones, Rheolwr Rhaglen - Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru* |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Rhoi diweddariad ar gynnydd gyda sefydlu Is-grŵp o'r Bwrdd Uchelgais gyda chyfrifoldeb dros gefnogi gwell deilliannau trafnidiaeth yn y Gogledd. Bydd yr adroddiad yn helpu i ffurfio rhaglen waith i'r dyfodol ar gyfer yr Is-grŵp.

1.2. Yn ogystal, mae'r adroddiad yn amlygu nifer o ddatblygiadau diweddar sydd o bwys i'r rhanbarth, yn cynnwys cynnydd yn sgil cyhoeddi Papur Gwyn Llywodraeth Cymru ar Wella Trafnidiaeth Gyhoeddus, newidiadau i rwydweithiau bysiau rhanbarthol a newid sylweddol posib i bolisi trafnidiaeth gan Lywodraeth Cymru.

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Gwahoddir Aelodau i nodi'r adroddiad a'r cynnydd sydd wedi'i wneud i sefydlu'r Is-fwrdd Cyflawni Trafnidiaeth.

2.2. Cadarnhau derbyn y gefnogaeth cyllid a gynigir gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodi llofnodi'r llythyr cynnig grant gan yr Awdurdod Lletya - **Atodiad 1**.

## 3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Mae'r adroddiad yn amlygu nifer o faterion lle mae potensial i gydweithio rhanbarthol ychwanegu gwerth i weithgareddau cyfredol. Ystyriwyd y meysydd gweithgaredd yng nghyfarfod diwethaf yr Is-grŵp. Bydd angen gwaith manylach i ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer pob thema gwaith. Bydd y materion trafnidiaeth a ddisgrifir yn yr adroddiad yn ffurfio'r sail ar gyfer rhaglen waith yr Is-fwrdd yn y dyfodol. Cynigir i'r cyfarfod nesaf ystyried a blaenoriaethu'r materion ac adnabod arweinwyr posib ar gyfer pob ffrwd gwaith.

3.2. Mae'r materion mwyaf brys yng nghyswllt y rhwydwaith bysiau rhanbarthol a'r dilyniant i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ar Wella Trafnidiaeth Gyhoeddus. Bydd angen ymatebion i'r dilyniant i'r Papur Gwyn ar y Cyd-awdurdodau Trafnidiaeth a'r newidiadau deddfwriaethol arfaethedig i wella rheolaeth dros rwydweithiau bysiau rhanbarthol. Gellir datblygu ffrydiau gwaith eraill dros gyfnod hwy wrth i gapasiti a chyfleoedd i gydweithio ddod i'r amlwg.

3.3. Mae'r agenda a'r cynlluniau gwaith sydd i ddilyn, fel y nodir yn yr adroddiad, yn helaeth a bydd angen eu hystyried yn ofalus wrth i brosesau llywodraethu Cyd-bwyllgor y Bwrdd Uchelgais esblygu. Mae’n debygol y bydd angen ystyriaeth bellach o rymoedd datganoledig gan awdurdodau lleol wrth i'r rhaglen esblygu.

## 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

### 4.1. Cefndir

4.1.1 Ers i'r Cyd-bwyllgor Taith, ynghyd â Chonsortia Trafnidiaeth Rhanbarthol eraill, gael eu diddymu yn 2014, mae Aelodau Cabinet Trafnidiaeth wedi parhau i gyfarfod ar sail anffurfiol. Er yn llwyddiannus o fewn cyfyngiadau strwythur anffurfiol, mae newidiadau diweddar a materion yng nghyswllt cyflawni ymyraethau trafnidiaeth strategol ledled y rhanbarth wedi arwain at angen am strwythur mwy ffurfiol.

4.1.2 Adnabuwyd yr angen am drefniant mwy ffurfiol mewn adroddiad i'r Bwrdd Uchelgais ym mis Chwefror 2019 a arweiniodd at y penderfyniad i gefnogi sefydlu Is-grŵp ffurfiol i'r Bwrdd Uchelgais o fewn y trefniadau llywodraethu ar gyfer cyflawni'r Weledigaeth Twf i Ogledd Cymru. Cyfarfu'r aelodau cabinet yn anffurfiol ar 20 Mai i ystyried y cynigion a'r Cylch Gorchwyl drafft. Cafwyd cefnogaeth gref i'r cynigion a chynhelir cyfarfod nesaf y grŵp dan y trefniadau llywodraethu ffurfiol.

4.1.3 Atodir copi o'r cofnodion drafft gyda'r adroddiad (**Atodiad 2** ) er gwybodaeth.

4.1.4 Hefyd, yn y cyfarfod ar 20 Mai, ystyriodd yr aelodau gynllun gwaith posib ar gyfer y dyfodol yn seiliedig ar nifer o faterion a adnabuwyd lle mae achos cryf dros gydweithio'n rhanbarthol. Ymhlith y materion a amlygwyd, cytunodd yr aelodau ar y materion a ganlyn fel blaenoriaethau.

- Rhwydwaith Bysiau Strategol a phrosiectau cysylltiedig;
- Papur Gwyn Gwella Trafnidiaeth a chynigion i sefydlu Cyd-Awdurdod(au) Trafnidiaeth;
- Datgarboneiddio trafnidiaeth a'r prosiectau peilot sydd ar y gweill;
- Datblygiadau rheilffyrdd a chyfleoedd ar gyfer integreiddio moddol;
- Strategaeth Trafnidiaeth Cymru / Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol a'r angen i adolygu'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol a Rhanbarthol;
- Gweithredu parthau 20mya;
- Strategaeth ffyrdd sydd heb eu mabwysiadu;
- Teithio Llesol;
- Ansawdd Aer ac effaith ar rwydweithiau trafnidiaeth.

4.1.5 Fel diweddariad ar faterion trafnidiaeth allweddol sy'n wynebu'r rhanbarth, mae'r isod yn grynodeb o faterion cyfredol a rhai'r dyfodol a'u heffaith debygol ar drafnidiaeth ledled y Gogledd.

### 4.2. Papur Gwyn Gwella Trafnidiaeth a chynigion i sefydlu Cyd-Awdurdod(au) Trafnidiaeth

4.2.1 Cyhoeddwyd y Papur Gwyn hir-ddisgwyliedig ar Wella Trafnidiaeth Gyhoeddus gan Lywodraeth Cymru ar 10 Rhagfyr 2018.

4.2.2 Mae'r Papur Gwyn yn amlinellu cynigion i ddiwygio strwythurau darparu cludiant teithwyr, newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth bysiau a threfniadau diwygiedig ar gyfer trwyddedu tacsis. Bwriad y ddogfen bolisi oedd ceisio gwrth-droi gostyngiad cyflym yn y defnydd o fysiau yn y blynyddoedd diwethaf; awgryma’r papur fod y defnydd o fysiau yng Nghymru yn gostwng ar gyfradd gynt nag yn unrhyw wlad neu ranbarth arall ar draws y DU.

4.2.3 Mae'r Papur Gwyn yn rhannu'n dair adran eang

- Newidiadau i strwythurau sefydliadol sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau cludiant teithwyr

- Newidiadau deddfwriaethol i alluogi mwy o reolaeth dros lwybrau a gwasanaethau bysiau;
- Newidiadau i brosesau sefydliadol a thrwyddedu Tacsis a Cherbydau Hacni fel bod gwasanaethau Tacsis wedi'u cydlynu'n well law yn llaw â mathau eraill o gludiant teithwyr.

4.2.4 Darperir manylion y newidiadau deddfwriaethol arfaethedig i reoli rhwydweithiau'n well yn adran nesaf yr adroddiad.

4.2.5 Deallwn y bydd y cynigion ar gyfer diwygiadau i drefniadau trwyddedu tacsis a cherbydau Hacni yn ddarostyngedig i ymgynghoriad manylach a gallai ailymddangos yn ddiweddarach mewn fersiwn diwygiedig.

4.2.6 Mae trafodaethau'n parhau yng nghyswllt y posibilrwydd o sefydlu Cyd-awdurdodau Trafnidiaeth. Yn seiliedig ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad y deallwn sydd wedi'u cyflwyno, ymddengys bod cefnogaeth gyfyngedig i sefydlu Cyd-awdurdod Trafnidiaeth Cenedlaethol, fodd bynnag, roedd cefnogaeth betrus ar gyfer Cyd-awdurdod rhanbarthol, yn ddarostyngedig i ddatblygu'r cynigion rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ymhellach. Mae hyn yn cael ei gydlynu gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr rhanbarthol.

4.2.7 Daeth i'r amlwg hefyd bod trafodaethau'n parhau yng nghyswllt y posibilrwydd o sefydlu Cyd-bwyllgorau Strategol yng Nghymru. Ar hyn o bryd, nid yw'n glir pa effaith y gallai hyn ei chael ar y posibilrwydd o sefydlu Cyd-awdurdodau; fodd bynnag, mae'n debygol y byddai sefydlu Cyd-bwyllgorau Strategol yn golygu trefniadau llywodraethu tebyg i'r Cyd-awdurdodau, ac felly gallai ddyblygu gwaith.

4.2.8 Gofynnodd yr aelodau am ddiweddariadau rheolaidd ar gynnydd gyda'r cynigion i sefydlu Cyd-awdurdodau Trafnidiaeth. Mae hon yn eitem o bwys i'w hystyried mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

**4.3. Rhwydwaith Bysiau Strategol a Phrosiectau Cysylltiedig**

4.3.1 Ymhlith y materion sy'n achosi'r pryder mwyaf i aelodau'r grŵp ar hyn o bryd y mae ansefydlogrwydd presennol y rhwydweithiau bysiau yn y rhanbarth. Dros y blynyddoedd diwethaf mae cryn dipyn o aflonyddwch wedi bod, gyda nifer o weithredwyr mawr wedi'u dirwyn i ben, gan adael rhwydwaith tameidiog a marchnad wannach, yn arbennig ar gyfer llwybrau bysiau dan dendr. Hefyd, mae'r gweithredwyr sydd ar ôl wedi cyfuno gweithrediadau, lleihau nifer y gwasanaethau masnachol a chynyddu costau tendr.

4.3.2 Mae hyn oll wedi rhoi straen sylweddol ar gyllidebau cyfyngedig yr awdurdodau lleol. Mae'r pwysau i ddisodli gwasanaethau bysiau a weithredwyd yn fasnachol yn flaenorol gyda llwybrau dan dendr wedi bod yn sylweddol. Mae niferoedd defnyddwyr bysiau wedi disgyn yn sylweddol o ganlyniad i hyn a, bellach, mae gan rai cymunedau wasanaethau bysiau gwael neu ddim gwasanaeth o gwbl.

4.3.3 Mae'r newidiadau wedi arwain at fwy o anfodlonrwydd gyda'r bws fel modd cludiant, oni bai am yr ardal ar hyd yr arfordir ac i Wrecsam lle mae llwybrau bysiau masnachol rheolaidd yn parhau'n weithredol.

4.3.4 Nododd yr aelodau bod angen sefydlogi'r rhwydwaith cyfredol a cheisio adnabod dulliau gweithredu gwahanol i ddarparu gwasanaethau bysiau. Er bod rhai cynigion a allai fod yn welliant wedi'u cynnwys yn y Papur Gwyn Gwella Trafnidiaeth Gyhoeddus, mae pryderon y gallai'r rhain gymryd tua dwy flynedd i'w gweithredu. Yn ogystal, mae'n glir y byddai angen arian ychwanegol i gyflawni gwell deilliannau a bod gwendid y farchnad gyfredol yn anfantais i ni.

4.3.5 Croesewir y cynigion yn y Papur Gwyn yn gyffredinol, ond mae pryderon bod angen gweithredu ar unwaith o ystyried yr amgylchiadau sy'n newid mor gyflym. Enghraifft ddefnyddiol o hyn yw'r newidiadau diweddar i rwydwaith Sir y Fflint, lle mae 13 rhybudd i ganslo neu newid gwasanaeth wedi'u derbyn mewn cyfnod o dri mis. Mae hyn yn achosi ansefydlogrwydd ar lwybrau rhwydwaith craidd, gan effeithio ar siwrneiau teithwyr ac o bosib arwain at gynnydd mewn pwysau ar gyllidebau i ddisodli'r llwybrau masnachol sydd wedi'u colli drwy ddarparu gwasanaethau dan dendr.

4.3.6 Ystyriodd yr aelodau'r sefyllfa gyfredol a gofyn am adroddiad ar ddatrysiadau posib yn y cyfarfod nesaf. Mae peth cyllid (£155k dros ddwy flynedd) wedi'i ddarparu gan Lywodraeth Cymru i gefnogi peilota dull gweithredu rhanbarthol i reoli'r rhwydwaith. Yn dilyn y cyfarfod, cytunodd yr aelodau y dylid derbyn y cynnig o gyllid. Gan fod y cyfarfod blaenorol yn sesiwn anffurfiol, ceisir cadarnhad gan y Bwrdd Uchelgais am y penderfyniad i dderbyn y cynnig o gyllid.

4.3.7 Mae'r cynigion sydd ar y gweill yn debygol o ystyried opsiynau megis:

- Datblygu cynigion am rwydwaith bysiau strategol rhanbarthol yn seiliedig ar Strategaeth Rhwydwaith Bysiau wedi'i diweddaru;
- Datblygu cynllun adnoddau er mwyn cyflawni'r rhwydwaith strategol;
- Adnabod sgiliau a chapasiti arbenigol i fwrw ymlaen â'r rhwydwaith strategol rhanbarthol;
- Cytuno ar ddull gweithredu partneriaeth o ansawdd safonol i'w weithredu gyda gweithredwyr bysiau ar y rhwydwaith strategol;
- Ystyried cynigion ar gyfer sefydlu Trafnidiaeth Seiliedig ar Alw, yn cynnwys opsiynau ar gyfer gweithredwyr "trydedd ffordd";
- Adnabod a gwneud cais am gyllid ychwanegol i gyflawni'r strategaeth.

4.3.8 Bydd yr aelodau'n ystyried cynigion manylach yn eu cyfarfod nesaf.

**4.4. Datgarboneiddio Trafnidiaeth**

4.4.1 Mae datgarboneiddio trafnidiaeth yn fater o bwys a fydd yn cael effaith ar yr holl rwydweithiau trafnidiaeth yn y degawd nesaf. Bydd ymrwymiadau'r llywodraeth i leihau allyriadau carbon a ddaw o drafnidiaeth, yn cynnwys yr angen i bob car preifat fod yn ddi-garbon erbyn 2040 a gostyngiadau sylweddol mewn allyriadau o'r holl gerbydau eraill, yn cael effaith sylweddol ar gysylltedd.

4.4.2 Fel rhan o'r gwaith paratoadol ar gyfer elfen trafnidiaeth Cynllun Twf Gogledd Cymru, mae cyllid wedi'i glustnodi i ddatblygu prosiectau peilot ar gyfer datgarboneiddio rhwydweithiau teithwyr mewn tri lleoliad ledled y rhanbarth. Bydd y cynlluniau peilot hyn yn help i benderfynu ar strategaeth ddatgarboneiddio i'r rhanbarth yn y dyfodol a gwerthuso opsiynau y gellir eu gweithredu yn rhannau gwledig ac ymylol y rhanbarth ynghyd â'r ardaloedd mwy trefol a diwydiannol.

4.4.3 Ar wahân i'r prosiectau peilot, bydd pwysau cynyddol i leihau effaith amgylcheddol trafnidiaeth a bydd angen ymateb rhanbarthol.

**4.5. Datblygiadau rheilffyrdd a Chyfleoedd ar gyfer Integreiddio Moddol**

4.5.1 Mae sicrhau buddsoddiad yn ein rhwydwaith rheilffyrdd wedi bod yn flaenoriaeth i'r Bwrdd Uchelgais ers iddo gael ei sefydlu. Mae egni sylweddol wedi'i roi i ddatblygu strategaeth ar gyfer gwelliannau, gan weithio mewn partneriaeth â chydweithwyr yn Sir Caer a Warrington. Mae'r ymgyrch GrowthTrack360 wedi bod yn ddylanwadol wrth helpu i:

- Sicrhau ymrwymiad i wella gwasanaethau rheilffyrdd ym masnachfraint Cymru a'r Gororau;
- Cynllunio manwl ar gyfer gwelliannau isadeiledd mewn canolfannau ac ardaloedd o dagfeydd;
- Gwell cysylltiadau gyda HS2 a chynlluniau rheilffyrdd traws-gogledd cyflymder uchel yn Crewe ac ati.

4.5.2 Er nad yw'n nod hir-dymor o sicrhau trydaneiddio ein rhwydwaith rheilffordd ddim agosach, fe welwn y gwelliant mwyaf mewn cenhedlaeth yn ein rhwydwaith dros y pum mlynedd nesaf.

4.5.3 Fodd bynnag, mae lle i wella ymhellach o hyd. Mae ein rhwydwaith wedi'i gyfyngu gan ddiffyg capasiti mewn canolfannau allweddol yn Lloegr ac mae'n rhaid i ni gynnal cefnogaeth drawsffiniol ar gyfer gwelliannau yn y lleoliadau allweddol hyn. Mae'r trafodaethau parhaus ynghylch fforddiadwyedd HS2 yn parhau'n risg uchel, yn arbennig os yw'r rhain yn golygu os oes llai o sgôp i gysylltu isadeiledd mewn canolfannau megis Crewe. Heb gysylltedd effeithiol ar draws blatfformau i wasanaethau'r HS2 yn Crewe, ni fydd y rhanbarth yn elwa o'r buddsoddiad strategol hwn.

4.5.4 Hefyd, mae angen sicrhau ein bod yn gwella cysylltedd i'r rhwydwaith rheilffyrdd mewn canolfannau allweddol. Os ydym am ddatblygu isadeiledd trafnidiaeth sydd wedi'i integreiddio'n iawn ac sy'n cefnogi datgarboneiddio ein rhanbarth, yna mae cyfleoedd i newid moddau trafnidiaeth mewn canolfannau allweddol yn hanfodol. Mae cysylltiadau da ac effeithiol rhwng y moddau ceir / bysiau / rheilffordd / cerdded / beicio yn hanfodol. Mae angen i siwrneiau fod yn gyflym, yn ddibynadwy ac yn fforddiadwy. Dylai cyflwyno cysyniad Metro Gogledd Cymru, a fydd yn golygu siwrneiau di-dor gyda sawl modd trafnidiaeth, helpu i gyflawni'r nod hwn.

4.5.5 Yn ogystal, rydym yn aros am gyhoeddiad ynghylch y bidiwr llwyddiannus ar gyfer Partneriaeth Arfordir y Gorllewin. Y fasnachfraint hon yw'r bloc sy'n weddill wrth sicrhau gwell gwasanaethau rheilffyrdd. Rydym wedi ymgyrchu am gynnydd yn nifer y trenau uniongyrchol i Lundain o'r Gogledd, gwell gwasanaethau rheilffyrdd uniongyrchol rhwng Wrecsam a Llundain drwy'r Amwythig a'r cysylltedd effeithiol i gyrchfannau gogledd - de yw Crewe a Warrington. Yn ogystal, bydd y fasnachfraint hon yn gyfrifol am y patrwm gwasanaeth HS2 cychwynnol ac rydym yn chwilio o hyd am gysylltedd da i'r gwasanaethau cyflymder uchel yn Crewe, ond nid ar draul gwasanaethau rheilffyrdd uniongyrchol presennol i Lundain.

4.5.6 Mae cefnogaeth ac ymgyrchu parhaus am fuddsoddiad pellach mewn isadeiledd rheilffyrdd ynghyd â gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru i gyflawni'r gwelliannau sydd wedi'u cynllunio yn y fasnachfraint gyfredol, yn flaenoriaethau i aelodau'r grŵp. Mae sicrhau y bydd rheilffyrdd yn ffurfio rhan o rwydwaith trafnidiaeth integredig yn y rhanbarth yn flaenoriaeth allweddol hefyd.

**4.6. Strategaeth Trafnidiaeth Cymru / Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol a'r angen i adolygu'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol a Rhanbarthol**

4.6.1 Mae Cynllun Trafnidiaeth Lleol rhanbarthol cyfredol Gogledd Cymru yn dyddio'n ôl i 2015 ac mae disgwyl iddo gael ei ddiweddaru yn 2020. Dylai'r cynllun hwn amlinellu'r blaenoriaethau lefel uchaf ar gyfer buddsoddiad mewn trafnidiaeth a dylai weithio ar y cyd â'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol i gyflawni'r weledigaeth ar gyfer Strategaeth Trafnidiaeth Cymru. Fodd bynnag, yn y gorffennol, nid yw'r cynlluniau amrywiol wedi'u hintegreiddio'n iawn, gyda Strategaeth Trafnidiaeth Cymru gyfredol yn dyddio'n ôl i 2008, a'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol yn cael ei adolygu wedi i'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol gael ei gwblhau. Dylai'r genhedlaeth nesaf o gynlluniau fod yn gyfle i integreiddio cynllunio trafnidiaeth strategol yn well yng Nghymru.

4.6.2 Mae'r penderfyniad diweddar gan Lywodraeth Cymru i beidio â bwrw ymlaen a ffordd liniaru'r M4 yn awgrymu, o bosib, newid sylweddol mewn polisi oddi wrth gynlluniau gwelliannau ffyrdd mawr, yn enwedig yng nghyd-destun y datganiad Argyfwng Hinsawdd diweddar. Os felly, mae Strategaeth Trafnidiaeth Cymru ddiwygiedig yn hanfodol fel y gellir paratoi cynlluniau trafnidiaeth strategol sy'n adlewyrchu'r newid mewn amgylchiadau.

4.6.3 Deallwn, o ystyried y gwaith ar Strategaeth Trafnidiaeth Cymru ddiwygiedig, y bydd y gwaith o gyflawni Cynllun Trafnidiaeth Lleol newydd erbyn 2020 wedi'i oedi. Mae hyn yn rhesymegol, o ystyried y dylai'r cynllun newydd gael ei ysgrifennu yng nghyd-destun Strategaeth Trafnidiaeth Cymru sy'n adlewyrchu blaenoriaethau cyfredol y Llywodraeth.

4.6.4 Dylai'r Is-grŵp (neu'r Cyd-awdurdod Trafnidiaeth) newydd gynnig potensial i Aelodau Cabinet a Gweinidogion Llywodraeth Cymru weithio mewn partneriaeth i gyflawni strategaeth uchelgeisiol ar gyfer gwella trafnidiaeth yn y rhanbarth.

4.6.5 Bydd yr aelodau'n parhau i fonitro cynnydd gyda Strategaeth Trafnidiaeth Cymru / Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol diwygiedig ac yn ystyried cynigion i baratoi Cynllun Trafnidiaeth Lleol newydd ar yr adeg briodol.

**4.7. Gweithredu Parthau 20mya**

4.7.1 Ym mis Mai, cyhoeddodd Prif Weinidog Llywodraeth Cymru ymrwymiad i'r cyfyngiad cyflymder diofyn fod yn 20mya mewn ardaloedd trefol yng Nghymru. Mae goblygiadau sylweddol i'r cyhoeddiad hwn, yn enwedig yn nhermau rheoli llif traffig ar brif lwybrau mewn ardaloedd trefol, cynyddu gweithgareddau gorfodaeth a chostau gweithredu'r polisi, ac addasu arwyddion ac ati. Er y deallwn y bydd dulliau ar gael i awdurdodau lleol gynnig cadw 30mya ar rai prif lwybrau, gallai costau ac effeithiau bwrw ymlaen â datganiad o'r fath fod yn sylweddol.

4.7.2 Hyd yma, nid oes unrhyw ganllaw penodol na gwybodaeth am bolisi wedi'i dderbyn ers y cyhoeddiad, er deallwn fod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cynnig sefydlu gweithgor gyda Llywodraeth Cymru i adolygu materion yn dilyn y cyhoeddiad.

4.7.3 O ystyried y materion y cyfeirir atynt uchod, mae hwn yn fater sylweddol posib a allai gael goblygiadau cost ar gyllidebau a chapasiti staffio awdurdodau lleol.

4.7.4 Bydd gan yr Is-grŵp aelodau rôl i'w chwarae wrth gyrraedd cytundeb ar unrhyw ganllawiau rhanbarthol neu safonau cyffredin arfaethedig er mwyn ymdrin â gweithredu'r polisi. Hefyd, bydd y grŵp yn ymateb i ddogfennau ymgynghori ac yn ceisio cynrychioli'r awdurdodau mewn unrhyw drafodaethau.

**4.8. Strategaeth Ffyrdd sydd heb eu Mabwysiadu**

4.8.1 Yn 2018, sefydlodd Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru grŵp cydweithio er mwyn deall yn well faint o ffyrdd sydd heb eu mabwysiadu sydd yng Nghymru, y problemau y maent yn eu hachosi ac er mwyn adnabod datrysiadau posib i atal creu ffyrdd pellach. Roedd y gweithgor yn ymateb uniongyrchol i bryderon a fynegwyd gan aelodau etholedig a chwynion a dderbyniwyd gan y cyhoedd. Bellach, mae adroddiad cychwynnol ar newidiadau i bolisïau ac ymarfer yn ymwneud â mabwysiadu priffyrdd wedi'i baratoi. Mae bwriad i wneud gwaith pellach i ddeall sut ellir mynd i'r afael â'r ôl-groniad.

4.8.2 Bydd aelodau'n derbyn briffiau rheolaidd ac yn cyfrannu at ddatblygu dulliau cyson i weithredu unrhyw ganllawiau a phrosesau newydd sy'n deillio o'r gweithgor.

**4.9. Teithio Llesol**

4.9.1 Mae ymwybyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd teithio llesol fel rhan o'r rhwydwaith trafnidiaeth aml-foddol, yn enwedig yng nghyswllt teithiau byr. Mae teithiau o'r fath, sy'n aml yn llai na milltir neu ddwy, yn gyfranwyr sylweddol i dagfeydd traffig lleol. Mae'r angen am well isadeiledd, yn enwedig llwybrau beicio diogel, wedi'i adnabod ac mae buddsoddiad sylweddol wedi'i wneud yn ddiweddar.

4.9.2 Fodd bynnag, er gwaetha'r Ddeddf Teithio Llesol, mae ei gweithredu wedi bod yn ysbeidiol, mae'r cyllid yn annigonol ac yn aml mae pryderon gan ddefnyddwyr bod ansawdd y ddarpariaeth isadeiledd yn annigonol. Mae'n bwysig hefyd bod llwybrau teithio llesol yn ymuno ar ffiniau gweinyddol fel y gellir cyflawni teithiau diogel i gyrchfannau a safleoedd cyflogaeth. Ystyriaeth bwysig arall yw bod darpariaeth ddigonol ar gael ar gyfer beiciau ar lwybrau trenau a bysiau. Yn rhy aml, mae lle yn gyfyngedig neu ddim ar gael o gwbl, sy'n tanseilio'r potensial ar gyfer siwrneiau aml-foddol o'r dechrau i'r diwedd.

4.9.3 Mae gan yr Is-grŵp rôl i helpu i ddatblygu safonau cyson, monitro cyflawni prosiectau a cheisio cyllid ychwanegol i sicrhau bod rhwydweithiau teithio llesol yn medru datblygu eu potensial yn llawn yn y rhanbarth.

**4.10. Gwella Ansawdd Aer - Effaith ar Rwydweithiau Trafnidiaeth**

4.10.1 Mae pryderon ynghylch ansawdd aer, yn enwedig yn sgil traffig ar rannau lle mae tagfeydd mawr yn ein rhwydwaith ffyrdd eisoes yn cael effaith. Gweithredu rhannau 50mya ar gyffyrdd yr A483 a'r A494 yn ddiweddar yw'r enghreifftiau cyntaf o gamau i leihau effaith y llygredd o danwydd carbon. Yn nifer o'n hardaloedd trefol ac ar hyd ffyrdd prysur â thagfeydd, mae'n debygol y bydd pwysau ychwanegol gan drigolion, wedi'i gefnogi gan gamau cyfreithiol, sy'n ceisio gwella ansawdd aer. Mae hyn yn debygol o fod yn fater o bwys i awdurdodau lleol yn y dyfodol.

4.10.2 Mae cael dulliau cyson rhwng awdurdodau lleol, rhannu profiad a chronni arbenigedd yn un opsiwn i leihau'r costau posib o ymateb i'r mater. Mae'r Is-grŵp aelodau yn gerbyd defnyddiol i gefnogi'r gweithgaredd hwn.

**5. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

5.1. Mae'r cynnig o gyllid gan Lywodraeth Cymru yn darparu peth adnoddau ariannol i gyflawni'r gweithgareddau sydd wedi'u hadnabod. Fodd bynnag, mae hi'n debygol y bydd angen cyllid ychwanegol ar gyfer y capasiti i gyflawni'r agenda ac i gyflawni prosiectau neu weithgareddau penodol a allai ddeillio o'r gwaith. Caiff cynigion manwl pellach eu paratoi os bydd angen adnoddau ychwanegol a bydd y rhain yn amodol ar adroddiadau a chymeradwyaeth pellach. Mae cyllid ar gael o fewn cyllideb y Bwrdd Uchelgais i reoli'r trefniadau gweinyddol arfaethedig cyfredol.

**6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

6.1. Mae Papur Gwyn Llywodraeth Cymru yn cynnig sefydlu Cyd-awdurdodau Trafnidiaeth posib. Byddai rheoli Cyd-awdurdod yn gyfrifoldeb ychwanegol sylweddol ac yn symudiad sylweddol i ffwrdd oddi wrth drefniadau gweithio cyfredol. Gallai sefydlu a chostau rheoli Awdurdod ar wahân fod yn sylweddol. Mae angen datblygu a deall llawer o fanylion yng nghyswllt hyn.

6.2. Byddai gan y cynigion sydd ar y gweill i sefydlu Cyd-bwyllgor Strategol effaith sylweddol bosib ar lywodraeth leol yn y rhanbarth. Nid yw'n glir ar y pwynt hwn beth fyddai'r cynigion, pa feysydd cyfrifoldeb allai ddisgyn dan Gyd-bwyllgor Strategol na sut ellid gweithredu hyn.

6.3. Y cynnig ar hyn o bryd yw y byddai'r is-grŵp yn gweithio o fewn cyfrifoldebau presennol Cyd-bwyllgor y Bwrdd Uchelgais. Ymddengys bod rhai o weithgareddau posib y grŵp y tu allan i drefniadau llywodraethu cyfredol y Cyd-bwyllgor. Yn dibynnu ar sgôp y cynllun gwaith y cytunir arno yn y pendraw, mae'n bosib y bydd angen ceisio cymeradwyaeth benodol gan awdurdodau unigol er mwyn gweithredu.

**7. GOBLYGIADAU STAFFIO**

7.1. Bydd y cynnig o gyllid yn darparu peth adnoddau i gefnogi'r cynllun gwaith arfaethedig. Mae bwriad cynnal trafodaethau manwl gyda Llywodraeth Cymru yng nghyswllt effaith y ddeddfwriaeth fysiau a'r potensial i sefydlu Cyd-awdurdodau Trafnidiaeth. Wrth i'r gwaith fwrw ymlaen, mae'n bosib y gallai gofynion staffio pellach godi.

**8. EFFAITH AR GYDRADDOLDEB**

8.1. Dim ar hyn o bryd.

**9. YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD**

9.1. Grŵp Aelodau Cabinet Trafnidiaeth
Grŵp Gweithredol y Bwrdd Uchelgais
Prif Swyddogion Trafnidiaeth Awdurdodau Lleol

---

**ATODIADAU:**

| | |
|---|---|
| **Atodiad 1** | Llythyr Cynnig Dyfarnu Cyllid Llywodraeth Cymru |
| **Atodiad 2** | Cofnodion drafft yr Is-grŵp a gynhaliwyd ar 20 Mai |

---

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro - Corff Atebol:**

"Mae'r adroddiad yn darparu trosolwg eang o'r amgylchedd datblygol cyd weithio rhanbarthol a chenedlaethol ynglŷn â thrafnidiaeth. Mae hefyd yn amlygu'r cyhoeddiad diweddar gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ar gynigion ar gyfer Cydbwyllgorau Strategol. Mae wedi ei anelu at ddarparu cerbyd cyd-weithio pwrpasol ar gyfer Llywodraeth Leol ac ymddengys y gall hefyd ddarparu strwythur llywodraethu ar gyfer trafnidiaeth."

**ii. Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 y Corff Atebol):**

"Byddaf yn cydweithio gyda'r swyddogion perthnasol i dderbyn y grant ar ran y rhanbarth. Cymeraf y bydd cyfleon eto i'r Bwrdd a'r awdurdodau lleol unigol i flaenoriaethu a threfnu materion i dderbyn sylw pellach."

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mr Dilwyn Williams
Prif Weithredwr
Cyngor Gwynedd
Swyddfa’r Cyngor
Penrallt
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1BN

30 Ebrill 2019

Annwyl Mr Williams

**Dyfarnu Cyllid mewn perthynas â Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar Fesur Trafnidiaeth Gyhoeddus (Cymru) ar gyfer Blynyddoedd Ariannol 2018 i 2021 - Cyngor Gwynedd**

**1. Dyfarnu’r Cyllid**

(a) Mae’n bleser eich hysbysu bod eich Cais wedi bod yn llwyddiannus a bod cyllid o hyd at £155,000 (*can mil a phumdeg pump o bunnoedd*) ("y Cyllid") wedi ei ddyfarnu i chi ar gyfer y Dibenion (fel y'u diffinnir yn Amod 4(a)).

(b) Mae'r Cyllid yn ymwneud â'r cyfnod o 1 Mawrth 2019 i 31 Mawrth 2021 a rhaid ei hawlio'n llawn erbyn 30 Ebrill 2021. Fel arall ni fydd unrhyw ran o'r Cyllid sydd heb ei hawlio ar gael i chi.

(c) Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch dyfarnu'r Cyllid hwn neu'r Amodau, cysylltwch â'r Swyddog yn Llywodraeth Cymru a fydd yn barod iawn i'ch helpu.

**2. Awdurdod statudol a Chymorth Gwladwriaethol**

() Gwneir y dyfarniad Cyllid hwn ar yr Amodau ac yn ddarostyngedig iddynt, ac o dan awdurdod y Gweinidog Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru, sy'n gweithredu yn unol â swyddogaethau sydd wedi'u trosglwyddo dan adran 58A Deddf Llywodraeth Cymru 2006, adran 31 Deddf Llywodraeth Leol 2007, adran 6 Deddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006 a Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013.

(a) Rhaid i chi gydymffurfio â Rheolau Cymorth Gwladwriaethol y Comisiwn Ewropeaidd.

## 3. Dehongli'r Amodau hyn

Yn yr Amodau hyn, mae unrhyw gyfeiriad at:

'**chi', 'eich'** yn gyfeiriad at Gyngor Gwynedd, Swyddfa'r Cyngor, Penrallt, Caernarfon, LL55 1BN;

**'ni' ac 'ein'** yn gyfeiriad at Weinidogion Cymru;

'**Swyddog Llywodraeth Cymru**' yn cyfeirio at

Robin Beckmann
Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
Conwy
LL31 9RZ

Rhif Ffôn: 03000 625774

E-bost: Transportplanning@gov.wales /Cynlluniotrafnidaeth@llyw.cymru

neu unrhyw swyddog arall o Lywodraeth Cymru y'ch hysbysir

ohono gennym ni.

'**Rheolwr Prosiect**' yn cyfeirio at

Iwan Trefor Jones,
Cyngor Gwynedd,
Swyddfeydd y Cyngor,
Stryd y Jêl
Caernarfon,
Gwynedd,
LL55 1SH

Rhif Ffôn: 01286 679162

E-bost: IwanJ@gwynedd.gov.uk

'**Amodau**' yn cyfeirio at y telerau ac amodau a bennir yn y llythyr hwn;

**'Costau a ysgwyddir'** yn cyfeirio at gost y nwyddau a'r gwasanaethau yr ydych wedi'u cael ni waeth a ydych wedi talu amdanynt erbyn dyddiad eich hawliad;

'**Digwyddiad Hysbysadwy**' yn cyfeirio at unrhyw ddigwyddiad a restrir yn Atodlen 3;

'**Proffil Taliadau**' yn cyfeirio at y proffil taliadau a bennir yn Atodlen 4;

‘**Personél**' yn cyfeirio at eich rheolwyr/cyflogeion a chyflenwyr neu unrhyw berson arall a benodir neu a gyflogir gennych mewn perthynas â'r Dibenion;

‘**Atodlen**' yn cyfeirio at yr atodlenni a atodir i'r llythyr hwn;

‘**Rheolau Cymorth Gwladwriaethol'** yn cyfeirio at y rheolau a bennir yn Erthyglau 107 – 109 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd (neu unrhyw Erthygl sy'n olynu Erthyglau 107 i 109), mewn is-ddeddfwriaeth megis fframweithiau, canllawiau ac esemptiadau bloc a baratoir gan y Comisiwn Ewropeaidd ac sy’n deillio o Erthyglau 107 i 109, cyfraith achosion y Llysoedd Ewropeaidd a phenderfyniadau’r Comisiwn Ewropeaidd mewn perthynas â chymhwyso Erthyglau 107 – 109;

**bydd unrhyw gyfeiriad at ddeddfwriaeth** boed yn gyfraith ddomestig, yr Undeb Ewropeaidd neu ryngwladol yn cynnwys yr holl ddiwygiadau ac amnewidiadau ac ailddeddfiadau o'r cyfryw ddeddfwriaeth sydd mewn grym o bryd i'w gilydd.

**4. Yr hyn y mae’n rhaid i chi ddefnyddio’r Cyllid ar ei gyfer**

(a) Rhaid i chi ddefnyddio’r Cyllid at y dibenion hynny, yn unig, a bennir yn Atodlen 1 (y "**Dibenion**”).

(b) Rhaid i chi gyflawni’r targedau a’r canlyniadau a bennir yn Atodlen 2 (y "**Targedau**”).

(c) Os bydd angen gwneud unrhyw newidiadau i'r Dibenion neu'r Targedau, bydd angen i chi gael ein caniatâd ysgrifenedig cyn gweithredu'r newidiadau hyn. Nodwch nad oes rhaid i ni roi caniatâd, ond byddwn yn ystyried pob cais ysgrifenedig rhesymol.

(d) Ni chaniateir defnyddio unrhyw ran o'r Cyllid ar gyfer: (1) dibenion gwleidyddiaeth plaid; (2) hyrwyddo safbwyntiau seciwlar, crefyddol neu wleidyddol penodol; (3) gamblo; (4) pornograffi; (5) cynnig gwasanaethau rhywiol; (6) prynu cyfarpar cyfalaf (ac eithrio fel a bennir yn y Dibenion); (7) eich ffioedd cyfreithiol mewn perthynas â'r llythyr hwn; (8) Costau a Ysgwyddir neu a delir gennych wrth gyflawni’r Dibenion cyn y cyfnod y cyfeirir ato yn Amod 1 (b); (9) unrhyw fath o weithgareddau anghyfreithiol; neu (10) unrhyw fath o weithgaredd a allai ddwyn anfri arnom yn ein barn ni.

**5. Rhag-amodau'r Cyllid**

(a) Ni fyddwn yn talu unrhyw ran o’r Cyllid i chi nes byddwch wedi darparu’r wybodaeth a’r dogfennau a ganlyn i ni:

(i) y llythyr hwn wedi'i lofnodi gennych chi;

(ii) tystiolaeth ddogfennol fod y sawl sydd wedi llofnodi'r llythyr hwn ar eich rhan â'r awdurdod i wneud hynny;
(iii) tystiolaeth ddogfennol eich bod wedi sefydlu systemau priodol i gynnal gweithdrefnau diwydrwydd dyladwy cyn defnyddio unrhyw ran o'r Cyllid i ddarparu grant neu i gaffael unrhyw nwyddau neu wasanaethau o drydydd parti;
(iv) cofnod o'r sawl sydd wedi llofnodi i'w gwblhau a'i ddychwelyd i Lywodraeth Cymru gan ddefnyddio'r gofrestr llofnodwyr sydd ynghlwm;
(v) Cadarnhad bod unrhyw arian cyfatebol sydd ei angen yn ei le er mwyn sicrhau llwyddiant y cynllun(iau).

(b) Pan fydd angen i chi ddarparu gwybodaeth a dogfennau i ni fel tystiolaeth eich bod wedi bodloni rhag-amod, neu Amod benodol neu i gefnogi hawliad, rhaid i'r wybodaeth a'r dogfennau fod yn dderbyniol i ni ym mhob ffordd. Yr ydym yn cadw'r hawl i wrthod unrhyw wybodaeth a dogfennau nad ydynt yn dderbyniol i ni am unrhyw reswm.

**6. Sut i hawlio'r Cyllid**

(a) Bydd y Cyllid yn cael ei dalu i chi bob chwarter mewn ôl-ddyledion, yn seiliedig ar y Costau a Ysgwyddir gennych wrth gyflawni'r Dibenion sydd wedi'u manylu yn y Proffil Taliadau.

(b) Rhaid i chi hawlio'r Cyllid yn unol â'r dyddiadau a nodwyd yn y Proffil Taliadau. Rhaid i chi hawlio'r Cyllid yn brydlon. Yr ydym yn cadw'r hawl i dynnu'n ôl unrhyw ran o'r Cyllid na fyddwch wedi ei hawlio'n brydlon.

(c) Rhaid i chi gyflwyno eich hawliadau ar gyfer talu'r Cyllid i'r Swyddog Llywodraeth Cymru.

(d) Rhaid i chi ddefnyddio'r ffurflen hawlio gyfredol (sydd ar gael gan y Swyddog Llywodraeth Cymru) ac sydd wedi'i bennu yn y Nodyn Canllaw ac atodi'r wybodaeth a'r dogfennau a fanylir yn y Proffil Taliadau.

i) cadarnhad eich bod yn gweithredu yn unol â'ch cyfansoddiad ym mhob cyswllt; a
ii) chadarnhad fod gennych systemau priodol yn eu lle i gynnal gweithdrefnau diwydrwydd dyladwy cyn defnyddio unrhyw ran o'r Cyllid i ddarparu grant neu i gaffael unrhyw nwyddau neu wasanaethau gan drydydd parti;

(e) Byddwn yn anelu i dalu pob hawliad dilys cyn gynted ag y bo modd ac fel arfer o fewn 28 diwrnod.

## 7. Eich ymrwymiadau cyffredinol chi i ni

Rhaid i chi:

(a) ddiogelu’r Cyllid rhag twyll yn gyffredinol ac, yn benodol, twyll ar ran eich Personél a rhaid i chi ein hysbysu ni ar unwaith os bydd gennych reswm i amau bod twyll wedi digwydd yn eich sefydliad, yn digwydd neu’n debygol o ddigwydd, p'un ag ydyw'n ymwneud â'r Cyllid ai peidio. Rhaid i chi hefyd gymryd rhan yn y cyfryw fentrau atal twyll ag y byddwn yn eu gwneud yn ofynnol o bryd i'w gilydd.

(b) cydymffurfio â'r holl gyfreithiau neu reoliadau domestig, yr UE neu ryngwladol neu gyfarwyddebau swyddogol cymwys;

(c) trefnu a pharhau i gynnal yswiriant digonol ar gyfer y risgiau a allai godi mewn cysylltiad ag unrhyw eiddo neu unrhyw weithgaredd a gaiff eu gwneud wrth gyflawni’r Dibenion. Yr ydym yn cadw'r hawl i'w gwneud yn ofynnol i chi gyflwyno tystiolaeth o’ch yswiriant;

(d) sefydlu a chynnal systemau priodol i gynnal gweithdrefnau diwydrwydd dyladwy cyn defnyddio unrhyw ran o'r Cyllid i ddarparu grant neu i gaffael unrhyw nwyddau neu wasanaethau gan drydydd parti;

(e) cydweithredu’n llawn â'r Swyddog Llywodraeth Cymru ac unrhyw un o gyflogeion eraill Llywodraeth Cymru neu unrhyw ymgynghorydd a benodir gennym ni i fonitro'r modd y defnyddiwch y Cyllid a’ch cydymffurfiaeth â’r Amodau hyn;

(f) roi gwybod i ni ar unwaith os bydd unrhyw ddatganiad a wnaed yn Amod 8 yn anghywir mewn unrhyw fodd neu, o'i ailadrodd ar unrhyw adeg gan gyfeirio at y ffeithiau a'r amgylchiadau a fodolai bryd hynny, y byddai'n gywir.

## 8. Datganiadau

Yr ydych yn datgan:

(a) bod gennych y pŵer i ymgymryd â'r rhwymedigaethau a bennir yn yr Amodau hyn a'u cyflawni, a'ch bod wedi cymryd pob cam angenrheidiol i awdurdodi ymgymryd â'r rhwymedigaethau a'u cyflawni dan yr Amodau hyn;

(b) nad oes achos o ymgyfreitha na chymrodeddu ar y gweill, y  yr arfaeth, nac wedi ei fygwth hyd y gwyddoch, sy'n cael, neu a allai gael effaith anffafriol ar eich gallu i gyflawni a chydymffurfio ag unrhyw un neu rai o’r Amodau hyn;

(c) bod y wybodaeth a gynhwysir yn eich cais yn gyflawn, yn wir ac yn gywir;

(d) bod datgeliad llawn wedi ei wneud i ni o’r holl ffeithiau neu amgylchiadau perthnasol y mae’n ofynnol eu datgelu er mwyn sicrhau y gallwn gael darlun gwir a chywir o’ch busnes a’ch gweithgarwch (cyfredol ac arfaethedig), neu y dylid eu darparu i unrhyw berson sy’n ystyried darparu cyllid i chi;

(e) eich bod wedi trafod a chytuno ar y Targedau gyda ni, a’ch bod yn hyderus eu bod yn realistig a chyraeddadwy;

(f) byddwch yn bodloni'r holl gostau refeniw a chynnal a chadw yn y dyfodol sy'n codi o'ch cynllun(iau);

(g) eich bod yn derbyn bod y grant yn cael ei ddyfarnu o 1 Mawrth 2019 tan 31 Mawrth 2021 ac y bydd yn dod i ben ar 21 Mawrth 2021.

**9. Digwyddiadau Hysbysadwy a’u canlyniadau**

(a) Rhaid i chi ein hysbysu ni ar unwaith o unrhyw Ddigwyddiad Hysbysadwy sydd wedi digwydd neu’n debygol o ddigwydd; ond yr ydym hefyd yn cadw’r hawl i’ch hysbysu chi, os credwn fod Digwyddiad Hysbysadwy wedi digwydd neu’n debygol o ddigwydd.

(b) Byddwn naill ai'n (i) eich hysbysu chi ein bod ni'n ystyried nad oes modd unioni'r Digwyddiad Hysbysadwy neu, (ii) os byddwn ni'n ystyried bod modd unioni'r Digwyddiad Hysbysadwy, byddwn yn ceisio trafod y Digwyddiad Hysbysadwy â chi gyda'r bwriad o gytuno ar gamau gweithredu i fynd i'r afael â'r Digwyddiad Hysbysadwy.

(c) Mae hawl gennym gymryd unrhyw un o’r camau a restrir yn Amod 9(d):

- (i) os na fyddwn, er gwaethaf ein hymdrechion rhesymol, wedi llwyddo i drafod y Digwyddiad Hysbysadwy gyda chi; neu
- (ii) os byddwn yn eich hysbysu nad oes modd unioni’r Digwyddiad Hysbysadwy; neu
- (iii) os na gytunir gyda chi ar gamau gweithredu i fynd i'r afael â'r Digwyddiad Hysbysadwy; neu
- (iv) os cytunir gyda chi ar gamau gweithredu i fynd i'r afael â'r Digwyddiad Hysbysadwy a chithau wedyn yn peidio â dilyn y camau hynny, neu os na fodlonir unrhyw amod sy’n gysylltiedig â’r camau gweithredu (gan gynnwys, yn ddigyfyngiad, yr amserlen ar gyfer y cyfryw gamau gweithredu); neu
- (v) os yw’r ffordd o weithredu yn methu ag unioni’r Digwyddiad Hysbysadwy mewn modd sydd wrth ein bodd ni.

(d) Os digwydd unrhyw un o’r amgylchiadau a bennir yn Amod 9(c) gallwn eich hysbysu ein bod yn gweithredu fel a ganlyn:

- (i) tynnu'r dyfarniad Cyllid yn ôl; a/neu

(ii) ei gwneud yn ofynnol eich bod yn ad-dalu’r cyfan neu ran o’r Cyllid ar unwaith; a/neu
(iii) atal dros dro neu’n derfynol bob taliad pellach o’r Cyllid; a/neu
(v) gwneud pob taliad pellach o’r Cyllid yn ddarostyngedig i ba bynnag amodau a bennir gennym ni; a/neu
(vi) tynnu pob swm sy’n ddyledus i ni o dan yr Amodau hyn o unrhyw gyllid arall yr ydym wedi ei ddyrannu i chi neu a allai gael ei ddyrannu i chi; a/neu
(vii) arfer yn eich erbyn unrhyw hawliau eraill a allai fod gennym mewn perthynas â’r Cyllid.

(e) Rhaid i bob ad-daliad Cyllid gael eu gwneud cyn pen 28 diwrnod i ddyddiad ein gorchymyn. Os yn berthnasol, rhaid i chi dalu llog ar unrhyw ad-daliadau hwyr (ar ffurf adlog) yn unol â'r Rheolau Cymorth Gwladwriaethol.

**10. Gofynion Monitro**

Rhaid i chi:

(a) ddarparu i ni’r cyfryw ddogfennau, gwybodaeth ac adroddiadau y gallwn yn rhesymol ofyn amdanynt o bryd i’w gilydd, er mwyn i ni fonitro eich cydymffurfiaeth chi ag Amodau'r dyfarniad grant hwn.

(b) cyfarfod â’r Swyddog Llywodraeth Cymru a pha bynnag rai eraill o’n cynrychiolwyr y gallwn yn rhesymol ofyn ichi eu cyfarfod o bryd i’w gilydd.

(c) sicrhau bod y Rheolwr Prosiect (neu’r cyfryw berson arall fel y cytunir gennym ni) ynghyd ag unrhyw berson arall sy’n ofynnol gennym yn bresennol ym mhob un o’r cyfarfodydd gyda’r Swyddog Llywodraeth Cymru.

**11. Gofynion Archwilio**

(a) Rhaid i chi:

(i) gynnal cofnodion cyfrifyddu eglur sy’n nodi’r holl incwm a gwariant mewn perthynas â’r Dibenion;
(ii) yn ddi-dâl, ganiatáu i unrhyw swyddog neu swyddogion o Lywodraeth Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru neu’r Comisiwn Ewropeaidd, ar unrhyw adeg resymol ac ar ôl i chi dderbyn cyfnod rhesymol o rybudd (mewn amgylchiadau eithriadol, megis atal neu ddatgelu twyll, mae'n bosib na fyddai'n ymarferol rhoi rhybudd rhesymol i chi), ymweld â’ch mangre a/neu arolygu unrhyw un neu rai o’ch gweithgareddau a/neu archwilio a gwneud copïau o’ch llyfrau cyfrifon a pha bynnag ddogfennau neu gofnodion eraill, sut bynnag y’u cedwir, a allai, ym marn resymol y swyddog, ymwneud mewn unrhyw ffordd â’r modd y defnyddiwch y Cyllid. Nid yw’r ymgymeriad hwn yn lleihau dim ar effaith unrhyw hawliau a phwerau statudol eraill sy’n

arferadwy gan Lywodraeth Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru neu'r Comisiwn Erwopeaidd, neu unrhyw swyddog, gwas, neu asiant unrhyw un o'r uchod;

(iii) cadw'r llythyr hwn a'r holl ddogfennau gwreiddiol sy'n ymwneud â'r Cyllid hyd nes i ni roi gwybod i chi yn ysgrifenedig ei bod yn ddiogel eu dinistrio;

(b) O dan baragraff 17 o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 mae gan Archwilydd Cyffredinol Cymru hawliau mynediad eang i ddogfennau a gwybodaeth sy'n ymwneud ag arian a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. Mae pŵer ganddo ef a'i swyddogion i'w gwneud yn ofynnol i bersonau perthnasol, sy'n rheoli neu'n dal dogfennau, roi pa bynnag gymorth, gwybodaeth ac esboniadau y gofynnant amdanynt; a'i gwneud yn ofynnol i'r personau hynny ymddangos ger eu bron i'r cyfryw ddiben. Caiff yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff arfer yr hawl hon ar unrhyw adeg resymol.

**12. Rhwymedigaethau i drydydd partïon**

(a) Nid oes dim yn yr Amodau hyn sydd yn gosod unrhyw rwymedigaeth arnom ni mewn perthynas ag unrhyw rwymedigaeth sy'n ddyledus gennych chi i unrhyw drydydd parti (gan gynnwys, yn ddigyfyngiad, cyflogeion a chontractwyr).

(b) Rhaid i chi ein hindemnio ni rhag unrhyw rwymedigaethau, hawliadau, achosion cyfreithiol, galwadau am dâl, colledion, costau a threuliau, y bu i ni eu dioddef neu eu hachosi yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, o ganlyniad i neu sy'n gysylltiedig ag unrhyw fethiant ar eich rhan chi i gyflawni, yn llawn neu'n rhannol, unrhyw rwymedigaeth a allai fod arnoch i drydydd parti.

**13. Hawliau eiddo deallusol a chyhoeddusrwydd**

(a) Nid oes dim yn yr Amodau hyn yn trosglwyddo i ni unrhyw hawliau mewn eiddo deallusol a grëir gennych chi o ganlyniad i'r Dibenion.

(b) Rhaid i chi gydnabod y cymorth a gewch gennym ni mewn perthynas â'r Dibenion. Rhaid i'r gymeradwyaeth honno fod ar ffurf a gymeradwyir gennym ni, a rhaid iddi gydymffurfio â chanllawiau brandio Llywodraeth Cymru.

(c) Rhaid ichi ddarparu i'r Swyddog Llywodraeth Cymru fanylion pob cymeradwyaeth a restrir yn Amod 13(b) i'w cymeradwyo gennym ni cyn defnyddio'r cyfryw ddeunydd ac ni chaniateir ichi ddefnyddio manylion o'r fath heb gael ein cymeradwyaeth ysgrifenedig ni ymlaen llaw. Byddwn yn ceisio ymateb i bob cais ysgrifenedig o fewn 10 diwrnod gwaith.

(d) Yr ydych yn cytuno bod hawl gennym, o ddyddiad y llythyr hwn hyd at 5 mlynedd o ddyddiad taliad olaf y Cyllid gynnwys manylion eich sefydliad a'ch busnes chi, a'r Cyllid a'r Dibenion mewn deunyddiau hyrwyddo ar gyfer Llywodraeth Cymru, ac yr ydych yn cytuno

ymhellach i gydweithredu â cheisiadau rhesymol gennym ni at y diben o baratoi deunyddiau o'r fath.

## 14. Gwybodaeth

(a) Yr ydych yn cydnabod ein bod yn ddarostyngedig i ofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (yr "FOIA"), Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (yr "EIR"), Deddf Diogelu Data 2018 (y "DPA") a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (Rheoliad (UE) 2016/679) (y "GDPR").

(b) Yr ydych yn cydnabod mai ni sy'n gyfrifol am benderfynu yn ôl ein disgresiwn absoliwt a ddylid:

(i) datgelu unrhyw wybodaeth a gawsom o dan neu mewn cysylltiad â'r Cyllid, i'r graddau y mae'n ofynnol ein bod yn datgelu'r cyfryw wybodaeth i berson sy'n gwneud cais am ddatgeliad o dan yr FOIA neu'r EIR; a/neu
(ii) esemptio unrhyw wybodaeth o'r gofynion datgelu o dan y Cod, yr FOIA neu'r EIR.

(c) Yr ydych yn cydnabod y gallwn rannu unrhyw ddata yr ydych yn eu darparu i ni ag asiantaethau gwrth-dwyll a thrydydd partïon at ddibenion atal a datgelu twyll. Caiff unrhyw ddata personol yr ydym yn ei gasglu ei reoli yn unol â'r Rhybudd Preifatrwydd sydd ar gael i'w weld yma https://beta.gov.wales/privacy-notice-welsh-government-grants

## 15. Prynu nwyddau a gwasanaethau

Os penderfynwch brynu unrhyw nwyddau a/neu wasanaethau i gyflawni'r Dibenion, rhaid eu prynu mewn modd cystadleuol a chynaliadwy er mwyn dangos eich bod wedi sicrhau'r gwerth gorau wrth ddefnyddio arian cyhoeddus.

## 16. Hysbysu

(a) Rhaid i bob hysbysiad a roddir o dan yr Amodau hyn fod mewn ysgrifen (nid yw hyn yn cynnwys e-bost, ond gall gynnwys llythyr a atodir i e-bost) a rhaid iddo arddangos yn amlwg y pennawd a ganlyn:

***"Hysbysiad ynghylch Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar Fesur Trafnidiaeth Gyhoeddus (Cymru) ar gyfer Blynyddoedd Ariannol 2018 i 2021 - Cyngor Gwynedd".***

(b) Mae'r cyfeiriad a'r manylion cyswllt at y diben o gyflwyno hysbysiad o dan yr Amodau hyn fel a ganlyn

Chi: y Rheolwr Prosiect yn y cyfeiriad a bennir yn Amod 3.

Ni: y Swyddog Llywodraeth Cymru yn y cyfeiriad a bennir yn Amod 3.

(c) Ystyrir bod hysbysiad wedi ei gyflwyno’n briodol fel a ganlyn:-

| | |
|---|---|
| Post dosbarth cyntaf rhagdaledig: | ar yr ail ddiwrnod gwaith ar ôl y dyddiad postio. |
| Â llaw: | ar yr adeg y’i hanfonir i’r cyfeiriad, neu’r diwrnod gwaith nesaf os yw’n cyrraedd ar ôl 4pm neu ar benwythnos neu wyliau cyhoeddus. |
| Drwy atodiad e-bost: | ar yr adeg y’i trawsyrrir, neu’r diwrnod gwaith nesaf os trawsyrrir ar ôl 4pm neu ar benwythnos neu wyliau cyhoeddus. |

**17. Cyfle cyfartal**

Rhaid ichi weithredu polisi cyfle cyfartal fel cyflogwr, fel defnyddiwr gwirfoddolwyr, ac fel darparwr gwasanaethau, heb ystyried hil, rhyw/hunaniaeth rywiol, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd a chred, oedran neu unrhyw anabledd.

**18. Yr Iaith Gymraeg**

a. Pan fo’r Dibenion yn cynnwys neu’n ymwneud â darpariaeth gwasanaethau yng Nghymru, rhaid iddynt gael eu darparu yn Gymraeg a Saesneg oni bai y byddai'n afresymol neu'n anghymesur gwneud hynny. Os cânt eu darparu yn Gymraeg a Saesneg, rhaid iddynt gael eu darparu mewn ffordd nad yw'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na Saesneg, yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

b. Am gyngor ar ddarparu gwasanaethau yn ddwyieithog ac yn unol â'r Amodau, cysylltwch â thîm Hybu Comisiynydd y Gymraeg: http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/hybu/en/home/Pages/home.aspx

**19. Cynaliadwyedd**

Rhaid i’r modd y defnyddiwch y Cyllid (pan fo’n rhesymol ymarferol) fodloni agenda gyfredol Llywodraeth Cymru o ran datblygu cynaliadwy a’r amgylchedd.

**20. Swyddogaethau Gweinidogion Cymru**

Yr ydych yn cydnabod bod gan Weinidogion Cymru ystod o swyddogaethau a fydd yn parhau i gronni a chael eu diwygio, a bod

rhaid i benderfyniadau ynglŷn â phob swyddogaeth unigol gael eu gwneud yng ngoleuni’r holl ystyriaethau perthnasol, gan eithrio pob ystyriaeth amherthnasol. Yr ydych yn cytuno na fydd dim sy’n gynwysedig yn yr Amodau hyn neu sydd ymhlyg ynddynt, neu sy’n codi oddi tanynt neu mewn cysylltiad â hwy, mewn unrhyw fodd yn niweidio, yn llyffetheirio, neu’n effeithio ar swyddogaethau Gweinidogion Cymru neu unrhyw rai ohonynt, nac yn rhwymo Gweinidogion Cymru, neu unrhyw rai ohonynt i arfer eu swyddogaethau, neu ymatal rhag eu harfer, mewn unrhyw fodd penodol.

## 21. Cyffredinol

(a) Os digwydd i unrhyw un o’r Amodau hyn, ar unrhyw adeg, fynd, neu gael ei ystyried, yn annilys, yn anghyfreithlon neu’n anorfodadwy mewn unrhyw fodd o dan unrhyw gyfraith, nid effeithir ac nid amherir mewn unrhyw fodd ar ddilysrwydd, cyfreithlondeb a gorfodadwyedd gweddill y darpariaethau.

(b) Ni fydd methiant neu oedi ar ein rhan ni i arfer unrhyw bŵer, hawl neu rwymedi o dan yr Amodau hyn yn gweithredu fel hepgoriad o’r cyfryw bŵer, hawl neu rwymedi, nac yn ein rhwystro rhag arfer y cyfryw bŵer, hawl neu rwymedi ymhellach, neu arfer unrhyw bŵer, hawl neu rwymedi arall. Mae’r pwerau, yr hawliau neu’r rhwymedïau a ddarperir drwy hyn yn rhai cronnus, ac nid ydynt yn eithrio unrhyw bwerau, hawliau neu rwymedïau a ddarperir drwy gyfraith.

(c) Rhaid i unrhyw ddiwygiad neu amrywiad i’r Amodau hyn fod yn ysgrifenedig a chael ei lofnodi gennym ni a chennych chi, yn yr un modd â’r llythyr hwn.

(d) Ni chaniateir ichi aseinio, na gwaredu mewn unrhyw ffordd arall, eich hawliau, eich buddion, eich rhwymedigaethau neu’ch dyletswyddau o dan yr Amodau hyn.

(e) Bydd Amodau 7, 9, 11, 13, 14, a 21(e), a’r cyfryw Amodau eraill y mae angen iddynt, drwy oblygiad, barhau y tu hwnt i daliad olaf y Cyllid, yn parhau felly yn eu llawn rym ac effaith.

(f) I chi yn unig y gwneir y dyfarniad Cyllid ac nid oes gan neb arall hawl i wneud unrhyw hawliad mewn perthynas â’r Cyllid, nac ychwaith i ddibynnu ar unrhyw rai o’r Amodau hyn neu eu gorfodi.

(g) Llywodraethir a dehonglir yr Amodau hyn yn unol â chyfreithiau Cymru a Lloegr fel y’u cymhwysir yng Nghymru, ac y mae’r partïon i’r Amodau hyn yn ymostwng i awdurdodaeth unigryw llysoedd Cymru a Lloegr.

(h) Mewn amgylchiadau lle'r ydych yn cynnwys dau neu fwy o bersonau neu gyrff, bydd rhwymedigaethau'r cyfryw bersonau neu gyrff ar y cyd ac yn [illegible] a bennir bod diffygdalu un o'r cyfryw bersonau neu gyrff yn ddiffygdalu'r cwbl.

**22. Sut i dderbyn y cynnig hwn o Gyllid**

a. Er mwyn derbyn y cynnig hwn o Gyllid, rhaid i chi lofnodi a dychwelyd copi o’r llythyr hwn at y Swyddog Llywodraethu Cymru. Ni fydd dim o’r Cyllid hwn yn cael ei dalu i chi tan y byddwn wedi derbyn eich llythyr wedi’i lofnodi.

b. Rhaid i ni dderbyn eich llythyr wedi’i lofnodi o fewn 14 diwrnod i ddyddiad y llythyr hwn, neu bydd y dyfarniad Cyllid hwn yn mynd yn ddi-rym yn awtomatig.

Yr eiddoch yn gywir



Llofnodwyd gan Dewi Rowlands
o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth un o Weinidogion Cymru

**ATODLEN 1**
**Pwrpas**

Diben y Cyllid yw cynorthwyo Llywodraeth Cymru i gysylltu â Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ac awdurdodau lleol eraill ledled Cymru ynghylch y cynigion yn y Papur Gwyn i sefydlu Cyd-awdurdodau Trafnidiaeth. Bydd y gwaith yn datblygu cynigion ar y cyd ar gyfer cyflawni trafnidiaeth ranbarthol, o fewn cyd-destun penderfyniad y Bwrdd Uchelgais i ffurfioli gweithio'r rhanbarthol ar drafnidiaeth.

- Darparu cefnogaeth i Lywodraeth Cymru i fwrw ymlaen â'r cynigion deddfwriaethol fel yr amlinellir yn y Papur Gwyn;
- Ymgysylltu gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac awdurdodau lleol ledled Cymru i ddatblygu manylion pellach o gwmpas y model Cyd-awdurdodau rhanbarthol;
- Ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad mewn perthynas â Chyd-awdurdodau Trafnidiaeth a goblygiadau datblygu'r cynigion;
- Mewnbwn i ddatblygu'r dystiolaeth sydd ei hangen i asesu'r effeithiau sy'n deillio o'r cynigion arfaethedig;
- Cynorthwyo gydag ymchwilio i'r cyfleoedd i sefydlu trefniant cysgodol a chefnogi ei weithrediad;
- Ymgysylltu gyda Thrafnidiaeth Cymru i adnabod meysydd lle gallai Trafnidiaeth Cymru ymgymryd â gwasanaethau ar ran awdurdodau lleol, gyda chytundeb yr awdurdodau (fel sydd eisoes yn digwydd mewn perthynas â disodli'r Cardiau Ffioedd Consesiynol Gorfodol);
- Datblygu ymgynghoriad pellach ar gyfer y ddeddfwriaeth israddol a fydd ei hangen i sefydlu'r cyd-awdurdodau;
- Cydweithio â rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu cynigion ar gyfer y ddeddfwriaeth israddol angenrheidiol;
- Cysylltu â thimau eraill Llywodraeth Cymru i sicrhau dulliau cydweithredol i ddatblygu'r polisi.
- Bydd y gwaith yn datblygu cynigion ar y cyd ar gyfer cyflawni trafnidiaeth ranbarthol, o fewn cyd-destun penderfyniad y Bwrdd Uchelgais i ffurfioli gweithio'n rhanbarthol ar drafnidiaeth.

**ATODLEN 2**
**Y Targedau**

| Disgrifiad o'r Targed | Dyddiad y dylai fod wedi'i gyflawni | Tystiolaeth sydd ei hangen |
|---|---|---|
| Canllawiau Polisi drafft ar gyfer sefydlu'r Cyd-awdurdodau Trafnidiaeth, i gynorthwyo timau polisi Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol wrth ddatblygu peilotau Cyd-awdurdodau. DS bydd y polisïau i'w cyd-ddylunio ag Awdurdodau Lleol wrth i'r peilotau ddatblygu. | 15 Mai 2019 | Dogfen Ddrafft a chytundeb PM LlC. |
| Cytundeb y WLGA ac Awdurdodau Lleol perthnasol i brosesu i ddatblygu'r Cyd-Awdurdodau Trafnidiaeth. | 31 Mai 2019 | Partïon i gytuno a chadarnhau gan PM LlC. |
| Cynllun i gyflawni darparu cefnogaeth ar gyfer ffrwd gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn perthynas â'r cynigion yn y Papur Gwyn i sefydlu'r Cyd-awdurdodau Trafnidiaeth. I gynnwys targedau a cherrig milltir. | 31 Mai 2019 | Cynllun ysgrifenedig a chytundeb gyda PM LlC. |
| Sefydlu proses i gyd-ddylunio a pheilota cynigion y papur gwyn yng Ngogledd Cymru. | Diwedd Gorffennaf 2019 | Sefydlu'r Peilot. |
| Targedau pellach i'w cytuno YN y cynllun (uchod). | | |

**ATODLEN 3**
**Digwyddiadau Hysbysadwy**

Mae'r Digwyddiadau Hysbysadwy y cyfeirir atynt yn Amod 9 wedi'u rhestru isod:

1. bod angen ad-dalu unrhyw ran o'r Cyllid o dan Gyfraith Ewropeaidd (p'un a o dan Reolau Cymorth Gwladwriaethol neu fel arall);

2. nad ydych yn cydymffurfio ag unrhyw rai o'r Amodau;

3. nad yw'r Cyllid, yn llawn neu'n rhannol, yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y Dibenion;

4. nad ydych yn cyflawni unrhyw rai neu'r cyfan o'r Targedau;

5. mae'r cynnydd tuag at gwblhau'r Dibenion, yn cynnwys cwrdd â'r Targedau, yn anfoddhaol;

6. nad ydych yn darparu gwybodaeth ynghylch y Dibenion ar ein cais ni, cais y Comisiwn Ewropeaidd neu Lys Archwilwyr Ewropeaidd, neu unrhyw rai o'u harchwilwyr, eu hasiantau neu eu cynrychiolwyr;

7. bod gennym reswm i gredu eich bod chi a/neu unrhyw rai o'ch Personél ynghlwm â gweithgarwch twyllodrus neu wedi bod ynghlwm â gweithgarwch twyllodrus [tra bod y Dibenion yn/wedi cael eu gweithredu];

8. ein bod wedi gwneud gor-daliad o Gyllid i chi;

9. bod unrhyw ddatganiad a wneir yn Amod 8 yn anghywir yn unrhyw gyswllt neu, pe byddai'n cael ei ailadrodd unrhyw bryd yng nghyswllt y ffeithiau a'r amgylchiadau a oedd yn bodoli ar y pryd, y byddai'n anghywir;

10. bod addasiad wedi'i wneud (amodi, croes neu wadiad) i farn yr archwiliwr ar eich datganiadau ariannol;

11. bod unrhyw ddeiseb wedi'i chyflwyno neu benderfyniad wedi'i basio neu gamau eraill wedi'u cymryd ar gyfer eich methdaliad neu ddirwyn i ben neu bod deiseb yn cael ei chyflwyno am orchymyn gweinyddu yn eich erbyn;

12. bod derbynwyr neu dderbynwyr gweinyddol yn cael eu penodi yn eich cyswllt chi neu yng nghyswllt eich asedau i gyd neu unrhyw ran ohonynt;

13. bod moratoriwm yng nghyswllt eich dyledion i gyd neu unrhyw rai ohonynt neu bod cyfansoddiad neu gytundeb gyda'ch credydwyr yn cael ei gytuno, yr ymgeisir amdano, ei archebu neu ei ddatgan;

14. nad ydych yn medru, neu'n cyfaddef yn ysgrifenedig eich anallu, i dalu eich dyledion wrth iddynt fod yn ddyledus;

15. bod unrhyw gyfyngder, gweithrediad, ymlyniad neu broses arall yn effeithio ar unrhyw rai o'ch asedau;

16. bod gorchymyn statudol yn cael ei gyflwyno yn eich erbyn chi;

17. eich bod yn peidio, neu'n bygwth peidio ag ymgymryd â'ch busnes i gyd neu ran sylweddol ohono;

18. bod newid yn eich cyfansoddiad, eich statws, eich rheolaeth neu'ch perchnogaeth a/neu bod eich archwilwyr allanol yn ymddiswyddo;

19. bod unrhyw newid, p'un a yw hynny'n barhaol neu dros dro, yn eich cyfranddalwyr, eich cyfarwyddwyr, eich ymddiriedolwyr neu'ch partneriaid a/neu Bersonél a allai effeithio ar eich gallu i gyflawni'r Dibenion;

20. bod unrhyw ddigwyddiad neu amgylchiadau'n codi sydd, yn eich barn chi, yn rhoi sail resymol i gredu na allech, neu na fyddwch, yn medru gweithredu neu gydymffurfio ag unrhyw rai o'ch rhwymedigaethau o dan yr Amodau hyn.

**ATODLEN 4**
**Proffil Taliadau**

Bydd y Rheolwr Prosiect yn llenwi un Ffurflen Gais Grant, wedi'i llofnodi ganddo/ganddi ac ar ffurf PDF, ar gyfer y prosiect y derbyniwyd cyllid ar ei gyfer ym mlwyddyn ariannol 2019 i 2021.

Yn chwarterol fel ôl-daliad

| Chwarter | Dyddiad i'w hawlio erbyn: |
|---|---|
| 1 Ebrill 2019 i 30 Mehefin 2019 | 15 Gorffennaf 2019 |
| 1 Gorffennaf 2019 i 30 Medi 2019 | 15 Hydref 2019 |
| 1 Hydref 2019 i 31 Rhagfyr 2019 | 15 Ionawr 2020 |
| 1 Ionawr 2020 i 31 Mawrth 2020 | 15 Ebrill 2020 |
| 1 Ebrill 2020 i 30 Mehefin 2020 | 15 Gorffennaf 2020 |
| 1 Gorffennaf 2020 i 30 Medi 2020 | 15 Hydref 2020 |
| 1 Hydref 2020 i 31 Rhagfyr 2020 | 15 Ionawr 2021 |
| 1 Ionawr 2021 i 31 Mawrth 2021 | 15 Ebrill 2021 |

**Bydd yr holl ffurflenni templed wedi'u llenwi a'u llofnodi yn cael eu hanfon ar e-bost i:** Transportplanning@gov.wales / CynllunioTrafnidiaeth@llyw.cymru

Dim ond o gyfeiriadau e-bost y swyddogion hynny sydd wedi'u cynnwys yn y Gofrestr o Lofnodwyr, a gyflwynir gan yr awdurdod wrth dderbyn y Llythyr Dyfarnu hwn, y derbynnir yr hawliad a'r wybodaeth gefnogol.

**MAE ANGEN DAU LOFNODWR**

Yr ydym, drwy hyn, yn derbyn y dyfarniad Cyllid ar gyfer **Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar Fesur Trafnidiaeth Gyhoeddus (Cymru) ar gyfer Blynyddoedd Ariannol 2018 i 2021** a'r Amodau mewn perthynas â'r Cyllid.

Llofnod

Llofnodwr awdurdodedig ar ran **Cyngor Gwynedd**

Enw

Prif Swyddog Cyllid

Teitl Swydd

Dyddiad

Llofnod

Llofnodwr awdurdodedig ar ran **Cyngor Gwynedd**

Enw

Teitl Swydd

Dyddiad

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

| **Cyfarfod:** | Grŵp Ymgynghorol Aelodau Cabinet Trafnidiaeth | **Dyddiad:** | 20.05.2019 |
|---|---|---|---|

| **Yn bresennol:** |
|---|
| Cyng. David A Bithell, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam; Cyng. Carolyn Thomas, Cyngor Sir y Fflint; Cyg. Donald Milne, Cygor Bwrdeistref Sirol Conwy; Cyng. Gareth Griffith, Cyngor Gwynedd; Cyng. Brian Jones, Cyngor Sir Ddinbych; Cyng. Bob Parry Cyngor Sir Ynys Môn.<br><br>Yn mynychu:<br>Darren Williams, Stephen O Jones, Tony Ward, Dafydd Wyn Williams, Geraint Edwards, Huw Percy, Iwan Prys Jones Iwan Evans, Vera Jones (Cyngor Gwynedd) rhan<br><br>Cynhaliwyd yng:<br>Nghanolfan Fusnes Conwy @ 1400 |

| **Ymddiheuriadau:** |
|---|
| Lawrence Isted, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

| **Rhif yr Eitem** | **1 a 2** |
|---|---|
| **Teitl:** | **Croeso ac Ymddiheuriadau, Datganiadau o Fuddiant** |
| **Sylwadau:** | Agorodd y Cynghorydd DB y cyfarfod a chroesawodd bawb oedd yn bresennol.<br>Nodwyd yr ymddiheuriadau fel yr uchod.<br><br>Nid oedd unrhyw ddatganiad o fuddiant. |
| **Penderfyniad:** | |

| **Rhif yr Eitem** | **3** |
|---|---|
| **Teitl:** | **Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Chwefror 2019** |
| **Sylwadau:** | Adolygwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Chwefror 2019<br>Nid oedd unrhyw faterion yn codi nad oedd rhaglen y cyfarfod yn mynd i'w hystyried. |
| **Penderfyniad:** | Derbyniwyd y cofnodion |

| **Rhif yr Eitem** | **4** |
|---|---|
| **Teitl:** | **Materion Cyfansoddiadol -** Is-fwrdd Cyflawni Trafnidiaeth |
| **Sylwadau:** | Ymunodd Iwan Evans a Vera Jones o Gyngor Gwynedd â'r cyfarfod er mwyn egluro prosesau llywodraethu'r Bwrdd Uchelgais, rôl Gwynedd fel awdurdod lletya a goblygiadau symud i is-bwyllgor ffurfiol o'r Bwrdd Uchelgais.<br>Ym mis Chwefror 2019 cytunodd y Bwrdd Uchelgais i'r cynnig i sefydlu'r grŵp Aelodau Cabinet Trafnidiaeth anffurfiol yn is-bwyllgor ffurfiol o'r Bwrdd Uchelgais. Rhoddodd y broses hon o ffurfioli ei rôl statws i'r grŵp a fyddai'n help wrth i'r trafodaethau ynghylch creu Cyd-Awdurdodau Trafnidiaeth fynd rhagddynt.<br>Pwrpas yr eitem agenda hon oedd trafod y Cylch Gorchwyl cytunedig ac ymarferoldeb sut fyddai'r is-bwyllgor ffurfiol yn gweithio dan y strwythur newydd.<br>Cynhaliwyd trafodaeth fanwl ar y dogfennau cytunedig yn cynnwys y Cylch Gorchwyl. Nodwyd y pwyntiau a ganlyn<br>• Roedd y lefel ddirprwyo gyfredol i'r Bwrdd Uchelgais yn gyfyngedig, ond roedd yn cefnogi cyflawni'r Weledigaeth ar gyfer Economi'r Gogledd ynghyd â gwaith paratoadol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru. |

| | |
|---|---|
| | • Ymhen amser, byddai gan yr is-bwyllgor rôl allweddol i reoli rhaglen y gwaith o gyflwyno arian a glustnodir drwy'r Cynllun Twf.<br>• Byddai gan y grŵ p y gallu i wneud argymhellion i'r Bwrdd Uchelgais ynghylch pwerau'r dyfodol neu unrhyw ddirprwyo fyddai ei angen er mwyn cyflawni prosiectau trafnidiaeth strategol yn y rhanbarth.<br>• Roedd Ian Roberts wedi'i enwebu gan y Bwrdd Uchelgais i weithredu fel y cyswllt rhwng y grŵ p a'r Bwrdd Uchelgais.<br>• Rhoddid manylion am y broses i ddatrys unrhyw bleidlais ddiddatrys yn y grŵp yn y Cylch Gorchwyl.<br>• Nodwyd y protocolau sydd wedi'u nodi yn y cytundeb llywodraethu ar gyfer y Bwrdd Uchelgais. Yn benodol, roedd y gofyn i bapurau'r cyfarfod gael eu hanfon i grŵp swyddogion mewn pryd i sicrhau y caiff unrhyw faterion eu datrys, wedi'u diffinio. Gallai hyn naill ai fod drwy ddosbarthu am sylwadau neu gellid trefnu cyfarfod swyddogion pe byddai angen.<br>• Byddai amserlen o gyfarfodydd gyda rhaglen waith tymor hir yn cael eu datblygu.<br>• Roedd cefnogaeth ar gyfer cynnal cyfarfodydd ar hap i aelodau, fodd bynnag, cynghorwyd y grŵ p i fod yn wyliadwrus ynghylch sefydlu cyfarfodydd anffurfiol.<br>• Roedd cefnogaeth i barhau â'r cyfarfodydd yn y lleoliad cyfredol.<br>• Roedd cyllideb y Bwrdd Uchelgais yn cynnwys adnoddau digonol i ddarparu ysgrifenyddiaeth, cyngor cyfreithiol a chefnogaeth arall.<br>• Ar sail y trafodaethau, byddai Gwynedd fel yr awdurdod lletya yn ystyried ail-ddrafft o'r protocolau cyfredol i adlewyrchu rôl y grŵp. Byddai'r rhain yn cynnwys (1) proses i gytuno ar agenda yn cynnwys unrhyw briffio ymlaen llaw sydd ei angen (2) cyhoeddi papurau a chofnodion gan yr awdurdod lletya, gyda chysylltiadau i awdurdodau eraill (3) y mater ffurfiol o hysbysiad penderfyniadau yn union wedi'r cyfarfod. |
| **Penderfyniad:** | 1. Nodwyd yr adroddiad gan yr Aelodau<br>2. Caiff unrhyw newidiadau i'r Cylch Gorchwyl a'r protocolau eu cyfeirio'n ôl i'r grŵp er gwybodaeth<br>3. Bydd amserlen cyfarfodydd a rhaglen waith hir dymor yn cael eu cyflwyno yn y cyfarfod nesaf. |

| **Rhif yr Eitem** | **5** |
|---|---|
| **Teitl:** | **Cludiant Cyhoeddus** |
| **Sylwadau:** | Rhoddodd yr aelodau ddiweddariad ar y newidiadau diweddar a wnaed i amserlenni bysiau. Nodwyd rhai pryderon ynghylch newidiadau sylweddol a gweithredwyr yn canslo gwasanaethau. Roedd hyn yn arwain at aflonyddwch sylweddol i ddefnyddwyr bysiau, costau ychwanegol i awdurdodau a nemor ddim diddordeb mewn tendro ar gyfer contractau newydd.<br>Nodwyd y cynigion oedd ar y gweill i wella rheolaethau, ond gan fod y ddeddfwriaeth tua 18-24 mis i ffwrdd, roedd pryderon y gallai difrod sylweddol ddigwydd cyn iddi gael ei gweithredu.<br>Amlygodd pob awdurdod y materion a oedd yn effeithio ar wasanaethau. Roedd hi'n glir bod yr effeithiau'n anghyson. Ar hyn o bryd, roedd gwasanaethau Sir y Fflint yn dioddef y mwyaf i aflonyddwch, ond roedd ardaloedd eraill yn cael eu heffeithio hefyd. Disgrifiwyd y sefyllfa fel argyfwng mewn rhai ardaloedd.<br>Trafodwyd yr amrywiol brosiectau a oedd ar y gweill ynghylch â'r datrysiadau posib.<br>Nodwyd yr arian a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi cyflawni rhanbarthol. Er nad oedd hyn yn ddigonol i roi adnoddau iawn i'r holl waith a oedd ei angen, roedd yn cynnig cyfle i ddechrau gwaith ar rwydwaith bysiau rhanbarthol.<br>Yn ystod y drafodaeth, cytunwyd y dylai cynigion gael eu datblygu i sefydlu strwythur rhanbarthol gydag adnoddau iawn, a fyddai'n sefydlu rhwydwaith strategol yn y Gogledd a rhaglen i gyflwyno partneriaethau o ansawdd ar hyd y rhwydwaith. Yn ogystal, dylai'r cynigion ystyried y gwelliannau posib i isadeiledd a fyddai eu hangen. |

| | |
|---|---|
| **Penderfyniad:** | • Cytunodd yr aelodau y dylid cynnal cyfarfod ychwanegol i drafod opsiynau cyflawni posib yn y dyfodol er mwyn sefydlu rhwydwaith bysiau strategol yn y rhanbarth ac y dylid cyflwyno adroddiad ar y cynigion. |

| | |
|---|---|
| **Rhif yr Eitem** | **6** |
| **Teitl:** | **Rhaglen Waith y Dyfodol** |
| **Sylwadau:** | Trafododd yr aelodau faterion ar gyfer rhaglen waith y grŵp yn y dyfodol. Codwyd yr eitemau a ganlyn fel eitemau posib i'w trafod yn y dyfodol<br>• Rhwydwaith Bysiau Strategol a phrosiectau cysylltiedig<br>• Papur Gwyned - Gwella Trafnidiaeth a chynigion i sefydlu Cyd-Awdurdod(au) Trafnidiaeth<br>• Datgarboneiddio trafnidiaeth a'r prosiectau peilot a oedd ar y gweill<br>• Datblygiadau rheilffyrdd a chyfleoedd ar gyfer integreiddio moddol<br>• Strategaeth Trafnidiaeth Cymru / Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol a'r angen i adolygu'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol a Rhanbarthol<br>• Gweithredu parthau 20mya<br>• Strategaeth ffyrdd sydd heb eu mabwysiadu<br>• Teithio Llesol<br>• Ansawdd Aer ac effaith ar rwydweithiau trafnidiaeth.<br>Cytunodd Cyng. David Bithell i ddosbarthu papur ar gynnydd gyda Theithio Llesol |
| **Penderfyniad:** | • Nododd yr aelodau'r diweddariad gan wneud cais am raglen waith hir dymor yn y cyfarfod nesaf |

| | |
|---|---|
| **Rhif yr Eitem** | **7** |
| **Teitl** | **Unrhyw Fater Arall** |
| **Sylwadau** | Ni chodwyd unrhyw fater pellach. |
| | |

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod Nesaf:** | 0930 ar 23 Medi 2019 yng Nghanolfan Fusnes Conwy, Cyffordd Llandudno<br>Gyda chyfarfod ychwanegol ym mis Mehefin / Gorffennaf i'w gadarnhau |

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

**ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**
**28 MEHEFIN, 2019**

**TEITL:** *Rhaglen Sgiliau a Chyflogaeth, Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru*

**AWDUR:** *Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol*
*Sioned Williams, Pennaeth Adran Economi a Chymuned Cyngor Gwynedd / Is-Gadeirydd y Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol*

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1. Diben yr adroddiad hwn yw darparu diweddariad ar gynnydd ac amserlenni ar gyfer gwaith ar y prosiectau o fewn Rhaglen Sgiliau a Chyflogaeth y Cynllun Twf a'r Weledigaeth Twf a cheisio cymeradwyaeth ar gyfer yr adnoddau sydd eu hangen i ymgymryd â'r gwaith yn y dyfodol.

1.2. Hefyd, mae'r adroddiad yn darparu diweddariad cynnydd ar waith y Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol. Mae'n rhoi trosolwg cryno o Ymchwiliad ac Adolygiad Annibynnol diweddar y Bartneriaeth a sut allai hyn effeithio ar y trefniadau llywodraethu arfaethedig ar gyfer dull atebolrwydd deuol i Lywodraeth Cymru a rhaglen Sgiliau a Chyflogaeth y Bwrdd Uchelgais.

**2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

2.1. Ariannu'r un swydd gyfwerth â llawn amser sydd ei hangen (£50,000 am 12 mis) er mwyn parhau i weithio ar y prosiectau Porth Gwybodaeth a Chyngor a Llwybr Cyflogadwyedd. Bydd y swydd wedi'i lleoli o fewn y Swyddfa Rhaglen newydd.

2.2. Cadarnhau'r dull i gydlynu'r rhaglen sgiliau a chyflogadwyedd a cheisio barn yng nghyswllt penodi'r Cadeirydd.

**3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

3.1. Galluogi i waith barhau ar brosiectau rhyng-gysylltiedig a chyd-ddibynnol o fewn Rhaglen Sgiliau a Chyflogaeth y Cynllun Twf er mwyn cyflawni gwell effaith i'r Rhanbarth.

**4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL**

**4.1. Cynllun Twf Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru - Rhaglen Sgiliau a Chyflogaeth**

4.1.1 Mae'r rhaglen Sgiliau a Chyflogaeth yn ffurfio un o'r rhaglenni strategol sy'n hwylusydd o fewn Cynllun Twf a Gweledigaeth Twf Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Mae'r prosiectau sy'n disgyn o fewn y rhaglen Sgiliau a Chyflogaeth yn rhan hanfodol o'r grŵp o brosiectau rhyng-gysylltiedig a chyd-ddibynnol allweddol i gyflawni'r Weledigaeth Twf. Mae'r rhaglenni a'r prosiectau'n cael eu rheoli mewn ffordd gydlynol, er mwyn cyflawni gwell effaith yn nhermau uchelgais a defnydd o adnoddau o fewn y Cynllun Twf a'r Weledigaeth yn y Rhanbarth.

4.1.2 Mae'r Rhaglen hon yn cynnwys pecyn o brosiectau a fydd yn mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd a chyflawni gwasanaeth cyngor a chefnogaeth ar sgiliau a chyflogaeth cydlynol yn y rhanbarth. Bydd cyflawni'r Rhaglen yn llwyddiannus yn galluogi i bobl gael mynediad i gefnogaeth yn haws ac yn fwy effeithiol er mwyn eu helpu nhw i wella eu sgiliau a chael swyddi, gan sicrhau bod gweithlu lleol cadarn ar gael i fodloni anghenion a chyfleoedd cyflogaeth y Gogledd yn y dyfodol. Bydd ffocws penodol ar y rheini sy'n anweithredol ac ar bobl ifanc a gaiff eu hysbrydoli i fanteisio ar gyfleoedd a gyrfaoedd cyffrous yn y Gogledd.

4.1.3 Mae'r rhaglen Sgiliau a Chyflogaeth yn cynnwys pum prosiect:

- Porth Gwybodaeth a Chyngor
- Llwybr Cyflogadwyedd
- STEM Rhanbarthol - Cyflawni Rhagoriaeth mewn Datblygu Sgiliau
- Sgiliau Digidol i Ogledd Cymru (yn cynnwys awtomeiddio digidol)
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol Gogledd Cymru - Cyflawni Rhagoriaeth mewn Datblygu Sgiliau

4.1.4 Hefyd, mae cysylltiadau sgiliau cryf gyda phrosiectau eraill y Cynllun Twf, yn benodol, Fferm Carbon Niwtral Llysfasi a Chanolfan Ragoriaeth Twristiaeth a Lletygarwch Gogledd Cymru

4.1.5 Mae'r themâu allweddol a hyrwyddir gan y Bwrdd Uchelgais yn arbennig o berthnasol i'r agenda sgiliau:

- **'Pwysigrwydd arweinyddiaeth leol ymatebol a chysylltiedig'**

  Mae diwygio gwasanaeth cyhoeddus yn llwyddiannus yn dibynnu ar arweinyddiaeth leol effeithiol, gweledigaeth glir a chydgysylltiedig, a dulliau cadarnhaol sy'n grymuso staff gweithredol i weithio ar y cyd a goresgyn problemau. Dyma'r dull gweithredu o fewn y Bwrdd Uchelgais Economaidd. Mae'n cynnig arweinyddiaeth ac atebolrwydd lleol clir, gan weithio gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fel partneriaid llawn. Hefyd, rhaid i gyflogwyr yn y sector preifat chwarae rôl ganolog, a thrwy'r Bwrdd Cyflawni Busnes, bydd ganddynt ran lawn wrth gynghori a herio ar faterion megis dylunio a chyflawni gwasanaeth, ynghyd â phenderfyniadau buddsoddi.

- **'Y cyfle drwy ddatganoli arian a rheolaeth'**

  Fel y nodir yn ein Gweledigaeth Twf, bydd datganoli arian a rheolaeth yn rhyddhau'r rhanbarth i ddylunio gwasanaethau sy'n bodloni anghenion lleol ac yn ymateb i flaenoriaethau lleol (yn hytrach na rheolau'r un fath i bawb). Bydd angen i wasanaethau sgiliau a chyflogaeth effeithiol ac ymatebol dargedu grwpiau gwahanol a chyflogwyr gwahanol gyda darpariaeth wahanol mewn gwahanol ffyrdd. Caiff hyn ei amlinellu mewn strategaeth sgiliau a chyflogaeth ranbarthol, a fydd yn gosod amcanion a deilliannau clir, yn cytuno ar ymatebion polisi a dylunio sy'n bodloni anghenion rhanbarthol a lleol. Caiff comisiynu, cyflawni a goruchwylio darpariaeth ei gydlynu ar y lefel ranbarthol a gellir ei integreiddio a'i alinio ar draws gwasanaethau. Gellir rhagweld y gallai'r Bartneriaeth gael ei hariannu drwy gyfuniad o grantiau cenedlaethol parhaus, ESF, datganoli'r ffrydiau ariannu presennol yn flaengar, ynghyd ag adnoddau gan y Bwrdd Uchelgais. Byddai hyn yn creu un system ddi-dor gyda phwrpas unedig a pherthnasau cryf. Mae hyn yn ffurfio'r sail i integreiddio'r gwasanaeth sgiliau a chyflogaeth yn llwyddiannus yn y rhanbarth.

4.1.6 Er mwyn cyflawni'r Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth yn llwyddiannus yn y Gogledd, bydd angen cydweithio agos ar draws adrannau Llywodraeth Cymru. Mae tîm y Bartneriaeth wedi creu perthynas waith agos gyda Llywodraeth Cymru gyda'r nod o gryfhau cysylltiadau drwy Dîm Rhanbarthol Gogledd Cymru.

## 4.2. Cefndir y Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol

4.2.1 Sefydlwyd Partneriaeth Sgiliau Ranbarthol Gogledd Cymru yn wreiddiol yn 2013 ac mae'n dwyn ynghyd cyflogwyr, darparwyr hyfforddiant Addysg Bellach, Dysgu Seiliedig ar Waith ac Addysg Uwch, y Trydydd Sector, Awdurdodau Lleol, DWP a Gyrfa Cymru. Fe'i cydnabuwyd fel ffrwd gwaith Sgiliau a Chyflogaeth Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru er mwyn hysbysu a gyrru'r agenda sgiliau yn y Gogledd.

4.2.2 Cyhoeddwyd Datganiad Polisi Llywodraeth Cymru ar Sgiliau yn 2014 ac roedd hyn yn arwydd o symud i weithio'n rhanbarthol, gyda newid mewn polisi i symud i ffwrdd oddi wrth ddulliau yn seiliedig ar sectorau. Cyhoeddwyd Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol ar 31 Hydref 2014. Adnabuwyd Partneriaeth y Bwrdd Uchelgais fel un o'r tair Partneriaeth Sgiliau Ranbarthol yng Nghymru. Cafodd y Bartneriaeth dasg gan Lywodraeth Cymru i flaenoriaethu'r anghenion sgiliau rhanbarthol yn seiliedig ar wybodaeth ranbarthol a lleol wedi'i harwain gan gyflogwyr, er mwyn helpu i alinio darpariaeth sgiliau gyda'r galw sydd wedi'i adnabod yn y rhanbarth.

4.2.3 Cryfhawyd y symudiad at fodel rhanbarthol ymhellach gan Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru "Ffyniant i Bawb" a gyhoeddwyd ar 19 Medi 2017, lle'r adnabuwyd cyflogadwyedd a sgiliau fel thema drawsbynciol, a'r Cynllun Gweithredu Economaidd a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2018 a gryfhaodd y dull rhanbarthol ymhellach. Disgrifiodd hwn fodel ar gyfer gweithio'n rhanbarthol a roddodd rôl y Partneriaethau fel rhan annatod o'r model cyflawni.

4.2.4 Mae'r Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol yn derbyn contract a chyllid blynyddol gan Lywodraeth Cymru. Mae gan y Bartneriaeth gontract i gyflawni cynllun sgiliau a chyflogaeth rhanbarthol i Lywodraeth Cymru ynghyd â chynllunio ac ariannu templed sy'n argymell cynyddu neu leihau darpariaeth sgiliau ar gyfer Addysg Bellach Ôl 16 a Dysgu Seiliedig ar Waith. Mae atodlen y contract gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys gofynion i'r Bartneriaeth gynnal arsyllfa sgiliau rhanbarthol, datblygu rhwydweithiau cyflogwyr, gweithio'n agos gydag Ardaloedd Menter a chynnal cynadleddau sgiliau rhanbarthol hefyd er mwyn lledaenu eu hargymhellion a'u deilliannau rhanbarthol. Mae'r cyllid yn talu am dair swydd yn y Bartneriaeth i gyflawni'r dull rhanbarthol, sy'n cynnwys Rheolwr Sgiliau Rhanbarthol, Uwch Ymchwilydd ac Ymchwilydd Cynorthwyol.

## 4.3. Cyfrifoldebau Cyflawni'r Bartneriaeth 2019/20

4.3.1 Ar gyfer 2019-20, mae'r Bartneriaeth wedi cael tasg gan Lywodraeth Cymru i gynhyrchu Cynllun Cyflogaeth Rhanbarthol tair blynedd a Thempled Cynllunio ac Ariannu, gydag argymhellion ar gyfer newidiadau i Addysg Bellach (AB) a darpariaeth Prentisiaethau dros gyfnod o dair blynedd. Ar hyn o bryd, mae tîm y Bartneriaeth yn gweithio gyda chyflogwyr a rhanddeiliaid ledled y rhanbarth i adnabod prinder/anghenion sgiliau ar gyfer y rhanbarth a fydd yn hysbysu'r cynllun a gaiff ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru dros yr haf. Caiff y cynllun ei danategu gan Wybodaeth Marchnad Lafur gadarn a thystiolaeth wedi'i harwain gan gyflogwyr. Ar hyn o bryd, datblygu'r Cynllun Cyflogaeth Rhanbarthol erbyn mis Awst 2019 i fodloni amserlen Llywodraeth Cymru yw blaenoriaeth y Bartneriaeth. Y nod yw cyflwyno cynllun drafft i gyfarfod nesaf y Bwrdd Uchelgais ar 26 Gorffennaf am sylwadau.

4.3.2 Yn ogystal, mae'r Bartneriaeth wedi cael tasg gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i ddatblygu a goruchwylio'r gwaith o gyflawni'r pum prosiect sy'n disgyn o fewn Rhaglen Sgiliau a Chyflogaeth y Cynllun Twf a'r Weledigaeth Twf. Mae capasiti tîm y Bartneriaeth i allu bwrw ymlaen â'r gwaith hwn yn gyfyngedig, yn sgil ymrwymiadau'r gwaith ar gyfer Llywodraeth Cymru. Mae cynnydd cyfredol y prosiectau, y penderfyniadau sydd eu hangen a'r anghenion adnoddau parhaus wedi'u hegluro isod.

**4.4. Rhaglen Sgiliau a Chyflogaeth - Diweddariadau a Gofynion Adnoddau'r Prosiectau**

4.4.1 Mae crynodeb o'r gwaith hyd yma a chynnydd pob un o'r prosiectau ar gael yn ***Atodiad 1***.

4.4.2 Mae tîm y Bartneriaeth yn awgrymu dau gam i ddatblygu'r Rhaglen Sgiliau a Chyflogaeth - Cam 1 (Gweithgareddau Datblygu a Gweithredu) a Cham 2 (Sgopio Cychwynnol). Mae manylion y gofynion adnoddau i ddatblygu'r prosiectau a'r deilliannau disgwyliedig i'w cael isod:

| **Cam 1 (Gweithgareddau Datblygu a Gweithredu)** | | | |
|---|---|---|---|
| **Enw'r Prosiect** | **Adnoddau Cyfredol** | **Gofynion Adnoddau** | **Deilliannau** |
| **Prosiect Porth Gwybodaeth a Chyngor** | Rheolwr y Bartneriaeth ac Adnoddau Ychwanegol | Swydd gyfwerth â hanner swydd lawn amser i sgopio a datblygu gwasanaeth broceriaeth (£25k) | Mae'r Model Gwasanaeth Broceriaeth yn barod i weithio gyda phum prosiect y Cynllun Twf yn 2020. |
| **Prosiect Llwybr Cyflogadwyedd** | Niall Waller, Cyngor Sir y Fflint | Swydd gyfwerth â hanner swydd lawn amser hyd at wanwyn 2020 (£25k) | Dau brosiect llwybr wedi'u cyd-ddylunio a'u treialu - a'u gwneud yn gynaliadwy os byddant yn llwyddiannus<br>10 cyflogwr yn gysylltiedig â chyflawni<br>Cefnogi 40 cleient<br>Cynnal 1 digwyddiad dysgu |
| **Cam 2 (Sgopio Cychwynnol)** | | | |
| **Prosiect Rhanbarth STEM** | Ymgynghorydd wedi'i gomisiynu i weithio ar opsiynau (Ian Rees) - £25k | Caiff cadarnhad y costau ei gyflwyno i'r Grŵp Gweithredol ym mis Medi pan fydd y Grŵp Fframwaith STEM wedi diffinio'r opsiynau | Grŵp Fframwaith STEM i weithio ar opsiynau, deilliannau ac argymhellion ar gyfer y Bartneriaeth a'r Grŵp Gweithredol ym mis Medi 2019, gyda'r bwriad o gyflwyno i'r Bwrdd Uchelgais |
| **Sgiliau Digidol i Ogledd Cymru** | Tîm y Bartneriaeth yn sgopio'r prosiect ar hyn o bryd | I'w gadarnhau - Manylion pellach i'w cyflwyno i'r Grŵp Gweithredol ym mis Hydref/Tachwedd 2019 | I'W GADARNHAU |
| **Iechyd a Gofal Cymdeithasol** | Tîm y Bartneriaeth a'r Bwrdd Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol | I'W GADARNHAU | I'W GADARNHAU |

4.4.3 Ar hyn o bryd, nid yw capasiti tîm y Bartneriaeth yn ddigonol, yn sgil gofynion y gwaith contract i Lywodraeth Cymru, er mwyn gallu ymgymryd â'r holl waith sydd ei angen i ddatblygu'r pum prosiect sydd wedi'u cynnwys yn y rhaglen.

4.4.4 I grynhoi, y gofynion adnoddau ychwanegol ar gyfer prosiectau cam 1 yw:

- Un swydd gyfwerth â llawn amser i ddatblygu a bwrw ymlaen â'r **Prosiect Porth Gwybodaeth a Chyngor a Llwybr Cyflogadwyedd** (£50,000 am 12 mis).

4.4.5 Fel y nodir uchod, mae prosiectau Cam 2 yn cael eu sgopio ar hyn o bryd gyda'r bwriad o gyflwyno diweddariad / gofynion adnoddau i'r Grŵp Gweithredol ym mis Tachwedd 2019.

**4.5. Trefn Lywodraethu yn y Dyfodol**

4.5.1 Mae angen eglurder ar y berthynas llywodraethu rhwng y Bwrdd Uchelgais a'r Bartneriaeth wrth fwrw ymlaen a chlustnodi a defnyddio'r adnoddau wedi hynny. Mae strwythurau Llywodraethu'r Bwrdd Uchelgais yn nodi'r dymuniad am rôl ddeuol ar gyfer y Bartneriaeth yn y Rhanbarth, er mwyn cynnal un lle ar gyfer trafodaeth strategol ynghylch sgiliau a chyflogaeth ranbarthol, a all gyflawni gofynion Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Uchelgais.

4.5.2 Fodd bynnag, mae ymchwiliad ac adolygiad annibynnol o'r Partneriaethau yng Nghymru wedi'u cynnal yn ddiweddar, a allai ddylanwadu ar ba drefniadau llywodraethu y gellid cytuno ar y cyd arnynt wrth symud ymlaen.

4.5.3 Yn ddiweddar, cynhaliodd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau'r Cynulliad Cenedlaethol ymchwiliad i'r Partneriaethau yng Nghymru. Bydd y Pwyllgor yn ysgrifennu adroddiad ac argymhellion yn dilyn sesiynau tystiolaeth helaeth gyda rhanddeiliaid rhwng mis Mawrth a mis Mai 2019. Mae'n debygol y bydd yr adroddiad a'r argymhellion yn cael eu cyhoeddi dros yr haf.

4.5.4 Law yn llaw â hyn, comisiynwyd SQW ym mis Chwefror 2019 gan Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth. Roedd cylch gwaith SQW yn cynnwys edrych ar effaith y Partneriaethau a threfniadau llywodraethu gyda ffocws penodol ar berthnasau ledled y rhanbarthau gyda strwythurau Cynlluniau Twf a Bargeinion Dinesig. Disgwylir i Lywodraeth Cymru rannu darganfyddiadau'r adolygiad hwn gyda'r Bartneriaeth ym mis Mehefin 2019.

4.5.5 Yn sgil ymadawiad diweddar Cadeirydd y Bartneriaeth, mae bwriad penodi Cadeirydd o'r sector preifat i gynrychioli holl gyflogwyr y rhanbarth. Ar hyn o bryd, mae trafodaethau yn mynd rhagddynt ar sut i fwrw ymlaen â hyn gyda'r tebygolrwydd y cynhelir proses benodi gyhoeddus ar gyfer y penodiad.

4.5.6 O ystyried bod y Bwrdd Uchelgais wedi adnabod rôl hanfodol y Bartneriaeth wrth gyflawni ei Raglen Sgiliau a Chyflogaeth, mae'n bosib y byddai'r Bwrdd yn dymuno cynnig cyd-benodiad i rôl Cadeirydd y Bartneriaeth i Lywodraeth Cymru.

**5. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

5.1. Ymrwymo hyd at £50,000 o'r Gyllideb "Cynllunio, Datblygu a Chefnogi Prosiectau" er mwyn parhau i weithio ar y prosiectau Porth Gwybodaeth a Chyngor a Llwybr Cyflogadwyedd.

**6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

6.1. Dim ar hyn o bryd.

**7. GOBLYGIADAU STAFFIO**

7.1. Caniatáu i’r Cyfarwyddwr Rhaglen benodi un swydd cyfwerth â llawn amser i ddatblygu a bwrw ymlaen â'r prosiectau Porth Gwybodaeth a Chyngor a Llwybr Cyflogadwyedd.

**8. EFFAITH AR GYDRADDOLDEB**

8.1. Dim.

**9. YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD**

9.1. Ymgynghorwyd gyda’r Grŵp Swyddogion Gweithredol ar 14eg o Fehefin 2019.

---

**ATODIADAU:**

| | |
|---|---|
| **Atodiad 1** | Cynnydd y Rhaglen Sgiliau a Chyflogaeth hyd yma |
| **Atodiad 2** | Dulliau STEM |
| **Atodiad 3** | Cynllun Gweithredu'r Llwybr Cyflogadwyedd |

---

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro - Corff Atebol:**

“Dim sylwadau i ychwanegu o safbwynt priodoldeb yr adroddiad.”

**ii. Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 y Corff Atebol):**

“Mae gan y Bwrdd gyllideb 'Cynllunio, Datblygu a Chefnogi Prosiectau' o £320k sydd ar gael i brynu mewnbwn allanol neu i dalu costau staff priodol. Os yw aelodau'r Bwrdd yn cytuno bod hyn yn flaenoriaeth, gallent benderfynu clustnodi £50,000 o'r adnodd hwn sydd gan y Bwrdd Uchelgais ar sail unwaith ac am byth i gyllido'r swydd 'Swyddog Prosiect Cyflogadwyedd' dros dro hon am 12 mis. Ni fydd yn bosib 'cyfalafu' cyflog y swydd hon, ond, os bydd y Bwrdd Uchelgais yn llwyddiannus yn tynnu grant ESF i lawr, yna gallai hwnnw gyllido 50% (£25,000) o'r swydd hon. Dylai aelodau'r Bwrdd ystyried y cynnig hwn law yn llaw ag ymrwymiadau o'r un gyllideb i ariannu swyddi'r Swyddfa Rhaglen. Mae'r strwythur sy'n cael ei gynnig dan y ddwy eitem ar y rhaglen, yn cynnwys y swydd hon, yn fforddiadwy o fewn adnoddau'r Bwrdd, ond, byddai defnyddio arian grant yn rhannol yn cadw peth hyblygrwydd ar gyfer cynlluniau eraill."

***ATODIAD 1 RHAGLEN SGILIAU A CHYFLOGAETH: DIWEDDARIAD AR GYNNYDD Y PUM PROSIECT***

***<u>Porth Gwybodaeth a Chyngor</u>***

Mae'r Porth Gwybodaeth a Chyngor yn darparu gwasanaeth 'un-stop' sydd wedi'i wreiddio yn y rhanbarth. Yr hyn fydd wrth galon y model hwn fydd gwasanaeth 'un-stop' newydd a fydd yn dwyn ynghyd wybodaeth, cyngor a chyflawni cyflogaeth, sgiliau a chefnogaeth ehangach ar gyfer unigolion a chyflogwyr. Bydd yn dwyn ynghyd ac yn lleoli cefnogaeth sydd ar hyn o bryd yn dameidiog ar draws cefnogaeth busnes, gwasanaethau gyrfaoedd, gwasanaethau Canolfan Byd Gwaith, sgiliau oedolion, cefnogaeth prentisiaethau a rhaglenni cyflogaeth. Bydd yn cefnogi'r gwaith o gyflawni Rhaglen Cymru'n Gweithio Llywodraeth Cymru ac yn darparu gwasanaeth broceriaeth o ansawdd. Drwy ddod â'r rhain ynghyd, bydd yn lleihau costau, cymhlethdod a dyblygu; yn gwella gwasanaethau ac yn ymateb i anghenion lleol. Yn ogystal, bydd yn gwneud defnydd llawn o asedau ffisegol ar draws yr ystod o wasanaethau sy'n cynnal neu'n cyflawni gwasanaethau cyflogaeth a sgiliau - yn cynnwys colegau, prifysgolion, cynghorau, swyddfeydd Canolfannau Byd Gwaith, llyfrgelloedd, ysgolion ac ati. Bydd y rhain yn elwa ar bresenoldeb digidol ffibr llawn (gweler Prosiect Cysylltedd Digidol y Cynllun Twf) er mwyn lledaenu mynediad i wasanaethau.

Y deilliant fydd cynnig clir i unigolion ac i gyflogwyr. Ar gyfer unigolion, golyga hyn un system a all helpu gyda gwella sgiliau, paratoi ar gyfer gwaith, darganfod gwaith, newid gyrfa a symud ymlaen o fewn gwaith. Ar gyfer cyflogwyr, golyga hyn fynd y tu hwnt i ddim ond hysbysebu swyddi gwag a helpu gyda recriwtio. Mae'n golygu helpu busnesau i dyfu eu gweithlu, llywio'r system, cael mynediad i arian a darparu hyfforddiant, lleoliadau gwaith, prentisiaethau a chyfleoedd eraill hefyd. Bydd y gwasanaeth newydd hwn hefyd yn gysylltiedig â gwasanaethau, partneriaid a chefnogaeth ehangach fel y bydd nid yn unig yn integreiddio cyflogaeth a sgiliau, ond rhaid iddo hefyd weithredu fel porth i wasanaethau a chefnogaeth mwy arbenigol y gallai unigolion a chyflogwyr fod eu hangen - yn cynnwys gwasanaethau iechyd, cefnogaeth gyda chyllidebu, tai a lles. Bydd yn creu cyfleoedd i gyd-leoli gwasanaethau, cysylltu â gwasanaethau Cynghorau eraill a gweithio mewn partneriaeth â'r cyhoedd yn ehangach a'r sectorau gwirfoddol a chymunedol. Bydd hyn yn gwella profiad unigolion a chyflogwyr,

Adnabu'r Achos Busnes Amlinellol ar gyfer y prosiect Porth Gwybodaeth a Chyngor nifer o ffrydiau gwaith a ddyluniwyd i wella mynediad i wybodaeth a chyngor ynghylch sgiliau a chyflogaeth yn y rhanbarth. Bwriad y ffrydiau gwaith yw:

- Cynyddu **ymgysylltiad** diduedd â **chyflogwyr**;
- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu **Rhaglen Cymru'n Gweithio** Llywodraeth Cymru;
- Darparu **Gwasanaeth Broceriaeth** ar gyfer datblygu sgiliau a recriwtio ar gyfer prosiectau mawr yn y rhanbarth;
- Cyd-ddatblygu'r defnydd o **Gynllun Bwrsariaeth Oedolion**

Mae'r elfen ymgysylltiad cyflogwyr yn derbyn sylw drwy'r prosiect Cefnogaeth Busnes Rhanbarthol Cydweithredol sy'n cael ei ddatblygu a thrwy ailddiffinio rôl y Tîm Ymgysylltiad Rhanbarthol sydd wedi'i gytuno gyda WEFO.

Mae'r elfen Porth yn cael ei gweithredu drwy weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a Gyrfa Cymru ar gyflwyno adnodd ar-lein Cymru'n Gweithio. Mae Grŵp Ymgynghorol wedi'i sefydlu sy'n cynnwys rhanddeiliaid allweddol yn gweithio gyda'i gilydd i alinio adnoddau, profi systemau cyfeirio i osgoi dyblygu ac ychwanegu gwerth i'r cleient. Mae'r Grŵp hwn wedi bod yn cyfarfod ers mis Ionawr ac mae wedi sgopio a thrafod protocolau rhannu data, systemau cyfeirio a'r cyfarwyddiadur darganfod cefnogaeth yn lleol. Mae Gyrfa Cymru wedi clustnodi swydd Rheolwr Rhanddeiliaid llawn-amser i ranbarth y Gogledd i gefnogi'r gwaith hwn yn benodol.

Mae'r elfennau Broceriaeth a Bwrsariaeth yn y camau cyntaf o gael eu datblygu. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i'r defnydd o'r Cyfrif Dysgu Personol ac fel rhanbarth rydym yn ceisio dylanwadu ar ddatblygiad y cynllun, yn rhannol drwy fod Grŵp Llandrillo Menai yn cynnal peilot a thrwy gyswllt rheolaidd rhwng Rheolwr Sgiliau'r Bartneriaeth a swyddogion yn Llywodraeth Cymru.

Mae Cynllun Gweithredu drafft yn cael ei ddatblygu i amlinellu sut allai'r Gwasanaeth Broceriaeth ddatblygu gyda dull gweithredu 'tîm Gogledd Cymru' o weithio ar draws ffiniau sefydliadau ar gyfer prosiectau allweddol y Cynllun Twf. Mae pedwar prosiect o fewn y Cynllun Twf, sydd â sgôp i gynhyrchu dros 9,000 o swyddi o fewn adeiladwaith, isadeiledd a sectorau eraill, wedi'u hamlygu fel rhai a fyddai, o bosib, yn elwa ar y defnydd o Wasanaeth Broceriaeth, ond gallai prosiectau sylweddol eraill yn y Gogledd elwa hefyd. Mae'r papur yn disgrifio'r mathau o rolau sydd eu hangen i weithio ar y cyd o amrywiol sefydliadau yn cynnwys DWP, Gyrfa Cymru, sefydliadau AU ac AB, Llywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru, ynghyd â'r rôl y mae contractwyr yn ei chwarae.

**Caiff y Cynllun Gweithredu drafft ei gyflwyno yng nghyfarfod y Bartneriaeth ym mis Gorffennaf 2019.**

*Llwybr Cyflogadwyedd*

Adnabu'r Achos Busnes Amlinellol ar gyfer Llwybr Cyflogadwyedd yr angen i gydlynu'r ystod gymhleth o ddarpariaeth cyflogadwyedd yn well ledled y rhanbarth, ar gyfer y rheini sydd angen help a chefnogaeth i mewn i waith, a gallai nifer ohonynt fod ymhell o'r pwynt o allu meddwl am weithio hyd yn oed. Mae cefnogaeth cyflogadwyedd yn elfen hanfodol o'r Weledigaeth Twf i'r Gogledd i sicrhau bod twf yn gynhwysol. Mae darparu cefnogaeth cyflogadwyedd ledled y Gogledd yn or-gymhleth ac nid oes gan lawer o ddarparwyr ddealltwriaeth lawn o'r ystod o ddarpariaeth sydd ar gael. Ni fydd profiad y cleient yn gydlynol ac mae cleientiaid yn debygol o gael eu 'hailgylchu' rhwng darparwyr yn hytrach na'u cefnogi i symud yn agosach at y farchnad lafur. Mae gan fusnesau rôl hanfodol wrth gefnogi cleientiaid bregus i ennill sgiliau a phrofiad gwaith a chyfleoedd cyflogaeth, ond mae ymgysylltiad yn ddi-drefn heb unrhyw gydlyniad, dulliau cyffredin na systemau a rennir.

Sefydlwyd grŵp tasg a gorffen gyda swyddogion o Lywodraeth Leol, sefydliadau AB, Gyrfa Cymru, DWP, Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, cynrychiolwyr cyflogwyr a Llywodraeth Cymru fel is-grŵp o'r Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol gyda'r dasg o ddatblygu cynllun gweithredu i ymdrin â'r ymyraethau cynnar a oedd eu hangen. Cyflwynwyd y Cynllun Gweithredu i'r Bartneriaeth ym mis Chwefror 2019 ac mae wedi'i atodi er gwybodaeth yn ***Atodiad 3***.

Mae cynllun gweithredu'r rhaglen yn canolbwyntio i ddechrau ar:

- beilota llwybrau wedi'u teilwra i mewn i raglenni cyflogaeth ar gyfer y sectorau adeiladu a lletygarwch - gan ddwyn ynghyd yr ystod o ddarpariaeth i mewn i lwybr dilyniant a reolir ar gyfer cleientiaid;
- ymgysylltu â'r ystod eang iawn o ddarparwyr ac adeiladu cymuned o ymarfer i godi safonau a gwella cydlyniad;
- creu systemau cyffredin ar gyfer ymgysylltiad busnesau ac ar gyfer asesiad anghenion cleientiaid (gan gysylltu i ddatblygu'r canolbwynt twf); ac
- adeiladu cysylltiadau gweithredol rhwng darparwyr a rhaglenni, yn cynnwys rhaglenni newydd Llywodraeth Cymru.

*STEM Rhanbarthol*

Nod y prosiect hwn yw hyrwyddo, gwella a chydlynu'r ddarpariaeth STEM ar gyfer disgyblion rhwng 4 a 18 mlwydd oed, ac felly'n gwneud dysgwyr ifanc o ysgolion a cholegau yn fwy cyflogadwy i fusnesau yn y Gogledd.

Ar hyn o bryd, mae'n dal i gael ei ddatblygu, ond bydd y prosiect yn ystyried gwella a chydlynu gweithgareddau STEM ledled y Gogledd. Byddai'r dull hwn yn:

- Sicrhau bod holl ddysgwyr y Gogledd yn elwa o wella STEM (gan gyflogwyr a chyrff eraill) sy'n cyfoethogi eu hastudiaethau ysgol ac mae hynny'n rhoi brwdfrydedd i ddysgwyr ifanc i ddilyn cyrsiau sy'n ymwneud â STEM ac o bosib gyrfaoedd;
- Ceisio achrediad "STEM Sicr" neu debyg ar gyfer y ddarpariaeth ledled y rhanbarth i sicrhau y gall cyflogwyr cyfredol ddenu'r nifer o ymgeiswyr ar gyfer cyflogaeth gyda'r sgiliau, y wybodaeth a'r frwdfrydedd addas;
- Sicrhau bod y Gogledd yn sefyll allan, a'r tu hwnt i ranbarthau eraill yn y DU pan fo cyflogwyr yn ystyried mewnfuddsoddiad ac yn chwilio am weithlu addas i'r dyfodol.

Cyflwynwyd papur opsiynau i gyfarfod y Bartneriaeth ym mis Mai ac yn dilyn cytundeb cyffredinol, cynhaliwyd cyfarfod ymchwil gyda'r Sefydliad STEM ynghylch yr opsiynau o naill ai:

- Gael eu 'nod barcud' ar gyfer y strategaeth, y fframwaith a'r cynllun a ddatblygir ar gyfer gweithgareddau STEM ychwanegol yn y Gogledd, neu
- Ddefnyddio eu Strategaeth STEM a phrosesau STEM Sicr i ddatblygu'r gwaith hwn yn y rhanbarth.

O ystyried rôl allweddol Sefydliadau AB yn y broses hon, mae trafodaethau cychwynnol wedi'u cynnal gyda Coleg Cambria a Grŵp Llandrillo Menai i geisio eu cefnogaeth ar gyfer y datblygiad ac i ymchwilio i ddulliau posib i gyrraedd y nod. Roedd y ddau Sefydliad AB yn gefnogol i'r datblygiad mewn egwyddor, ond roeddent yn awyddus i drafod hyn ymhellach er mwyn ehangu eu dealltwriaeth a sicrhau ei fod yn cyd-fynd â pholisïau a strategaethau cenedlaethol a rhanbarthol sydd ar ddod, ac yn ategu atynt. (Ar hyn o bryd, mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn edrych ar ddatblygu cerbyd annibynnol i gasglu a rhannu arfer dda a gwthio ffiniau datblygu a chyflawni'r cwricwlwm. Mae hyn yn sgil ymweliad â Gwlad y Basg).

Y Dull Arfaethedig - Bod y Grŵp Gweithredol a'r Bartneriaeth yn sefydlu Grŵp Prosiect Fframwaith STEM ar y cyd er mwyn paratoi'r briff i gomisiynu gwaith pellach, adeiladu ar dystiolaeth a chyfeiriad y Cynllun Sgiliau Rhanbarthol ac osgoi dyblygu a sicrhau bod y fframwaith yn cael ei wreiddio o fewn cynlluniau rhanbarthol. Cynigir bod y Grŵp Prosiect yn adrodd yn ôl i'r Grŵp Gweithredol ym mis Medi, gyda chostau amlinellol ac argymhellion i'w gweithredu, cyn cyflwyno'r briff am y gwaith i'r Bwrdd Uchelgais. Caiff y dull hwn ei grynhoi yn ***Atodiad 2.***

*Sgiliau Digidol i Ogledd Cymru*

Nod y prosiect hwn yw gwireddu 'uchelgais a dymuniad y Gogledd i ddatblygu sgiliau, rhwydweithiau a pherthnasau digidol ardderchog ledled y rhanbarth; annog cydweithio rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat a darparu'r gwerth gorau i drigolion, busnesau a'r economi.'

Mae'r gwaith o ddatblygu'r prosiect yng nghamau cynnar yr ymchwil i sgopio'r hyn sydd ei angen, er mwyn gallu datblygu cynllun cyflawni clir i wella sgiliau digidol gweithlu'r Gogledd heddiw ac yn y dyfodol. Bydd yn bartneriaeth rhwng Prifysgol Bangor, Prifysgol Glyndŵr, Grŵp Llandrillo-Menai, Coleg Cambria a'r chwe Awdurdod Lleol. Caiff y cynllun cyflawni ei gydlynu gan y Bartneriaeth Sgiliau a Chyflogaeth Ranbarthol.

Mae'r negeseuon allweddol hyd yma yn cynnwys:

- Mae'n rhaid i ni gynyddu'r cyflenwad o sgiliau digidol ar draws yr economi. Tyfodd nifer y swyddi digidol, sy'n gofyn am lefel uchel o sgiliau ac sy'n talu'n dda, ddwywaith yn gyflymach na swyddi eraill rhwng 2011 a 2015 (Strategaeth Ddiwydiannol y DU).

- Mae'n rhaid i ni sicrhau fod y cwricwlwm cyfrifiadurol ar gyfer disgyblion 5-16 oed, yn cynnwys codio ac agweddau elfennol rhaglennu, yn uchelgeisiol ac yn drwyadl. Mae'n rhaid i ni gyflawni rhaglen gynhwysfawr i wella addysgu cyfrifiadureg a chynyddu cyfranogiad mewn cyfrifiadureg.
- Bydd yr oes ddigidol newydd yn newid swyddi a busnesau, ac rydym am sicrhau fod y gweithlu lleol yn y Gogledd yn medru cymryd mantais ar y cyfleoedd hyn.
- Bydd pwyslais penodol ar awtomeiddio digidol

*Iechyd a Gofal Cymdeithasol Gogledd Cymru - Datblygu Sgiliau*

Mae cyfarfod cychwynnol wedi'i gynnal gyda chynrychiolydd o Fwrdd Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol Gogledd Cymru, sy'n is-grŵp o Fwrdd Partneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Gogledd Cymru, i ddechrau'r broses o sgopio'r hyn y mae angen i'r prosiect hwn ganolbwyntio arno a datblygu achos busnes a chynllun gweithredu. Bydd yn dechrau gyda dadansoddiad anghenion i adnabod prinder sgiliau a'r bylchau a allai godi o ddisodli neu ail-ffurfweddu gwasanaethau, yn unol â chyflawni Cymru Iachach: Ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Gwaith cyfredol yw dadansoddiad pellach o anghenion.

***ATODIAD 2 - DULLIAU STEM***

## Paratoi Cynllun Sgiliau a Chyflogadwyedd Rhanbarthol

- Y Bartneriaeth i wneud dadansoddiad; ymgysylltu ac ymgynghori gyda'r holl randdeiliaid, yn cynnwys busnes, gyrwyr economaidd, darparwyr a dysgwyr; adnabod blaenoriaethau a pharatoi dogfennau drafft erbyn diwedd mis Gorffennaf 2019
- Y Grŵp Cyflawni Busnes i roi mewnbwn a sylwadau erbyn diwedd mis Gorffennaf 2019
- Y Bwrdd Uchelgais i roi mewnbwn a sylwadau erbyn diwedd mis Gorffennaf 2019
- Y Bartneriaeth i gyfwyno'r Cynllun i Lywodraeth Cymru erbyn mis Awst 2019
- Llywodraeth Cymru i gymeradwyo a mabwysiadu'r Cynllun erbyn diwedd mis Hydref 2019

## Paratoi Fframwaith STEM Rhanbarthol

- Y Bartneriaeth i sefydlu Gweithgor erbyn diwedd mis Mehefin
- Y Gweithgor i ddiffinio Sgôp a briff ar gyfer y Fframwaith STEM erbyn diwedd mis Awst 2019
- Y Bwrdd Uchelgais i gymeradwyo'r briff erbyn diwedd mis Medi 2019
- Llywodraeth Cymru i gymeradwyo'r briff erbyn diwedd mis Hydref 2019
- Fframwaith STEM i gael ei gomisiynu a'i ddatblygu gan y Bartneriaeth erbyn diwedd mis Chwefror 2020; a'i fabwysiadu a'i lansio gan y Bwrdd Uchelgais a Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2020

## Cyflawni'r Cynllun Gweithredu STEM Rhanbarthol

- Gweithgor y Bartneriaeth i adolygu rhaglenni ac ymarferion ac adnabod ymarfer da ac enillion cyflym fel rhan o waith datblygu Fframwaith STEM erbyn diwedd mis Rhagfyr 2019
- Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Uchelgais i adnabod adnoddau a chyhoeddi y cyflawnir camau gweithredu allweddol fel rhan o lansiad y Fframwaith STEM ym mis Mawrth 2020

# Llwybr Cyflogadwyedd Gogledd Cymru DRAFFT f0.2

## Y Llwybr Cyflogadwyedd

**Camau'r Llwybrau**

- Ymgysylltu
  Magu Hyder
- Cefnogaeth cyn cyflogaeth
  Datblygu sgiliau meddal
- Datblygu profiad gwaith
- Mynediad i'r farchnad lafur
- Sgiliau yn y gwaith er mwyn galluogi datblygiad

**Gwasanaethu cefnogol**

- Mentora er mwyn helpu unigolion i lywio'r system a pharhau i wneud cynnydd cadarnhaol
- Cefnogaeth arbenigol i fodloni anghenion unigol a goresgyn rhwystrau i gyflogaeth
- Prentisiaethau

## Nodau

- **Cyfrannu at dwf cynhwysol yn y Gogledd drwy alluogi i bobl sy'n hawlio budd-daliadau cysylltiedig â gwaith i fynd i mewn i'r farchnad lafur yn gynaliadwy.**
- **Cynyddu effeithlonrwydd ac effaith y gwasanaethau cefnogi cyflogadwyedd.**
- **Cefnogaeth cyflogadwyedd i ffurfio rhan o ddull gweithredu ehangach sy'n canolbwyntio ar y cleient i fodloni anghenion cymhleth.**

## Amcanion

- **Cydlynu cefnogaeth sy'n helpu pobl i mewn i waith ac annog cydweithio ac alinio rhwng darparwyr.**
- **Gwneud dod o hyd i help a chefnogaeth mor hawdd a syml â phosib.**
- **Darparu ymgysylltiad mwy cydlynol gyda chyflogwyr.**
- **Arddangos canlyniadau'n gyson gyda mesurau a rennir wedi'u symleiddio.**

36,400 2016 aelwydydd lle nad oes neb yn gweithio

98,100 2016 pobl o oed gwaith sy'n economaidd anweithredol

120,000 Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru o swyddi newydd a ragwelir dros yr 20 mlynedd nesaf

## Camau gweithredu blaenoriaeth

| | Chwe mis nesaf | Erbyn diwedd 2019 | Tymor hwy |
|---|---|---|---|
| 1. Cydlynu a symleiddio cefnogaeth sy'n helpu pobl i mewn i waith ac annog cydweithio ac alinio rhwng darparwyr. | • Ymgysylltu darparwyr y sector gwirfoddol a choladu / rhannu darpariaeth.<br>• Adnabod arfer a gwersi gorau wrth weithredu llwybrau cyflogadwyedd.<br>• Cysylltu i ddatblygu'r rhaglenni cefnogaeth cenedlaethol a rhanbarthol sydd ar ddod yn cynnwys Cymru'n Gweithio, ac alinio â nhw. | • Mapio'r ffrydiau gwaith cyfredol sy'n hyrwyddo sectorau penodol i fyfyrwyr a'r di-waith.<br>• Adeiladu cysylltiadau â pheilot Plant yn Gyntaf Llywodraeth Cymru.<br>• Peilota llwybrau cydlynol i raglenni cyflogaeth ar gyfer y sectorau adeiladu a lletygarwch.<br>• Cynyddu ymwybyddiaeth ynglŷn â rôl cyfleoedd dysgu cyfnod byr i gefnogi cyflogaeth a datblygiad. | • Cyfrannu at ddatblygu canolbwyntiau 'siop un-stop' mewn cymunedau ledled y Gogledd.<br>• Datblygu rhaglenni i annog cleientiaid sydd wedi gadael diweithdra i gefnogi eraill.<br>• Dylanwadu ar ddatblygu rhaglenni cyflogadwyedd a ffrydiau ariannu newydd i sicrhau eu bod yn gweddu i'r pecyn cyflawni rhanbarthol.<br>• Adnabod bylchau mewn darpariaeth a'u hamlygu i'r Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol. |
| 2. Gwneud dod o hyd i help a chefnogaeth mor hawdd a syml â phosib. | | • Adnabod ymarfer gorau wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i ymgysylltu â chleientiaid, a'u cefnogi. | • Mabwysiadu ap sy'n canolbwyntio ar y cleient er mwyn darparu ymgysylltiad, anogaeth, gwybodaeth, mynediad i gyfleoedd a chofnodi cyrhaeddiad.<br>• Mabwysiadu 'addewid cefnogaeth' - mae pob cleient yn cael gweithiwr achos i'w helpu nhw i lywio drwy'r gefnogaeth.<br>• Rhannu gwybodaeth am y Llwybr i staff rheng flaen ym mhob sector. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3. Darparu ymgysylltiad mwy cydlynol gyda chyflogwyr. | | • Annog cyrff y sector cyhoeddus i wneud gwell defnydd o gymalau gwerth cymdeithasol wrth gaffael.<br>• Annog cyflogwyr i agor cyfleoedd (yn debyg i Addewid Wrecsam).<br>• Adnabod ymarfer da wrth ddatblygu cynlluniau cymhelliant i gyflogwyr. | • Datblygu prosesau cyffredin i symleiddio profiad busnesau.<br>• Adeiladu ar lwyddiant cynlluniau broceriaeth blaenorol gyda rhaglenni ehangach.<br>• Datblygu llwyfannau i alluogi i gyflogwyr sy'n darparu profiad gwaith a chyflogaeth â chefnogaeth i rwydweithio a rhannu gwersi.<br>• Darparu cefnogaeth a chanllawiau i gyflogwyr i'w helpu nhw i ddarparu adborth mwy strwythuredig yn dilyn lleoliadau profiad gwaith.<br>• Adnabod cyflogwyr sy'n rhagori wrth ddarparu cyfleoedd a chreu cyfleoedd ar gyfer dysgu ar y cyd.<br>• Adeiladu rhwydweithiau cefnogaeth yn y gwaith ar gyfer cyflogwyr a chyflogeion er mwyn magu gwytnwch. |
| 4. Arddangos canlyniadau safon uchel yn gyson gyda mesurau a rennir wedi'u symleiddio. | • Cynnal arolwg o'r timau staff cyfredol er mwyn deall yr anghenion cefnogi a rennir. | • Datblygu ystorfa a rennir o ymchwil ar anghenion grwpiau cleientiaid ac ar ymarfer da.<br>• Peilota sesiynau dysgu ar y cyd ar gyfer grwpiau ymarferwyr aml sectorau.<br>• Adolygu opsiynau safonau proffesiynol / cymwysterau ar gyfer staff cefnogol rheng-flaen. | • Mabwysiadu teclyn asesu cleientiaid cyffredin.<br>• Datblygu system cofnod cyrhaeddiad electronig (er enghraifft o fframwaith deilliannau Llywodraeth Cymru?)<br>• Mabwysiadu safonau cymwysterau cyffredin a chyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus ar gyfer staff rheng-flaen. |

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

## ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU
## 28 MEHEFIN, 2019

**TEITL:** *Sefydlu Is-grŵp Ynni a diweddariad ar Gynllunio Ynni Rhanbarthol*

**AWDUR:** *Rhys Horan, Arweinydd Strategol - Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru*

### 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Rhoi gwybod i Bartneriaid am y gwaith Cynllunio Ynni Rhanbarthol sydd yn mynd rhagddo ac argymell sefydlu a phenodi Is-grŵp Ynni.

### 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Sefydlu Is-grŵp Ynni gyda'r Rôl a'r Cylch Gorchwyl sydd wedi'u hamlinellu yn ***Atodiad 1***.

2.2. Penodi Aelod o'r Bwrdd Uchelgais Economaidd i weithredu fel aelod cyswllt ar gyfer yr Is-grŵp Ynni.

### 3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Er mwyn gwella'r gwaith o gydlynu prosiectau sy'n ymwneud ag ynni o fewn y rhanbarth a chyflawni'r Rhaglen Ynni Carbon Isel fel sydd wedi'i adnabod yn y Weledigaeth Twf.

3.2. Bod statws Is-grŵp yn cael ei ddatblygu fel rhan o'r adolygiad o'r trefniadau llywodraethu i'w sefydlu yng Nghytundeb Llywodraethu 2.

### 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Un Rhaglen allweddol o fewn y Weledigaeth Twf yw'r Rhaglen Ynni Carbon Isel. Bydd cyflawni'r Rhaglen Ynni Carbon Isel yn golygu bod y Gogledd yn un o'r lleoliadau arweiniol yn y DU ar gyfer cynhyrchu ynni a buddsoddiadau yn y gadwyn gyflenwi sy'n gysylltiedig ag ynni, gydag arbenigedd mewn technolegau carbon isel, ynni adnewyddadwy a storio ynni.

4.2. Bydd y Rhaglen yn sicrhau bod gan y Gogledd isadeiledd modern o safon uchel er mwyn hwyluso twf cynaliadwy yn y sector ynni carbon isel ac er mwyn hyrwyddo arloesedd a thechnoleg newydd. Bydd prosiectau peilot drwy'r Rhaglen hon yn batrwm ar gyfer ardaloedd arfordirol a gwledig.

4.3. Mae'r prosiectau sydd i'w hariannu drwy'r Cynllun Twf dan y Rhaglen hon yn cynnwys yr isod:

- Prosiect Gorsaf Bŵer Trawsfynydd
- Prosiect Morlais
- Prosiect Rhwydwaith Ynni Lleol Blaengar
- Canolfan Ragoriaeth Ynni Niwclear

4.4. Mae ynni carbon isel yn flaenoriaeth allweddol o fewn y Cynllun Twf. Mae datgarboneiddio'r economi yn flaenoriaeth ar draws Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru hefyd. Mae'r gyrwyr blaenoriaeth hyn yn rhoi heriau a chyfleoedd i'r rhanbarth.

4.5. Mae Strategaeth Twf Glân Llywodraeth y DU wedi adnabod dros £2.5bn o gyllid sydd ar gael ar gyfer gweithgaredd sy'n ymwneud â thwf glân. Mae Ffyniant i Bawb - Cymru Carbon Isel Llywodraeth Cymru wedi dwyn ynghyd 76 o bolisïau cyfredol yng Nghymru, y DU a'r UE sy'n cyfrannu at ddatgarboneiddio. Mae’n hanfodol bod y rhanbarth yn cymryd mantais llawn o'r cyfleoedd a gyflwynir gan y trosglwyddiad i economi glân, carbon isel.

4.6. Mae datblygu prosiectau'r Rhaglen Ynni Carbon Isel bellach yn mynd i gyfnod allweddol ac mae angen achosion busnes amlinellol manwl a chadarn er mwyn bodloni gofynion Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

4.7. Er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r prosiectau Ynni Carbon Isel, mae cefnogaeth wedi'i sicrhau drwy raglen Byw'n Glyfar Llywodraeth Cymru er mwyn ymgymryd ag astudiaethau dichonolrwydd o gwmpas pedair thema ynni allweddol:

- Gweledigaeth arloesedd ynni blaengar
- Datrysiadau oddi ar y grid nwy
- Canolbwynt arloesedd aml fector
- Datrysiadau hydrogen strategol

4.8. Bydd tystiolaeth a darganfyddiadau'r astudiaethau hyn yn hysbysu'r gwaith o ddatblygu'r prosiectau Ynni Carbon Isel.

4.9. Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu gwaith i ddatblygu cynlluniau ynni rhanbarthol ledled Cymru. Mae'r cynlluniau hyn yn cael eu cynnig ar gyfer y Gogledd, y De-ddwyrain a'r Canolbarth. Mae peth gwaith eisoes wedi'i wneud yn y De-orllewin (Rhanbarth Dinas Bae Abertawe) ac wedi arwain at gyhoeddiad y Sefydliad Materion Cymreig 'Rhanbarth Dinas Bae Abertawe: Dyfodol Ynni Adnewyddadwy: Gweledigaeth system ynni ar gyfer 2035'.

4.10. Mae'r gwaith cynllunio ynni rhanbarthol hwn wedi dechrau, ac mae'r adroddiad hwn yn darparu peth o'r allbwn cychwynnol i'w ystyried gan y Bwrdd Uchelgais. Mae'r nodyn di-briffio a baratowyd yn dilyn y gweithdy cychwynnol ar gael ar gais. Ystyrir ei bod hi'n hanfodol bod y Bwrdd Uchelgais yn cadarnhau ac yn perchnogi gweledigaeth o'r fath yn llwyr.

4.11. Esgorodd y gweithdy cychwynnol ar ryw awgrym ar gyfer gweledigaeth ynni bosib e.e. bod yn arweinydd mewn cynhyrchu ynni carbon isel; bod ar lwybr i economi di-garbon ac ati. Cafwyd cydnabyddiaeth o'r angen am weledigaeth yn y dyfodol i geisio buddion cymdeithasol ehangach yn cynnwys mynd i'r afael â thlodi tanwydd ac ennill ymgysylltiad ehangach gyda'r cyhoedd mewn materion ynni a newid hinsawdd.

4.12. Adnabu'r gweithdy'r nodau a ganlyn ar gyfer datblygu cynllun ynni:

- Galluogi cynnydd mewn cefnogaeth ariannol a thechnegol gan lywodraethau
- Gosod cyfeiriad ar gyfer y daith
- Datblygu a harneisio'r potensial ar gyfer cadwyn cyflenwi morol
- Cyflawni twf hirhoedlog gydag etifeddiaeth sy'n para

4.13. Mae'r camau nesaf a gynigir wrth ddatblygu'r cynllun ynni rhanbarthol yn cynnwys cynhyrchu papur datganiad o weledigaeth i'w ddilyn gan fodel system ynni manwl a dadansoddiad economaidd. Yna, bydd strategaeth ddrafft yn dilyn.

4.14. Mae astudiaeth sy'n ymchwilio i ddatgarboneiddio trafnidiaeth ar waith hefyd. Bydd yr astudiaeth hon yn ymchwilio i opsiynau i ddatgarboneiddio trafnidiaeth o amgylch Porthladd Caergybi, Parc Cenedlaethol Eryri a Pharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy. Mae hi'n bwysig bod elfennau datgarboneiddio'r astudiaethau hyn yn cael eu bwydo i'r gwaith Cynllunio Ynni Rhanbarthol a ddisgrifir uchod.

4.15. Er nad oedd sefydlu Is-grŵp Ynni wedi'i gynnwys o fewn y Ddogfen Gynnig wreiddiol, mae'r diddordeb a'r pwysigrwydd parhaus a chynyddol ynghylch y sector ynni i'r rhanbarth yn codi'r achos dros sefydlu Is-grŵp neilltuol i gynllunio a goruchwylio'r gwaith o ddatblygu'r cynllun ynni rhanbarthol.

4.16. Bydd gan yr Is-grŵp Ynni y rolau a'r cyfrifoldebau a ganlyn

- Cynllunio a chydlynu dull gweithredu cydgysylltiedig a strategol ar gyfer ynni ledled y Gogledd, yn cynnwys datblygu'r Cynllun Ynni Rhanbarthol.
- Cynllunio a chydlynu cyflawni ymyraethau strategol, yn cynnwys prosiectau'r Cynllun Twf dan y rhaglen Mynediad Blaengar i Ynni.
- Adrodd ar gynnydd, perfformiad, deilliannau a materion ariannu i'r Bwrdd Uchelgais.

4.17. Bydd hi'n bwysig bod rhanddeiliaid rhanbarthol allweddol yn cynnwys Llywodraeth Cymru, y ddwy Brifysgol, Rhwydweithiau Ynni SP (SPEN) ac ati yn cael eu cynnwys yng ngwaith yr Is-grŵp i sicrhau bod ynni fel maes polisi trawsbynciol yn cael ei gefnogi'n briodol.

4.18. Mae Rôl a Chylch Gorchwyl arfaethedig yr Is-fwrdd Ynni wedi'u hamlinellu yn ***Atodiad 1***. Rhagwelir y byddai'r Is-grŵp yn cyfarfod bob chwarter.

4.19. Bydd yr Is-grŵp yn dwyn ynghyd ffynhonnell gyfoethog o wybodaeth, profiad ac arloesedd, yn cael mynediad i nifer o sefydliadau, gan ganiatáu ar gyfer gwell sgôp ac amrywiaeth ar gyfer dysgu a datblygu o fewn y sector ynni.

4.20. Bydd gan yr Is-grŵp elfen drawsffiniol gref, a bydd yn ceisio cydlynu gweithgareddau yn y sector ynni er mwyn ymelwa ar gyfleoedd newydd a gwella arloesedd.

**5. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

5.1. Dim.

**6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

6.1. Y cynnig yw sefydlu Is-grŵp o Swyddogion a Rhanddeiliaid perthnasol i gynghori'r Bwrdd Uchelgais Economaidd. Nid yw'n Is-fwrdd Aelodau (Is-bwyllgor) ac nid oes ganddo statws nac aelodaeth ffurfiol na'r gallu dirprwyedig i wneud penderfyniadau.

**7. GOBLYGIADAU STAFFIO**

7.1. Dim wedi'u hadnabod.

## 8. EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

8.1. Dim wedi'u hadnabod.

## 9. YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD

9.1. Amherthnasol.

**ATODIADAU:**

| | |
|---|---|
| **Atodiad 1** | Cylch Gorchwyl yr Is-grŵp Ynni |

---

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro - Corff Atebol:**

"Rwyf wedi gweithio gyda'r awdur i ddatblygu'r adroddiad yma."

**ii. Pennaeth Cyllid - Corff Atebol:**

"Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol."

**ATODIAD 1**

**YR IS-GRŴP YNNI**
**CYLCH GORCHWYL**

**DIBEN:**

- Cynllunio a chydlynu dull gweithredu cydgysylltiedig a strategol ar gyfer ynni ledled y Gogledd, yn cynnwys datblygu'r Cynllun Ynni Rhanbarthol.
- Cynllunio a chydlynu'r gwaith o gyflawni ymyraethau strategol, yn cynnwys prosiectau perthnasol y Cynllun Twf dan y rhaglen Ynni Carbon Isel.
- Adrodd ar gynnydd, perfformiad, deilliannau a materion ariannu i'r Bwrdd Uchelgais.

**PERTHYNAS GYDA'R BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD:**

- Gwahoddir Cadeirydd yr Is-grŵp i rai cyfarfodydd y Bwrdd Uchelgais i adrodd ar gynnydd, perfformiad a deilliannau.
- Bydd ar yr Is-grŵp angen diweddariadau perthnasol gan arianwyr prosiectau ar gyfer pob un o'r prosiectau Ynni Carbon Isel, sef Morlais, Prosiect Rhwydwaith Ynni Lleol Blaengar, Gorsaf Bŵer Trawsfynydd a'r Ganolfan Ragoriaeth Niwclear.

**AELODAETH:**

**Aelodau Craidd**

Bydd aelodaeth graidd yr Is-grŵp yn cynnwys:

| **Sefydliad** | **Cynrychiolydd** |
|---|---|
| Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | Aelod Cyswllt ac Ariannwr y Prosiect Carbon Isel |
| Awdurdod Lleol | I'W GADARNHAU |
| Llywodraeth Cymru / Llywodraeth y DU | I'W GADARNHAU |
| Bwrdd Cyflawni Busnes / Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy | Cadeirydd |
| Cynrychiolydd o'r sector ynni morol | I'W GADARNHAU |
| Cynrychiolydd o'r sector ynni niwclear | I'W GADARNHAU |
| Cynrychiolydd o'r sector ynni cymunedol | I'W GADARNHAU |
| Cynrychiolydd o'r sector ynni gwynt ar y môr | I'W GADARNHAU |
| Gweithredwr Rhwydwaith Darparu / Gweithredwr System Trawsyriant | I'W GADARNHAU |
| Cynrychiolydd o'r sector Trafnidiaeth | I'W GADARNHAU |
| Cynrychiolydd o'r sector Gwresogi | I'W GADARNHAU |
| Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru | Arweinydd Strategol |
| Addysg Uwch | I'W GADARNHAU |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | I'W GADARNHAU |

Bydd aelod cyswllt y Bwrdd Uchelgais yn cadeirio cyfarfod cyntaf yr Is-grŵp, a bydd yr aelodau yn penderfynu bryd hynny pwy fydd yn Cadeirio cyfarfodydd y dyfodol

Caiff cynrychiolwyr eu henwebu gan y sector neu'r corff perthnasol. Dylent fod ar lefel ddigon uchel neu fod â phresenoldeb digonol yn y sector er mwyn gwerthfawrogi gwaith y Grŵp yn llawn.

**Gwrthdaro Buddiannau**

Er mwyn caniatáu i'r Grŵp ymgymryd â'i holl swyddogaethau, gwneir gwahaniaeth clir rhwng y rheini sy'n ymwneud â datblygu prosiectau penodol a'r rheini sy'n paratoi argymhellion am y prosiectau hynny i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Gweithredir system gadarn o ddatgan gwrthdaro buddiannau.

Bydd yr Is-grŵp yn cysylltu â phartneriaid allweddol eraill yn yr ardal sydd â diddordeb materol yn y prosiectau sy'n cael eu datblygu ac yn y gwaith o ddatblygu cynllun ynni rhanbarthol ac sydd ynghlwm â pharatoi, gweithredu a chyflawni gwaith yn yr ardal hon. Bydd y partneriaid hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Diwydiant
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Awdurdodau Lleol Unigol
- Partneriaeth Twf Canolbarth Cymru
- Rhanbarth Dinas Lerpwl
- Partneriaeth Mentrau Lleol Swydd Caer a Warrington
- Addysg Bellach
- Datblygwyr ynni morol

Gall yr Is-grŵp ystyried pa gyrff eraill, os o gwbl, y mae'n dymuno eu gwahodd i gyfrannu at ei waith ac i ba raddau.

Dylai'r aelodaeth gael ei hadolygu'n rheolaidd i sicrhau bod y diben sydd wedi'i adnabod yn cael y gefnogaeth a'r adnoddau i'w gyflawni.

Gall eraill fynychu'r cyfarfodydd fel sylwedyddion gyda chytundeb yr Is-grŵp.

**YSGRIFENYDDIAETH:**

Darperir cefnogaeth weinyddol i'r Is-grŵp gan swyddfa rheoli rhaglen y Bwrdd Uchelgais. Mae hyn yn cynnwys:

- Sicrhau y caiff yr Is-grŵp ei sefydlu a'i fod yn cyfarfod yn rheolaidd;
- Paratoi rhaglen a phapurau cyfarfodydd;
- Gwahodd cyfranwyr a rheoli presenoldeb.

**ADOLYGU:**

- Caiff y Cylch Gorchwyl ei adolygu'n flynyddol.